Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 19eg Mai, 2015 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor<br>Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Bethan Richardson<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.gov.uk |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | **Aelodau** |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Iaith, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | | | |
| 2 | Datgan Buddiant Personol | | | |
| 3 | Materion Brys | | | |
| 4 | Materion yn Codi o Bwyllgorau Craffu | | | |
| 5 | Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fai 2015 | | | 1 - 3 |
| 6 | Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Ysgol y Gader - penderfyniad statudol | | | 4 - 83 |
| 7 | Mabwysiadu a Hyrwyddo Enw Parth .cymru | | | 84 - 87 |

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**
**COFNODION**
**19 Mai 2015**

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol** –
Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Cyllid), Guto Rhys Huws (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Idris Jones (Rheolwr Cyswllt Cwsmer), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

**1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau –
Cyng. Peredur Jenkins, Cyng. Louise Hughes (Aelod Lleol – ar gyfer eitem 6).
Yr Aelodau Lleol canlynol yn ymddiheuro a datgan buddiant ar eitem 6 – Linda Morgan, Gethin Glyn Williams, John Pughe Roberts.
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Prif Swyddog Cyllid), Arwyn Thomas (Prif Swyddog Addysg).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen (Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch y Gader), oherwydd bod ei Fab yn ddisgybl yn Ysgol y Gader Dolgellau, ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Gader Dolgellau ac yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Dolgellau.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Mai 2015.

## 6. DYFODOL DARPAPRIAETH ADDYSG YN NALGYLCH YSGOL Y GADER – PENDERFYNIAD STATUDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Gweithredu ar y cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cymunedol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Dinas Mawddwy, Llanelltyd a Friog ar 1 Medi 2017.

Yn sgil pwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddo/iddi gael ei b/phenodi ymlaen llaw, cymeradwyo sefydlu corff llywodraethol cysgodol yn ystod Tymor yr Haf 2015 ac yna cyllido pennaeth yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol o arbedion y cynllun cyn gynted a phosibl.

Gohirio cadarnhau rhybudd statudol Ysgol Machreth (Llanfachreth) er mwyn cael mwy o eglurdeb yn dilyn datblygiadau diweddar. Gellir ail gyflwyno cais i gadarnhau rhybudd statudol i Ysgol Machreth ger bron y Cabinet yn y dyfodol heb amharu ar yr amserlen a nodir uchod.

## 7. MABWYSIADU A HYRWYDDO ENW PARTH .CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Prynu www.gwynedd.llyw.cymru a www.gwynedd.gov.wales pan fyddant ar gael.

Hyrwyddo www.gwynedd.llyw.cymru yn unig ar gyfer y wefan.

Parhau i ddefnyddio terfyniadau Cymraeg a Saesneg.

Cyfeiriadau cyfeillgar er mwyn cyfeirio cwsmeriaid i'r dudalen yn eu dewis iaith ar y wefan. (e.e. www.gwynedd.gov.uk/cynllunio a www.gwynedd.gov.uk/planning).

Mabwysiadu cyfeiriadau uniaith Gymraeg yn unig (@gwynedd.llyw.cymru) ar gyfer e-byst.

Mabwysiadu cyfeiriadau uniaith Gymraeg yn unig ar gyfer blychau e-bost generig sydd ar dudalennau Cymraeg a Saesneg y wefan (e.e.trethcyngor@gwynedd.llyw.cymru) .

Disodli cyfeiriadau www.gwynedd.gov.uk ar ddeunyddiau a chyhoeddiadau gyda www.gwynedd.llyw.cymru pan fyddant yn dod i ben.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 1.50pm.

---

**CADEIRYDD**

# ADRODDIAD I'R CABINET

Mai 19, 2015

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Y Gader

**Swyddog Cyswllt:** Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir**

i. Gweithredu ar y cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cymunedol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Dinas Mawddwy, Llanelltyd a Friog ar 1 Medi 2017.

ii. Yn sgîl pwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddo/iddi gael ei b/phenodi ymlaen llaw, cymeradwyo sefydlu corff llywodraethol cysgodol yn ystod Tymor yr Haf 2015 ac yna cyllido pennaeth yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol o arbedion y cynllun cyn gynted â phosibl.

---

**Barn yr aelodau lleol**

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. Ar 9 Hydref 2012, penderfynodd y Cabinet ar '*Gynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Addysg'* yn seiliedig ar y strategaeth hon.

1.2 Yn unol â Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â darpariaeth addysg yn nalgylch Y Gader, Dolgellau ers 2010.

1.3 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 16 Gorffennaf 2013 pan adroddwyd ar weledigaeth y dalgylch. Hanfod y weledigaeth amlinellol fyddai anelu at sicrhau'r deilliannau canlynol:

- Yr un cyfle a phrofiadau i holl ddisgyblion y dalgylch
- Mwy o sefydlogrwydd ar draws yr holl ddalgylch
- Gwell dilyniant ar draws yr ystod oedran
- Cyfleodd i rannu arbenigedd staff a mwy o gyfleoedd o ran datblygiad proffesiynol
- Cyfleoedd ehangach i gydlynu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig cefnogi teuluoedd
- Cryfhau'r ddarpariaeth addysg ar draws y dalgylch gan osod y sylfeini ar gyfer cydweithio, cydgynllunio a chyd-ddatblygu i'r dyfodol

Mae dyhead i sicrhau darpariaeth addysg gadarn a chynaliadwy yn y dalgylch cyfan, a hynny ar draws yr holl sectorau. Bydd hyn yn golygu ystyriaeth i resymoli nifer, natur a statws yr ysgolion mewn rhai rhannau o'r dalgylch. O wireddu'r weledigaeth yn llawn golyga hyn y bydd modd cryfhau'r ddarpariaeth addysg yn nalgylch Y Gader.

1.4 Ym mis Rhagfyr 2013 cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet lle cymeradwywyd edrych ar y dalgylch yn ei gyfanrwydd, yn unol â'r argymhellion isod:

i. *Cadarnhau ehangu'r gwaith i alluogi llunio ystod o fodelau fyddai'n cyfarch y dalgylch yn ei gyfanrwydd, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion penodol ar gyfer ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i'r Cabinet.*
ii. *Awdurdod i gynnal asesiad er adnabod a mesur yr angen yn y dalgylch ar gyfer darpariaeth addysg o gategori a dynodiad penodol fel rhan ac i gyfarch anghenion y broses o adnabod argymhellion yn unol ag i. uchod.*
iii. *I ystyried oblygiadau cyllidol posib a'r opsiynau i gyfarch yr oblygiadau hynny, ac yn sgil hynny gwarantu fod y Cabinet yn cynnwys unrhyw ofynion gweddilliol i wireddu'r cynllun fel rhan o adolygiad y cynllun rheoli asedau.*
iv. *Gan fod Ysgolion Gwirfoddol Eglwysig o fewn cwmpas y broses, dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Addysg i benderfynu ar gynnal rhag ymgynghoriad yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 gyda'r Eglwys petai hynny'n ofynnol cyn cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet gyda'r opsiwn a ffefrir i ofyn caniatâd cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol arno*

1.5 Ym mis Medi 2014 cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet lle cymeradwywyd yr argymhellion:

i. *I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017.*
ii. *I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 cymunedol ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog, ar 1 Medi 2017.*

1.6 Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Y Gader ym mis Ebrill 2010 a chynhaliwyd saith cyfarfod. Roedd cynrychiolwyr o bob ysgol yn y Panel - pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant lywodraethwyr. Rhoddwyd gwahoddiad yn ogystal i'r Aelodau Lleol ac i gynrychiolaeth o'r Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Bangor) a chynrychiolydd o Goleg Llandrillo Menai.

1.7 Derbyniodd a thrafododd y Panel ystod eang o dystiolaeth, yn ystadegau ysgolion, cefndir ariannol, gwybodaeth am ddatblygiadau ar lefel genedlaethol (gan gynnwys canllawiau'r Llywodraeth ar ymdrin â chynigion ad-drefnu ysgolion) a rheoliadau newydd ar sefydlu patrymau cyd-weithio/ffederasiwn rhwng ysgolion.

1.8 Cynhaliwyd cyfarfod Panel Adolygu Dalgylch ym mis Mai 2014 ac yno cyflwynwyd gwaith cefndirol yn seiliedig ar y dalgylch cyfan. Roedd hyn yn cynnwys rhestr hir o fodelau yn seiliedig ar y dalgylch, y ffordd ymlaen arfaethedig (y cyfeiriad ar hyn o bryd) ac eglurhad o'r prosesau statudol.

1.9 Cyd-destun pwysig yw'r buddsoddiad cyfalaf sydd ar gael i'r dalgylch. Ers cychwyn trafodaethau yn y dalgylch, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu rhaglen fuddsoddi cyfalaf o'r enw 'Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain'. Fel rhan o'r rhaglen hon mae £3.6miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer Dalgylch Y Gader, swm sydd wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor. Bydd angen cyflwyno achosion busnes cynhwysfawr i ddenu'r arian. Mae angen ystyriaeth fanwl i'r defnydd gorau o'r buddsoddiad ac fel y trafodwyd yn adroddiad Cabinet Rhagfyr 2013, gan fod y dalgylch cyfan yn cael ei drafod, bydd unrhyw anghenion ariannol ychwanegol yn cael eu cynnwys fel rhan o adolygiad y cynllun rheoli asedau.

## 2. CYFNOD YMGYNGHORI STATUDOL

2.1 Yn unol â gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 10 Hydref ac 1 o'r gloch y prynhawn ar 24 Tachwedd 2014.

2.2 Paratowyd dogfen ymgynghorol statudol, yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a dosbarthwyd y ddogfen i'r ymgynghorai perthnasol. Mae'r ddogfen a'r holl ddogfennau cefndir i'w gweld ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion.

2.3 Derbyniwyd 82 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol gan gynnwys ymatebion gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni unigol, yn ogystal â nifer o gyrff.

2.4 Ym mis Tachwedd 2014 cynhaliwyd dau ddiwrnod agored yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau. Roedd arddangosfa o'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghorol a swyddogion o adrannau perthnasol (e.e. addysg, eiddo, personél ac ati) ar gael i egluro ac ymateb ymholiadau. Roedd hefyd cyfle i gael copi o unrhyw ddogfennaeth ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Mynychodd dros 100 o bobl y dyddiau agored.

2.5 Crëwyd dogfen ymgynghorol a holiadur i blant cynradd a phlant uwchradd. Trefnwyd bod hwylusydd arbenigol yn ymweld â'r holl ysgolion er mwyn cynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn.

2.6 Derbyniwyd ymateb gan Estyn yn ystod y cyfnod ymgynghorol oedd yn nodi bod y cynnig yn "debygol o gynnal ac o bosibl gwella safonau presennol y ddarpariaeth addysgol" yn y dalgylch. Derbyniwyd hefyd ymateb gan Grŵp Llandrillo Menai oedd yn nodi bod y cynnig yn "synhwyrol ac yn gynaliadwy" ac yn rhoi cefnogaeth swyddogol i'r datblygiad. Mae'r Cyngor yn falch o'r gefnogaeth gan y sefydliadau addysgol hyn.

2.7 Ar 13 Ionawr 2015 cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn cynnwys yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghorol. Yn y cyfarfod, penderfynwyd:

i. *Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16*

*cymunedol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog, ar 1 Medi 2017.*

ii. *Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.*

iii. *Yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad yn gysylltiedig â phwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddynt gael eu penodi o flaen amser, cymeradwyo cyllido pennaeth yr ysgol ddilynol ddalgylchol o arbedion y cynllun am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2017.*

## 3. CYFNOD GWRTHWYNEBU

3.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) cyhoeddwyd rhybuddion statudol ar 25 Chwefror 2015 a chynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 25 Chwefror a 25 Mawrth 2015.

3.2 Cyhoeddwyd y rhybuddion statudol ar ddiwrnod ysgol 25 Chwefror 2015 a'u gosod ar giatiau'r 10 ysgol ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion. Dosbarthwyd copïau electroneg a chaled o'r rhybuddion yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Gwnaethpwyd yn glir yn y rhybuddion bod modd i unrhyw un wrthwynebu a sut yr oedd modd gwneud hynny.

3.3 Cyhoeddwyd pump rhybudd statudol:

**3.3.1 CAU YSGOL Y GADER, Dolgellau, LL40 1HY; YSGOL GYNRADD DOLGELLAU (Ysgol Wirfoddol a Reolir, Eglwys yng Nghymru), Dolgellau, LL40 2YW; YSGOL DINAS MAWDDWY, Machynlleth, SY20 9LN; YSGOL LLANELLTYD, Dolgellau, LL40 2TA; YSGOL IEUAN GWYNEDD, Rhydymain, Dolgellau, LL40 2AS; YSGOL FRIOG, Fairbourne, LL38 2RQ; ar 31 Awst 2017.**

**SEFYDLU Ysgol Ddilynol Dalgylchol 3-16 newydd ("yr ysgol 3-16") ar 1 Medi 2017. Bydd yr Ysgol 3-16 ar chwech safle, safleoedd presennol ysgolion Uwchradd Y Gader, Dolgellau, LL40 1HY, Cynradd Dolgellau, Dolgellau, LL40 2YW, Ieuan Gwynedd, Rhydymain, Dolgellau, LL40 2AS, Dinas Mawddwy, Machynlleth, SY20 9LN, Llanelltyd, Dolgellau, LL40 2TA a Friog, Fairbourne, Dolgellau, LL38 2RQ.**

**3.3.2 CAU YSGOL MACHRETH ar 31 Awst 2017.**

**3.3.3 CAU YSGOL BRITHDIR ar 31 Awst 2017.**

**3.3.4 CAU YSGOL Y CLOGAU ar 31 Awst 2017.**

**3.3.5 CAU YSGOL GANLLWYD ar 31 Awst 2017.**

3.4 Bydd yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol newydd yn Ysgol Gymuned Cyfrwng Cymraeg i enethod a bechgyn 3 i 16 oed ar safleoedd presennol ysgolion y Gader, Cynradd Dolgellau, Dinas Mawddwy, Llanelltyd, Friog a Ieuan Gwynedd (yn Rhydymain).

3.5 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, mae gofyn i'r Cabinet ystyried adroddiad ffurfiol o'r gwrthwynebiadau a'r ymateb iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig ai peidio.

## 4 GWRTHWYNEBIADAU A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y CYFNOD GWRTHWYNEBU

4.1 Pwrpas rhan hwn yr adroddiad yw cyflwyno crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ynghyd ag ymateb y Cyngor. Dadansoddwyd yr holl wrthwynebiadau gan nodi ymateb y Cyngor. Ceir y wybodaeth lawn yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

4.1.1 Derbyniwyd cyfanswm o 53 o wrthwynebiadau ysgrifenedig un ai ar bapur neu trwy gyfrwng e-bost. Derbyniwyd yn ogystal ddeiseb electronig ag arni 179 llofnod gan unigolion yn cytuno â'r datganiad canlynol:
*"Rydym ni, y rhai sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau yng Nghymru a Phennaeth Addysg Gwynedd i achub Ysgol y Clogau, Bontddu, Gwynedd rhag cael ei chau."*

4.1.2 Yn dilyn derbyn y gwrthwynebiadau, aethpwyd ati wedyn i'w dadansoddi a'u didoli o dan y penawdau isod:

- Addysg
- Y Gymuned
- Materion Staffio
- Yr Iaith Gymraeg
- Cludiant a Theithio
- Materion Safle ac Adeiladwaith
- Llywodraethu a Mynediad
- Y Broses Statudol
- Cyllid
- Ystadegau
- Opsiynau Amgen
- Cyffredinol

4.1.3 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i statws cymunedol arfaethedig yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol.

4.1.4 Nid oes bwriad fel rhan o'r cynnig hwn i ychwanegu na dileu dosbarthiadau meithrin, ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau am yr agwedd honno ac felly ni chyfeirir at y mater yn yr adroddiad hwn.

4.1.5 Fel rhan o'r cynnig hwn, nid oes newid i'r trefniadau presennol yn narpariaeth Tŷ Aran a Thŷ Meirion. Mae dyfodol Tŷ Aran a Thŷ Meirion wedi cael ei ystyried fel rhan o brosiect arall sydd yn delio gyda dyfodol darpariaeth addysg AAA ym Meirionnydd a Dwyfor. Fe fydd Tŷ Aran yn ail-leoli i ysgol Meirion-Dwyfor newydd ym Mhenrhyndeudraeth ym mis Medi 2016 a bydd Uned Tŷ Meirion yn parhau ar safle Ysgol y Gader.

### 4.2 ADDYSG

4.2.1 Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau yn amheus o'r deilliannau y disgwylir eu gweld yn sgîl gweithredu ar y cynnig hwn, yn enwedig deilliannau addysgol. Nodwyd bod yna elfen o risg gan nad oes enghraifft o'r math hwn o sefydliad addysgol i'w weld o fewn y Sir. Nododd rhai

ymatebwyr y dylid symud ymlaen gydag addysg yn y dalgylch ond nid drwy gymryd risg, gan ystyried nad yw'r model ysgol ddilynol ddalgylchol wedi'i brofi eto.

4.2.2 Gwella ansawdd addysg a phrofiadau plant yw un o brif amcanion strategaeth ad-drefnu ysgolion y Sir. Roedd gwella ansawdd addysg a ffactorau fel maint dosbarthiadau, arweinyddiaeth a rheolaeth, niferoedd disgyblion, ansawdd ac addasrwydd adeiladau sydd i gyd yn effeithio ar brofiadau disgyblion yn ffactorau a ystyriwyd wrth gyflwyno'r cynnig hwn.

4.2.3 Gallai'r math hwn o gynnig ddarparu cyfle i wella safonau addysg ar draws y dalgylch. Gallai sefydlu un ysgol ddarparu'r hyblygrwydd ar draws yr holl oedrannau sydd yn angenrheidiol i sefydlu ymarfer safonol o rannu adnoddau, staff a chyfarpar. Mae rhesymau pam nad yw hyn eisoes yn digwydd i'r fath raddfa, megis bod angen i nifer o benaethiaid a chyrff llywodraethu gytuno cyn y gall unrhyw rannu ddigwydd.

4.2.4 Dylai'r model ysgol ddilynol ddarparu cyd-destun mwy effeithiol i reolwyr reoli adnoddau ac i gynllunio addysg yn y sefydliad. Gallai ysgol ddilynol ddarparu cyfleoedd ychwanegol i gynnal ethos a gwerthoedd cyffredinol ar draws yr ysgol a dylai'r rhain ddarparu cyd-destun mwy effeithiol ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

4.2.5 Mae'n wir bod y model hwn yn un arloesol ond ni ddylai hynny fod yn rheswm dros beidio â chymryd y cyfle i sefydlu trefn addysgol gadarn i'r dyfodol. Mae'r model ysgol ddilynol wedi'i sefydlu mewn 4 ysgol yng Nghymru ac mae ffederasiwn yn y De sydd yn cynnwys un ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd. Mae'r Cyngor wedi cynnal ymchwil a thrafodaethau gyda rheolwyr y sefydliadau hyn ac wedi addasu'r model i gwrdd â gofynion penodol dalgylch Y Gader. Mae rhinweddau a risgiau'r model wedi cael eu hystyried yn llawn wrth werthuso'r modelau, ac ystyrir mai'r ysgol ddilynol ddalgylchol yw'r ffordd orau ymlaen.

4.2.6 Nodwyd gan nifer o wrthwynebwyr bod ansawdd addysg mewn ysgolion gwledig cynradd bychain, yn benodol Ysgol Clogau ac Ysgol Brithdir, yn llawer gwell nag ysgolion mwy o ran maint oherwydd y natur agos-at a theuluol, a'r gofal bugeiliol a'r profiadau addysgol cymunedol ac allgyrsiol a ddarperir yn yr ysgolion hynny. Nodwyd fod Ysgol Brithdir yn well nag unrhyw ysgol arall bron o ran nifer y plant sy'n mynychu, maint y dosbarthiadau, cost ariannol y disgybl a'r cyrhaeddiad academaidd. Cafwyd nifer fawr o ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu cau Ysgol Brithdir yn cyfeirio at y ffaith fod yr ysgol yn darparu addysg ragorol ac wedi'i nodi yn ddiweddar yn ysgol categori gwyrdd. Derbyniwyd gwrthwynebiadau oedd yn cyfeirio at y ffaith fod yr elfen allgyrsiol yn y Brithdir yn allweddol ac yn rhan bwysig o ddatblygiad y disgyblion eu hunain ond hefyd yn gyfraniad pwysig i'r gymuned.

4.2.7 Nodwyd yn ogystal mai Ysgol Clogau oedd un o ddim ond dwy ysgol gynradd yn yr ardal i gael Gradd 1 mewn 5 o'r 7 maes yn yr adroddiad Estyn diwethaf. Cafwyd nifer fawr o ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu cau Ysgol Clogau ac yn pwysleisio'r ffaith fod yr ysgol wedi darparu addysg o ansawdd uchaf ers degawdau ac yn gofyn pam fod yn rhaid newid.

4.2.8 Bwriad y cynnig hwn yw darparu cyfleoedd i ddisgyblion y dalgylch yn yr holl ystod oedran (3-16). Bydd yn cymedroli maint ac amrediad oedran dosbarthiadau i ran fwyaf y safleoedd cynradd, yn cynnig manteision cymdeithasol ac addysgol o ran bod disgyblion yn cael dysgu a chwarae ochr yn ochr â'u cyfoedion. Y bwriad yma yw creu safleoedd gwledig a threfol o faint cynaliadwy i'r dyfodol o ystyried bod niferoedd plant yn y dalgylch yn lleihau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau gydag addysg wledig yn y dalgylch, trwy barhau â safleoedd Dinas Mawddwy, Llanelltyd, Rhydymain a Friog. O ran maint y safleoedd, argymhellir creu capasiti o 75 yn Llanelltyd (lle cynigir lle i ddisgyblion Ysgol Clogau) a chapasiti o 70 yn

Rhydymain (lle cynigir lle i ddisgyblion Ysgol Brithdir). Y gobaith wrth reswm ydy y bydd ethos ac awyrgylch gartrefol yr ysgolion gwledig yn parhau ac yn ffynnu yn holl safleoedd yr ysgol ddalgylchol newydd. Mae cryn waith ymchwil wedi'i wneud i ddarganfod beth sydd angen ei wario yn y safleoedd y bwriedir buddsoddi ynddynt.

4.2.9 O ran maint dosbarthiadau, mae pob dosbarth yn Ysgol Clogau ac Ysgol Brithdir yn cynnwys amrediad oedran 4 blwyddyn (3-7 oed a 7-11 oed). Rhagwelir bydd llai o amrediad oedran yn safle Llanelltyd a Rhydymain gyda 3 blwyddyn mewn un dosbarth ar y mwyaf. Rhagwelir dosbarthiadau o faint mwy addas yn safleoedd Llanelltyd a Rhydymain gyda disgyblion yn gallu dysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion. Mae'r Cyngor yn falch o glywed rhieni yn canmol yr addysg a ddarperir yn Ysgol Brithdir ac yn Ysgol Clogau, bod trigolion lleol yn nodi bod gofal gwych o'r disgyblion a bod yr ysgol yn un hapus a theuluol.

4.2.10 Derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau oedd yn cyfeirio at y ffaith nad yw'r gwariant ar safle Rhydymain yn creu awyrgylch dysgu o ansawdd uchel ac mai gwariant israddol sydd i weld yn cael ei wneud yn Rhydymain o'i gymharu â'r safleoedd eraill yn Llanelltyd a Chynradd Dolgellau.

4.2.11 Yn ystod trafodaethau ad-drefnu ysgolion mae dymuniad cryf wedi'i fynegi gan drigolion y dalgylch i barhau ag addysg wledig. Yn sgil hyn mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw addysg wledig yn opsiwn a gwneud hyn trwy gynnwys safle Rhydymain yn rhan o'r model a ffefrir. Golyga hyn bod opsiwn addysg wledig yn nwyrain y dalgylch. Bydd cynaladwyedd safle Rhydymain yn fwy hyfyw yn dilyn y buddsoddiad i'w ymestyn. Os oes dyhead yn lleol i gadw addysg wledig, y gobaith yw y bydd rhieni yn cefnogi safle addysgol Rhydymain. Drwy ddod â phlant yr ardaloedd lleol (Machreth, Brithdir a Rhydymain) at ei gilydd mewn un safle, y gobaith yw bydd y safle yn Rhydymain yn un ffyniannus.

4.2.12 Ni fydd newid i'r ffigwr buddsoddiad sydd wedi'i glustnodi ar gyfer uwchraddio safle Rhydymain, sef £620,000. Eisoes mae ymgynghoriad wedi bod gyda llywodraethwyr ac aelodau staff Ysgol Ieuan Gwynedd i geisio cyfarch dyheadau lleol. Bydd unrhyw waith uwchraddio yn cyrraedd disgwyliadau'r 21ain ganrif.

4.2.13 Nodwyd gan un gwrthwynebydd nad oes rheswm pam na ddylai staff o safleoedd gyfarfod i drafod a rhannu arfer dda. Yn wir dywed nad yw hyn yn newydd a gallai ddigwydd mewn modd anffurfiol yn hytrach na ffurfiol. Nodwyd bod staff a phenaethiaid eisoes yn cyfarfod yn rheolaidd e.e. yn y prosiect 'Ysgol i Ysgol'.

4.2.14 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai trefniadau cydweithio gwirfoddol yn bodoli yn y dalgylch eisoes. Gan fod yr ysgolion yn sefydliadau addysgol ar wahân ar hyn o bryd, gyda chyrff llywodraethol unigol, nid yw'n rhwydd sicrhau cysondeb llwyr ar draws yr ysgolion i gyd. Gall, er enghraifft, un corff penderfynu beidio â chydweithio ar unrhyw adeg. Er bod yr un cwricwlwm yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd, gall y cynnig newydd sicrhau bod yr un themâu yn cael eu haddysgu ar yr un adeg fel bod cydweithio yn ystod tymor penodol yn bosib. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr ysgolion presennol yn gweithio o fewn yr un gweithdrefnau ond wrth sefydlu un ysgol o dan un drefn reolaethol (un corff llywodraethu, un pennaeth ac un tîm rheoli) bydd yn cysoni'r profiadau ymhellach.

4.3 **Y GYMUNED**

4.3.1 Derbyniwyd gwrthwynebiadau gan drigolion y pentrefi gwledig yn y dalgylch, yn enwedig y Brithdir a'r Bontddu oedd yn teimlo fod dirwyn yr ysgol i ben yn y pentref yn golygu rhoi diwedd ar y gymuned.

4.3.2 Diben ysgol mewn unrhyw bentref yw darparu addysg o'r radd flaenaf i'r disgyblion. Er hynny, cydnabyddir bod ysgol yn gallu bod yn rhan annatod o'r gymuned gyfagos a bod gan drigolion deimladau cryfion ynghylch cynnal yr ysgol leol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod wynebu newid o unrhyw fath yn gallu achosi ansefydlogrwydd. Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw 'mlaen â'r cynnig, yna fe wneir pob ymdrech i geisio lliniaru'r newid a chyfathrebu gwybodaeth yn amserol i bob un o'r rhan-ddeiliaid sydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig.

4.3.3 Bydd cyswllt cymunedol yn un o'r ystyriaethau wrth sefydlu'r ysgol newydd arfaethedig. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cau safleoedd addysgol mewn pentref yn gallu cael effaith negyddol ar y cymunedau ond bod mesurau lliniaru yn gallu lleihau'r effaith negyddol. Mae'r adroddiad Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn awgrymu'r mesurau lliniaru canlynol:

- *"Er mwyn creu ysbryd cynhwysol a pherchnogaeth, dylid sicrhau ar gychwyn a thrwy gydol y broses drosiannol fod Llywodraethwyr pob ysgol yn rhan annatod o'r datblygiadau a'r penderfyniadau gyda gwybodaeth reolaidd yn cael ei raeadru i rieni,*
- *Ymgynghori'n briodol gyda'r pentrefi a'r cymunedau lleol o ran cytuno ar ddefnydd pwrpasol o'r holl adeiladau i'r dyfodol*
- *Dylid rhaglennu i sicrhau fod cyfran o weithgareddau cymdeithasol yr ysgolion newydd (cyngerdd, noson goffi, ayyb) yn cael eu cynnal yn y pentrefi lle mae ysgolion yn cau, yn ogystal â'r pentrefi lle bydd presenoldeb safle ysgol yn parhau*
- *Dylai'r Cyngor sicrhau fod cynlluniau cludiant ysgol yn bwrpasol"*

Pe bai'r model yn cael ei weithredu, gall y Cyngor roi ystyriaeth briodol i'r mesurau lliniaru nodwyd yma.

4.3.4 Mae ystyriaeth eto wedi bod i effaith cymunedol parthed y cynnig arfaethedig, yn dilyn derbyn y gwrthwynebiadau. Ystyrir fod canfyddiadau yr asesiadau yn parhau yn gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad.

4.4 **MATERION STAFFIO**

4.4.1 Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau yn cyfeirio at staff ymroddgar, proffesiynol a gweithgar yn ysgolion y dalgylch a'u bod yn ystod y cyfnod diwethaf wedi byw tan gwmwl y bygythiad bod eu hysgol yn cau. Nododd rhai gwrthwynebwyr fod ansicrwydd ynghylch swyddi ar ôl Medi 2017 wedi arwain at gyfnod o ansefydlogrwydd ac nad oedd aelodau staff wedi cael gwybodaeth am beth fyddai'r drefn o ran recriwtio.

4.4.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfnod yma yn un o ansicrwydd a all arwain at straen. Pe bai'r penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig yn cael ei wneud, bydd ymgynghorwyr Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i roi cymorth trwy gydol y broses. Bydd cyfathrebu clir ac agored gyda staff yn rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynnig.

4.4.3 Mae'r Cyngor wedi bod yn glir o gychwyn y broses bod y cynnig yn cynnwys cau pob ysgol. Byddai penderfynu ar nifer a mathau y swyddi yn yr ysgol newydd yn fater i'r corff

llywodraethol cysgodol a'r pennaeth. Hyd nes y sefydlir corff llywodraethol cysgodol ni ellir penodi Pennaeth newydd na chreu strwythur staffio newydd. Bydd yna broses penodi staff ar gyfer yr ysgol newydd.

4.4.4 Derbyniwyd rhai gwrthwynebiadau parthed sefyllfa arweinyddiaeth yn nalgylch y Gader. Yn ychwanegol, crybwyllwyd heriau arweinyddiaeth sydd wedi codi yn yr ysgol uwchradd yn ddiweddar a chwestiynwyd pam bod y newidiadau i'w gweld yn effeithio ar y sector cynradd yn fwy nag ar y sector uwchradd.

4.4.5 Mae Ysgol Y Gader yn derbyn cefnogaeth a chynhaliaeth ychwanegol er mwyn datblygu ymhellach yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth sydd eisoes ar waith ac yn cael ei mesur wrth fonitro safonau cyflawniad y disgyblion. Yn 2014, mae tystiolaeth gadarn fod y cydweithrediad rhwng staff, llywodraethwyr a swyddogion wedi dwyn ffrwyth gyda'r canlyniadau a'r cymarebau lleol a chenedlaethol ar gael i rieni. Ar hyn o bryd mae Pennaeth Strategol yn cydweithio gyda Phennaeth Mewn Gofal dros dro a dau Bennaeth Cynorthwyol yn ymateb i gynllun gwella penodol sydd wedi'i lunio ar y cyd gyda swyddogion GWE ac sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan is-banel o'r corff llywodraethol.

4.4.6 Nodwyd pryderon gan rai gwrthwynebwyr a fyddai modd penodi pennaeth o galibr uchel o ystyried y problemau recriwtio penaethiaid sydd yn y dalgylch. Crybwyllwyd gan rai y pryder na fyddai'r pennaeth yn dod o gefndir addysgol.

4.4.7 Erbyn Medi 2015, fe fydd nifer o ysgolion y dalgylch yn ddi-bennaeth neu'n dibynnu ar bennaeth dros dro. Mae'r sefyllfa bellach yn gwbl anghynaladwy ac angen datrysiad cyflym neu fe fydd y sefyllfa yn cael effaith bellgyrhaeddol ar addysg y disgyblion yn y sector cynradd a'r sector uwchradd yn yr ardal.

4.4.8 Bydd penodi'r unigolyn priodol i'r swydd Pennaeth ar gyfer yr ysgol ddilynol ddalgylchol yn allweddol. Bydd angen rhywun sy'n meddu ar weledigaeth bendant, presenoldeb wrth ymwneud â rhieni a rhan-ddeiliaid allweddol eraill a'r gallu i ennill parch, cydweithio a hygrededd ymhlith staff a disgyblion pob safle'r ysgol. Fodd bynnag, credir yn ogystal y bydd penodi aelodau staff brwdfrydig, profiadol a phroffesiynol ar y 6 safle yn hynod o bwysig ac yn greiddiol i lwyddiant yr ysgol newydd.

4.4.9 O ran pwysau gwaith ar y Pennaeth, fe fydd angen sicrhau bod y strwythur staffio a ddatblygir yn hwyluso'r gwaith o ddydd i ddydd a'r baich gwaith wedi'i rannu rhwng yr uwch dîm rheoli er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn y modd mwyaf effeithiol er budd y disgyblion. Y corff llywodraethu cysgodol fydd yn gyfrifol am benodi'r Pennaeth ond rhagwelir bydd y pennaeth o gefndir addysgol, un ai o'r sector uwchradd neu'r cynradd.

4.4.10 Ar sail gwersi a ddysgwyd mewn siroedd eraill mae'r Cabinet wedi ymrwymo i gyllido'r pennaeth am o leiaf blwyddyn cyn i'r ysgol ddilynol ddalgylchol arfaethedig agor. Gan ystyried sefyllfa argyfyngus arweinyddiaeth yn y dalgylch, pe bai'r Cabinet yn penderfynu o blaid y cynnig, argymhellir sefydlu corff llywodraethu cysgodol cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn galluogi amser paratoi fel bod penodiadau a strwythur staffio yn gallu cael eu creu ynghyd â sicrhau amser digonol i greu polisïau a threfniadau cadarn cyn i'r ysgol agor.

4.5 **YR IAITH GYMRAEG**

4.5.1 Roedd rhai gwrthwynebwyr yn teimlo'n gryf na ddylid pennu statws Ysgol Gymraeg i'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol newydd. Nodwyd fod y ffaith bod Ysgol Gader yn ysgol gyfun

gymunedol naturiol ddwyieithog yn gwneud yr ysgol yn fwy atyniadol a derbyniol i ddenu teuluoedd o fewn rhai ardaloedd yn y dalgylch a thu allan i'r dalgylch e.e. trigolion ardal Abermaw.

4.5.2 Mae statws ieithyddol angen ei bennu wrth greu ysgol newydd yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a dogfen arweiniol y Llywodraeth, "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg" (023/2007).

4.5.3 Mater technegol yw'r statws yng Ngwynedd gan fod cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg yn berthnasol i holl ysgolion y Sir, sydd yn golygu bod yr un disgwyliadau ieithyddol ar bob ysgol. Amcan y polisi yw:
*"Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o'r Ysgolion … Er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg."*

4.5.4 Wrth edrych ar y cynnig yn ei gyfanrwydd a chan ystyried bod yr ysgolion cynradd i gyd yn ysgolion Cymraeg, byddai rhoi statws dwyieithog ar y sector cynradd yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn unol â'r rhagamcanion ym Medi 2017 mae mwy o ddisgyblion cynradd nac uwchradd. Yn ymarferol ni fydd newid o ddydd i ddydd yn iaith yr addysg gaiff ei darparu i'r disgyblion uwchradd gan y bydd angen darparu addysg trwy'r cyfrwng sy'n ymateb i drawstoriad demograffig y dalgylch.

4.5.5 Un o heriau sefydlu'r ysgol ddilynol ddalgylchol fyddai sefydlu strwythur ieithyddol cywir, ar draws y sectorau oedran. Bydd ymateb i'r her a gweithrediad Polisi Iaith yr ysgol yng ngofal y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, gyda chymorth gan yr Awdurdod.

4.5.6 Nodwyd ymhlith y gwrthwynebiadau mai ysgolion gwledig y dalgylch sydd yn cynnal yr iaith Gymraeg e.e. mae 93% o ddisgyblion Brithdir yn rhugl yn y Gymraeg ac y byddai'n drueni gwanhau'r iaith wrth gau ysgolion lle mae'r iaith yn gadarn. Nodwyd yn ogystal fod plant di-Gymraeg yn symud i mewn i Ysgol y Clogau ac o fewn dim, eu bod yn gallu deall a siarad Cymraeg.

4.5.7 Yng nghyd-destun Dalgylch Y Gader, comisiynwyd Asesiad Ieithyddol Annibynnol i asesu'r modelau posibl. Roedd yr asesiad yma yn nodi'r anghysondeb o fewn y dalgylch o ran yr iaith Gymraeg, ond hefyd yn gweld cyfle wrth symud ymlaen gyda'r model a ffefrir trwy greu ysgol 3-16 cyfrwng Cymraeg:
"*Model 8: Dyfarniad o effaith cadarnhaol sy'n cynnig cyfle i sicrhau cysondeb ar draws y dalgylch cyfan. Tra nad oes modd gosod pob model mewn trefn sgorio effaith ar iaith, casglwn fod y model hwn yn cynnig manteision arbennig o ran cynllunio darparu addysg statudol fydd yn gyson ac yn deillio o un weledigaeth gyflawn yn hytrach na chyfeiriad amrywiol nifer o sefydliadau fydd, yn anorfod, a safbwynt amrywiol o ran dyhead i gyflawni polisi iaith addysg y sir a chreu dinasyddion ifanc hyfedr ddwyieithog. Mewn dalgylch lle mae'r Gymraeg yn wynebu sawl her sylfaenol, efallai'n wir mai cynllunio'r ddarpariaeth ar sail un weledigaeth sefydliadol yw'r ffordd orau i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio a dysgu mwy fyddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch."*

4.5.8 Mae ystyriaeth eto wedi bod i iaith parthed y cynnig arfaethedig, yn dilyn derbyn y gwrthwynebiadau. Ystyrir fod canfyddiadau yr asesiad yn parhau yn gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad.

4.6 **CLUDIANT A THEITHIO**

4.6.1 Crybwyllwyd gan rai gwrthwynebwyr bod y cynnig yn golygu mwy o ddisgyblion yn teithio'n bellach i'r ysgol, costau cludiant uwch ac effaith negyddol ar ôl-troed carbon y Cyngor.

4.6.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod bydd mwy o ddisgyblion yn teithio'n bellach i'w safle addysgol, ond ni fydd unrhyw ddisgybl yn teithio tu hwnt i'r polisi Sirol/Cenedlaethol. Wrth gyfeirio at ôl-troed carbon a chostau cludiant, mae angen ystyried bydd 4 safle addysgol yn cael eu cau. Golyga hyn arbedion refeniw net o £255,625 (ar ôl tynnu costau cludiant), a bydd rhai o'r safleoedd a fydd yn parhau yn cael eu huwchraddio i fod yn llesol i'r amgylchedd. Golyga hyn drefn fwy effeithiol o gymharu â'r drefn bresennol.

4.6.3 Nododd rhai bod cynllunio i gael plant 3 oed yn cyd-deithio gyda disgyblion 16 oed yn anaddas ac y byddai teithio o safle i safle yn ddyddiol yn annerbyniol ac yn wastraff amser.

4.6.4 Nid yw'n fwriad i ddisgyblion deithio o un safle i'r llall yn ddyddiol ond yn achlysurol, gwelir bod manteision addysgol i wneud y defnydd gorau o adnoddau ar safleoedd eraill e.e. disgyblion hynaf y sector cynradd yn mynychu gwersi gwyddoniaeth yn labordai safle uwchradd y Gader. Nid oes bwriad i ddisgyblion 3 ac 16 oed gyd-deithio i'r ysgol.

4.6.5 O ran pellter y safle, bydd cludiant di-dal yn cael ei gynnig yn unol â pholisi cludiant Adran Addysg Cyngor Gwynedd.

4.6.6 Nododd nifer o wrthwynebwyr mai Ysgol Brithdir yw'r safle mwyaf canolog, mae'n hwylus i rieni gan fod nifer yn cludo'u plant yno yn barod. Amlygwyd bod niferoedd uchel o blant yn Ysgol Brithdir a dim llefydd gweigion sydd yn cynnig ei hun fel y safle fwyaf hyfyw i'r dyfodol. Fe wnaeth rhai ymatebwyr grybwyll bod meithrinfa gerllaw yn y Brithdir sydd yn hwyluso trefniadau i rieni a bod pellter teithio i Rydymain yn mynd i fod yn rhwystr mawr. Bydd nifer uwch o ddisgyblion angen teithio i'r ysgol a nodwyd gan rai ymatebwyr na fyddai rhieni'n cludo'u plant o Ddolgellau i Rydymain o ystyried y pellter. Gall hyn effeithio ar hyfywedd safle Rhydymain i'r dyfodol ym marn rhai o'r ymatebwyr. Ategwyd gan nifer mai safle Brithdir fyddai'r un hyfyw i'r dyfodol, a rhoddwyd nifer o geisiadau i ddatblygiad safle Brithdir gael ei ail-hystyried.

4.6.7 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhinweddau da i safle Brithdir, yn wir, dyma rai o'r rhesymau pam penderfynwyd ei gynnwys fel safle yn yr ymgynghoriad blaenorol (2011). Nodir isod y rhesymau dros y penderfyniad i beidio â buddsoddi yn y Brithdir. Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn derbyn fod y penderfyniad hwn wedi bod yn siom i'r rhieni, staff, disgyblion a thrigolion y Brithdir oedd am weld y safle yn cael ei ddatblygu.

4.7 **MATERION SAFLE AC ADEILADWAITH**

4.7.1 Nododd sawl un o'r gwrthwynebwyr eu bod yn anhapus gyda'r ffaith fod y Cyngor wedi gwneud tro pedol ar y bwriad gwreiddiol i ddatblygu ac ymestyn safle Ysgol Brithdir. Fe wnaeth llawer o wrthwynebwyr gyfeirio at y ffaith eu bod yn siomedig ac yn flin gyda'r Cyngor o ran y prosesau oedd wedi'u dilyn. Roedd rhai yn teimlo eu bod wedi cael eu camarwain ynghylch materion fel addasrwydd y tir yn y Brithdir o ran ymestyn yr ysgol, y broses o gyflwyno cais cynllunio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r cyfathrebu fu rhwng y Cyngor a rhieni, disgyblion ac aelodau staff Ysgol Brithdir.

4.7.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y broses parthed datblygu Ysgol Brithdir wedi bod yn un anodd. Y prif resymau dros beidio â pharhau â'r cynnig blaenorol i greu ysgol ardal aml-safle oedd:

- Y risg sylweddol o fethu â chael caniatâd cynllunio. Yn ystod y cyfnod dylunio aeth barn y swyddogion cynllunio yn llawer mwy negyddol nag yr oedd adeg yr ymgynghori ac roeddent yn mynd yn fwy pryderus wrth i amser fynd rhagddo. Roeddem wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd y siawns o fod yn llwyddiannus yn fychan os nad yn amhosib. Dyma'r prif reswm felly, mater na all arian ei oresgyn.

- Yn ystod y cyfnod dylunio daeth gofynion y Llywodraeth yn fwy eglur. Er mwyn defnyddio arian grant roedd angen gwariant ychwanegol ar natur yr adeiladwaith er mwyn cyflawni gofynion amgylcheddol uchel iawn. Hefyd roedd angen $70m^2$ yn ychwanegol nag a dybiwyd yn wreiddiol er mwyn cyrraedd y safonau disgwyliedig i sicrhau arian grant.

- Yn ystod y dylunio roedd y Parc yn mynnu y byddai'n rhaid gostwng lefel yr adeilad newydd yn sylweddol (hyd at 3m) er mwyn peidio ag effeithio ar yr ysgol bresennol a mwynderau'r tŷ tu cefn yr ysgol. Eisoes mae safle'r ysgol bresennol fetr yn uwch na'r safle drws nesaf ac felly byddai angen cloddio 4 metr. Mae'r arolwg arbenigol yn dangos fod craig un fetr o dan y ddaear. Nid yw hyn ynddo'i hun yn golygu ei bod yn amhosib cyflawni'r datblygiad ond yn amlwg roedd yn ychwanegu at y gost. Byddai'r gwahaniaeth lefel hefyd yn golygu creu linc cymhleth a chostus rhwng yr hen adeilad a'r un newydd, gan gynnwys lifft ayb.

Oherwydd problemau technegol, cost cynyddol datblygu'r safle a rhwystrau cynllunio bu'n rhaid i'r Cyngor wneud y penderfyniad anodd ac ystyried opsiynau a safleoedd eraill.

4.7.3 Crybwyllwyd nifer o bryderon am gynaladwyedd safle Rhydymain gan ystyried niferoedd isel y disgyblion presennol, niferoedd uchel y llefydd gweigion, pellter y safle gan ystyried ei leoliad ar gyrion dalgylch Y Gader a'r perygl na fydd disgyblion all-ddalgylch sy'n mynychu Brithdir ar hyn o bryd yn cael lle yn y safle nac ychwaith yn dewis mynychu'r safle yn y dyfodol. Nodwyd yn ogystal nad yw'r gwariant ar safle Rhydymain yn creu awyrgylch dysgu o ansawdd uchel ac mai gwariant israddol sydd i weld yn cael ei wneud yn Rhydymain o'i gymharu â'r safleoedd eraill.

4.7.4 Mae cynllunio llefydd mewn ysgolion yn anodd oherwydd bod dewis rhieni a theithio tu allan i dalgylch naturiol yn digwydd. Yn yr opsiwn ffafriedig arfaethedig mae digon o le yn safle Rhydymain i ddisgyblion presennol Brithdir, Ieuan Gwynedd a Machreth. Rhagwelir bydd safle Rhydymain yn gallu dal oddeutu 70 o ddisgyblion ac yn seiliedig ar ragamcanion Medi 2014 bydd 66 o blant yno, gan gynnwys disgyblion all-dalgylch sydd eisoes yn mynychu un o'r tair ysgol. Mae cynllun i wneud buddsoddiad o £620,000 i ymestyn safle Rhydymain. Golyga hyn fuddsoddiad sylweddol er mwyn sicrhau darpariaeth addysg ar y safle.

4.8 **LLYWODRAETHU A MYNEDIAD**

4.8.1. Derbyniwyd nifer o sylwadau gan rieni oedd yn bryderus ynghylch mynediad i'r ysgol ddilynol ddalgylchol ac eisiau eglurder ynghylch pwy fyddai'n penderfynu i ba safle fyddai eu plant yn mynd.

4.8.2 Pe bai'r cynnig yn cael ei gadarnhau, un ysgol fyddai'n bodoli yn nalgylch Y Gader. Yr Awdurdod Addysg fyddai'n penderfynu mynediad i'r ysgol a chorff llywodraethol yr ysgol ddilynol fyddai'n rheoli mynediad i'r safleoedd penodol. Bydd angen i'r corff llywodraethu benderfynu ar ba sail y byddent yn rheoli mynediad ond bydd cymorth gan yr Adran Addysg. Mae'n debygol y byddai'r Awdurdod yn argymell dilyn polisi mynediad y Sir.

4.8.3 O ran cyrff llywodraethu, cyfeiriwyd mewn rhai gwrthwynebiadau at y ffaith ei bod yn anodd cael llywodraethwyr ond mewn gwrthwynebiadau eraill, roedd canmoliaeth fawr i lywodraethwyr ysgolion oedd yn gefnogol iawn i waith ysgolion penodol.

4.8.4 Byddai creu un corff llywodraethol yn lleihau'r nifer o lywodraethwyr sydd eu hangen a bydd modd creu is-baneli o aelodau i edrych ar agweddau penodol (yn unol â'r gofyn a'r angen). Bydd angen i'r corff roi sylw i bob safle yn yr ysgol a bydd y gwaith hwn yn cael ei asesu fel rhan o arolygiadau Estyn yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol. Bydd posib cael cynrychiolaeth o lywodraethwyr o bob rhan y dalgylch. Bydd aelodau'r corff llywodraethol cysgodol yn cael eu dewis o blith aelodau'r cyrff llywodraethu cyfredol.

4.9 **Y BROSES STATUDOL**

4.9.1 Derbyniwyd ymatebion cryfion parthed y broses statudol o ran dilysrwydd y broses a'r camau a ddilynwyd. Roedd rhai o'r farn nad oedd parch wedi'i ddangos at ddisgyblion, rhieni a staff Ysgol Brithdir oherwydd bod y cynnig gwreiddiol wedi'i newid.

4.9.2 Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod unrhyw gynnig i newid darpariaeth yn achosi pryder a bod cynnig i newid darpariaeth addysgol yn fater anodd a heriol. Dyna pam ei bod yn allweddol dilyn proses statudol, fel bod modd i drigolion gael y cyfle i roi eu sylwadau yn ystod cyfnod ymgynghori a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod cyfnod gwrthwynebu os dymunir gwneud hynny.

4.9.3 Mae'r Cyngor wedi cwblhau'r prosesau statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Cyflwynwyd pob gohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol at sylw'r Aelodau Cabinet. Dadansoddwyd eu cynnwys gan roi ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Rhoddwyd sylw penodol i'r prif faterion yn nghorff yr adroddiad Cabinet a drafodwyd ar 13 Ionawr 2015. Mae'r holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn cael eu cyflwyno i Aelodau'r Cabinet. Mae tabl dadansoddi'r gwrthwynebiadau yn Atodiad 1.

4.9.4 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod yna rwystredigaeth ar lawr gwlad gan na chafodd cynnig blaenorol ei wireddu. Mae'n wir fod nifer o resymau o blaid datblygu safle'r Brithdir a phenderfynodd y Cyngor ei gynnwys fel rhan o'r cynnig gwreiddiol. Yn anffodus, darganfuwyd cyfyngiadau a phroblemau sylweddol a olygai gynnydd sylweddol yng nghost datblygu'r safle a phenderfynwyd peidio â pharhau â'r cynnig i sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle yn y Brithdir a Dinas Mawddwy.

4.10 **CYLLID**

4.10.1 Nodwyd mewn rhai gwrthwynebiadau ei bod yn ymddangos mai ymarfer arbed arian yn unig ydy'r cynnig hwn a hynny ar draul darpariaeth addysgol effeithiol yn y dalgylch. Roedd rhai hefyd yn bryderus ynghylch y gwariant ar y broses o ad-drefnu addysg.

4.10.2 Mae'r Cyngor o'r farn bod yr arbedion disgwyliedig o £255,625 yn sylweddol ond rhaid cofio mai un ystyriaeth yn unig yw ffactorau ariannol (gan gynnwys arbedion) wrth ad-drefnu ysgolion. Creda'r Cyngor bod y model arfaethedig yn cynnig gwell defnydd o adnoddau (staff ac offer, adeiladau ac ati), yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn cynnig profiadau newydd a manteision i'r disgyblion. O ran cyllido'r broses trefniadaeth ysgolion, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hynny fel bod modd sicrhau cyfundrefn addysgol gynaliadwy i'r dyfodol yn unol ag amcanion y strategaeth ad-drefnu.

4.10.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddiogelu addysg yn yr ardal trwy sicrhau darpariaeth gynaliadwy a sicrhau bod adnoddau yn cael eu dosbarthu'n decach. Y bwriad yw sicrhau bod unrhyw newid yn y ddarpariaeth addysg ar gyfer yr ardal yn ddigon gwydn i gwrdd â newidiadau posib yn niferoedd disgyblion yn y dyfodol. Mae'r lleihad yn niferoedd disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf wedi creu nifer sylweddol o leoedd gweigion yn ysgolion cynradd dalgylch y Gader – cyfanswm o 41% (neu 248 mewn nifer). Mae hefyd nifer o leoedd gweigion yn yr adran uwchradd, 18% (86 o leoedd) sydd yn golygu bod nifer y lleoedd gweigion ar draws y dalgylch yn 31% (334 o leoedd ysgol). Mae'r rhagamcanion yn achosi pryder gan y bydd yr ysgolion yn dod yn rhai bregus iawn, fe fydd gormod o bwysau ar benaethiaid wrth iddynt geisio cynnal safonau a darparu profiadau a chyfleoedd o ansawdd i'r disgyblion. Mae angen gwir ystyried lles personol a chymdeithasol y disgyblion fyddai yn yr ysgol ar yr adeg hynny.

4.11 **YSTADEGAU**

4.11.1 Derbyniwyd gwrthwynebiadau ynghylch niferoedd y disgyblion yn Ysgol Clogau a'r ffaith fod nifer o blant cyn oedran ysgol wedi dod gyda'u rhieni i gyfarfod yn yr ysgol - fe fyddai rhain yn mynychu Ysgol Clogau pe byddai'n parhau ar agor. Nodwyd bod rhain yn blant yr ardal ac felly bod y niferoedd yn gynaliadwy.

4.11.2 Mae'r Cyngor yn derbyn bod niferoedd yn gallu newid a bod effaith un teulu, fel nodwyd yn y gwrthwynebiadau, yn gallu cael effaith mawr ar niferoedd. Dyma un o'r rhesymau pam fod y Cyngor yn credu bod y cynnig gerbron am sefydlogi darpariaeth addysgol yr ardal. Wrth ddod â disgyblion tair ysgol at ei gilydd ar safle Llanelltyd, ni fydd unrhyw un teulu yn cael cymaint o effaith ar niferoedd a phrofiadau disgyblion.

4.11.3 O ran cynaladwyedd Ysgol Clogau ar ei phen ei hun, nid yw'r Cyngor yn credu bod yr ysgol yn gynaliadwy i'r dyfodol. Hyd yn oed pe bai'r ysgol yn llawn gyda 36 disgybl, byddai hyn dal yn golygu bod yr ysgol yn ddibynnol yn ariannol ar dderbyn arian ychwanegol trwy gyfrwng y rhwyd diogelu staffio i sicrhau cyflogi pennaeth ac athro/athrawes. Felly, heb gymorth ychwanegol parhaol, ni fyddai'r ysgol yn gallu parhau.

4.11.4 Fe gyflwynwyd sawl gwrthwynebiad oedd yn nodi fod Ysgol Brithdir yn llawn, nad oes llefydd gweigion ynddi a bod hynny ynddo'i hun yn dangos bod yr ysgol yn boblogaidd ac yn denu teuluoedd ledled y dalgylch.

4.11.5 Cydnabyddir ei bod yn wir fod nifer o resymau o blaid datblygu safle'r Brithdir a phenderfynodd y Cyngor ei gynnwys fel rhan o'r cynnig gwreiddiol. Fel y nodwyd uchod, darganfuwyd cyfyngiadau a phroblemau sylweddol a olygai gynnydd sylweddol yng nghost

datblygu'r safle a phenderfynwyd peidio â pharhau â'r cynnig i sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle yn y Brithdir.

4.12 **OPSIYNAU AMGEN**

4.12.1 Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, fe wnaeth grŵp o Ysgol y Clogau holi am hynt y datrysiad amgen a gyflwynwyd ganddynt i Gyngor Gwynedd. Roedd y materion a ystyriwyd ac a ddadansoddwyd yn gefndir i ddatrysiad arloesol addysg yn y Dalgylch.

4.12.2 Roedd y Cyngor yn falch o weld corff llywodraethol yn awgrymu ffordd newydd ac arloesol o ddarparu addysg yn y dalgylch. Rhwydwaith cydweithio rhwng ysgolion Clogau, Friog, Ganllwyd, Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy, Cynradd Dolgellau ac Y Gader oedd y model a awgrymwyd. Byddai'n golygu cau ysgolion Brithdir, Llanelltyd a Machreth a sefydlu trefn o gydweithio anffurfiol rhwng yr ysgolion eraill trwy gyd-amserlennu'r cwricwlwm cynradd. Fe gafodd y model ei gynnwys fel rhan o'r 8 yn y gwerthusiad opsiynau. Roedd y model wedi'i werthuso cyn i'r Cabinet benderfynu ar yr opsiwn i ymgynghori arno ym Medi 2014 ac wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghorol statudol. Gwerthuswyd y model yn unol â'r ystyriaethau penodol ac roedd nifer o ffactorau pam nad oedd yn cael ei ystyried fel yr opsiwn ffafriedig.

4.12.3 Holwyd yn ogystal, yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, pam nad oedd y syniad o gydweithio gyda'r Coleg Addysg Bellach yn Nolgellau ac ehangu'r ddarpariaeth hyd at 19 oed wedi'i ystyried.

4.12.4 Mae trefn wedi'i sefydlu ers cryn amser fod y Coleg yn darparu addysg ôl-16 yn nalgylch y Gader. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Coleg ac maent yn llwyr ymwybodol o'r cynnig dan ystyriaeth. Byddai'r Cyngor yn croesawu unrhyw drefniant cydweithio rhwng y Coleg a'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol a fyddai'n creu profiadau a chyfleoedd newydd i ddisgyblion a myfyrwyr y dalgylch. Pe byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud, byddai angen trafodaeth rhwng Pennaeth yr Ysgol a'r Coleg er mwyn gwyntyllu posibiliadau.

4.13 **CYFFREDINOL**

4.13.1 Derbyniwyd gwrthwynebiadau oedd yn mynegi'r farn fod y broses ad-drefnu yn wastraff arian, bod Dalgylch y Gader yn cael ei ddibrisio oherwydd y pellter rhyngddo â Chaernarfon, bod angen i aelodau etholedig y Cyngor edrych ar y darlun mawr o ran bywyd cymunedau a'r awydd cryf sydd gan drigolion yr ardal i gynnal y sefyllfa gyfredol.

4.13.2 Mae pob rhan o'r Sir yn bwysig i'r Cyngor ac mae sicrhau tegwch, cydraddoldeb a chyfleoedd cyfartal i'r trigolion yn allweddol. Dyna pam fod aelodau etholedig yn cynrychioli gwahanol wardiau o fewn y Sir a bod cyfle iddynt fel aelodau fod yn llais y wardiau hynny yn y Cyngor. Dyna pam hefyd bod Panel Adolygu Dalgylch y Gader wedi cael ei sefydlu, er mwyn sicrhau fod cynrychiolwyr llawr gwlad yn cael cyfle i wyntyllu syniadau, mynegi barn a rhoi mewnbwn i opsiynau posibl yn gynnar yn y drafodaeth.

4.13.3 Mae'r Cyngor o'r farn mai Ysgol Ddilynol Ddalgylchol yw'r ymateb gorau posib o ran sicrhau addysg gadarn a chynaliadwy i'r dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn bydd pob ysgol yn y dalgylch yn cau a bydd ysgol newydd yn cael ei sefydlu. Golyga hyn greu corff llywodraethol, pennaeth a strwythur staffio cwbl newydd, gyda'r modd o ddatblygu arferion addysgol da sydd eisoes yn y dalgylch i sicrhau bod disgyblion yr ardal yn cael y ddarpariaeth addysgol orau posib. Er bod materion cyllidol, gan gynnwys arbedion posib, yn un o'r ystyriaethau wrth werthuso opsiynau posib, nid hyn yw'r unig ffactor.

4.13.4 Mae'r Cyngor yn derbyn bod cyfnod o newid a chynnig trefn newydd yn mynd i beri pryder i bawb sy'n gysylltiedig â'r cynnig, gan gynnwys rhieni disgyblion yr ysgolion dan sylw. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio lleihau pryderon cymaint â phosibl wrth gyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn gyson. Pe byddai'r Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig byddai pecyn gwaith newydd i sefydlu'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol yn cychwyn sydd yn cynnwys agweddau fel sefydlu corff llywodraethol cysgodol, trefniadau penodi pennaeth a gweddill y strwythur staffio, creu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr, cynnig cymorth ac arweiniad i staff yr ysgolion presennol gan adran adnoddau dynol y Cyngor ac ati.

4.13.5 Mae pob ymdrech wedi'i wneud i egluro sut y byddai'r cynnig yn effeithio disgyblion, staff a'r gymuned yn ehangach. Gan nad yw'r penderfyniad terfynol wedi'i wneud, mae'n anodd iawn manylu ar rai agweddau o'r cynnig am ei bod yn gynamserol gwneud hynny.

4.14 **DEISEB**

4.14.1 Fe wnaeth rhai a wnaeth arwyddo'r ddeiseb electroneg hefyd ychwanegu sylw. Fe ddadansoddwyd y sylwadau hynny ac fe welwyd eu bod yn ymwneud ag ansawdd yr addysg yn Ysgol Clogau, y berthynas rhwng y gymuned a'r ysgol, y golled fawr pe byddai'r ysgol yn cau, manteision addysg wledig ac effaith bellgyrhaeddol cau'r ysgol hon ar ddiwylliant a chymeriad yr ardal. Ymatebwyd i'r materion hyn o dan y penawdau perthnasol uchod.

4.15 **CYDRADDOLDEB**

4.15.1 Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynigion. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal er mwyn monitro ac adolygu'r sefyllfa.

4.15.2 Mae ystyriaeth eto wedi bod i gydraddoldeb parthed y cynnig arfaethedig, yn dilyn derbyn y gwrthwynebiadau. Ystyrir fod canfyddiadau yr asesiadau yn parhau yn gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad.

**5. I GRYNHOI**

5.1 Mae'r cynnig hwn yn dilyn ystyriaeth o ystod eang o fodelau posib. Cafodd y cynigion hyn eu crynhoi i restr hir o 8 model posib, a gwerthuswyd yr opsiynau yn llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yng ngoleuni ffactorau penodol. Defnyddiwyd ffactorau'r strategaeth *'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'*, ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Y Gader a ffactorau perthnasol eraill. Roedd y ffactorau yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- Ansawdd yr Addysg
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion
- Amgylchedd Dysgu – ansawdd ac addasrwydd adeiladau
- Statws / Categori Ysgol
- Arweinyddiaeth a staffio

- Y Gymuned
- Yr Iaith Gymraeg
- Ardrawiad Cydraddoldeb
- Adnoddau Ariannol
- Ffactorau Daearyddol

Cafodd y gwerthusiad opsiynau llawn hwn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried ym Medi 2014.

5.2 Fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau yma, defnyddiwyd hefyd casgliadau asesiadau effaith Cymunedol, Ieithyddol a Chydraddoldeb. Mae'r asesiadau yma a holl dogfennaeth cefndirol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion.

5.3 Cwblhawyd rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru ac ystyriwyd y sylwadau dderbyniwyd, ynghyd â'r gwerthusiad opsiynau a'r asesiadau effaith cyn penderfynu cymeradwyo cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol ar y cynnig. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o gais yr Eglwys yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhag-ymgynghori a bydd ymdrech yn parhau i gyd-amserlennu prosiectau dalgylch Y Gader a'r Berwyn.

5.4 Yn dilyn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn argyhoeddedig mai'r cynnig hwn yw'r opsiwn gorau ar gyfer dyfodol addysg yn nalgylch Y Gader. Mae dadansoddiad y gwrthwynebiadau i'w gael yn adran 4 yr adroddiad hwn a'r tabl dadansoddi llawn yn Atodiad 1.

5.5 Mae'r cynnig yn parhau fel yr opsiwn ffafriedig am nifer o resymau. Trwy sefydlu ysgol ddilynol ddalgylchol 3-16 oed, gellir mynd i'r afael â nifer o'r heriau sy'n wynebu dalgylch y Gader ar hyn o bryd, creu nifer o wahanol gyfleoedd i ddatblygu ar sylfaen ansawdd addysg a dysgu presennol y dalgylch, yn ogystal â chynnig hyblygrwydd mewn nifer o ffyrdd i greu darpariaeth addysgol gadarn a chynaliadwy i'r dyfodol. Rhai o buddion y cynnig yw ei fod yn:

- Gwella safonau addysg ar draws y dalgylch wrth alluogi hyblygrwydd ar draws holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol
- Cael effaith ar faint ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Gwella cyflwr a safon stad ysgolion y dalgylch wrth fuddsoddi £4.34miliwn ar uwchraddio ac ymestyn tri safle, a gwario ôl-groniad cynnal a chadw ar dri safle arall
- Galluogi system uwch reoli modern newydd, bydd yn rhyddhau'r pennaeth o'r dosbarth, yn cynnig hyblygrwydd gyda'r strwythur staffio ar draws y sectorau, yn darparu cyfleoedd gyrfa newydd
- Sicrhau bod safle addysg o fewn pellter rhesymol i holl ddisgyblion y dalgylch
- Lleihau llefydd gweigion y dalgylch
- Rhoi oddeutu £255,625 o arbedion refeniw, ac yn rhesymoli amrediad cost y disgybl yn y dalgylch
- Rhoi'r cyfle gorau i gyflawni'r polisi iaith, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau staff dysgu mwy byddai gan un sefydliad ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch

**6. CAMAU NESAF**

6.1 Mae angen i'r Cabinet ystyried yr adroddiad ffurfiol o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor iddynt yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion cyn gwneud y penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig ai peidio.

6.2 Mewn rhai achosion – yn dilyn penderfyniad terfynol y Cabinet – mae'n bosib i'r canlynol gyfeirio'r cynnig i gael ei ystyried gan Weinidogion Cymru:

- Awdurdod Lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno
- Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion
- Sefydliad addysg bellach mae'r cynigion yn effeithio arni

Bydd angen i'r cyrff sy'n at-gyfeirio nodi pam eu bod yn credu bod y penderfyniad a wnaeth yr awdurdod lleol yn anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ydy'r cynigion yn effeithio ar y cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynigion.

6.3 Os bydd penderfyniad terfynol gan y Cabinet i weithredu'r cynnig ac os na fydd y cynnig yn cael ei gyfeirio yna fe fydd yr amserlen fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Creu Cynllun Cyfathrebu er mwyn rhannu gwybodaeth amserol a pherthnasol gyda'r prif ran-ddeiliaid | Mehefin 2015 |
| Cychwyn ar y broses o sefydlu corff llywodraethol cysgodol | Tymor yr Haf 2015 |
| Penderfyniad tendr adeiladu ar gyfer safle Rhydymain | Gorffennaf 2015 |
| Cychwyn gwaith adeiladu ar safle Rhydymain | Awst 2015 |
| Penderfyniad tendr adeiladu ar safle Cynradd Dolgellau a safle Llanelltyd | Chwefror 2016 |
| Cychwyn gwaith adeiladu ar safle Cynradd Dolgellau a safle Llanelltyd | Mehefin 2016 |
| Agor yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol | Medi 2017 |

6.4 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu peidio â pharhau â'r cynnig, yna byddai angen cychwyn y broses statudol o'r cychwyn gan ystyried bod consensws wedi'i gyrraedd ynghylch diffyg cynaladwyedd y sefyllfa gyfredol.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 Argymhellir felly:

i. Gweithredu ar y cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cymunedol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy, Llanelltyd a Friog ar 1 Medi 2017.

ii. Yn sgîl pwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddo/iddi gael ei b/phenodi ymlaen llaw, cymeradwyo sefydlu corff llywodraethol cysgodol yn ystod Tymor yr Haf 2015 ac yna cyllido pennaeth yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol o arbedion y cynllun cyn gynted â phosibl.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**

"Rydym bellach wedi cyrraedd cam allweddol yn y broses hon ac mae'n amser i'r Cyngor symud yn ei flaen i wireddu'r newid arloesol hwn. Wrth wneud hynny, fel gydag unrhyw newid arwyddocaol, mae'n amlwg bod rhai gwrthwynebiadau. Y peth allweddol yn awr yw ein bod yn cyfarch yr her yn y gwrthwynebiadau hynny er mwyn manteisio ar y cyfle unigryw hyn i sefydlu strwythur addysg gydol-oes sydd yn gynaliadwy ac sydd am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysgol yn nalgylch y Gader am flynyddoedd i ddod.

Un elfen bwysig wrth gwrs yw'r angen y mae'r adroddiad yn ei grybwyll i fuddsoddi ymlaen llaw mewn adnoddau staffio a bod hynny yn gorfod cael ei gofio, maes o law, o unrhyw arbedion sydd yn codi o'r cynigion. Mae'n bwysig bod dealltwriaeth glir o hyn wrth wneud y penderfyniad."

**Y Swyddog Monitro:**

"O safbwynt y broses statudol ynglŷn â threfniadaeth ysgolion mae'r penderfyniad a geisir yn cynrychioli'r cam ffurfiol terfynol gan y Cyngor i gadarnhau'r rhybuddion statudol a gyhoeddwyd ynglŷn â'r cynnig yn nalgylch y Gader. Wrth gyhoeddi'r rhybuddion rhoddir cyfle ac amserlen ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau ac mae gofyn statudol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion i adrodd ar yr ymatebion a rhoi sylw iddynt. Mae'n ofynnol felly i'r Cabinet gloriannu'r gwrthwynebiadau a'r ymateb iddynt cyn dod i benderfyniad i gadarnhau'r rhybuddion ai peidio."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Mae fy sylwadau blaenorol i'r Cabinet ar y cynllun yma yn parhau'n ddilys, sef bod y rhagolwg o arbediad refeniw blynyddol o o leiaf £255,625 yn seiliedig ar dystiolaeth a gwaith trylwyr.

Yn Ionawr 2015, cytunodd y Cabinet i gyllido swydd pennaeth yr ysgol ddilynol dalgylchol am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2017. Nodais ar y pryd mai cost un tro fyddai hyn, yn y cyfnod cyn dechrau gwireddu'r arbedion, ac fod ffyrdd priodol ar gael i ddelio â'r mater yma. Erbyn hyn, nodaf y dyhead i gyllido swydd y Pennaeth mor fuan â phosib. Mae hyn yn ddyhead synhwyrol o ystyried yr gwaith baratoi sylweddol fydd ei angen, ond mae'n golygu y bydd cyfanswm y costau un tro hyn oddeutu £150,000. Disgwylir y bydd angen ariannu cyfran sylweddol o'r costau hyn allan o arbedion y blynyddoedd cyntaf, sy'n golygu ychydig o oedi cyn y bydd yr arbedion wedi eu gwireddu'n llawn, ond ni fyddant effeithio ar gyflawniad y cynllun wedi hynny.

Dylai'r Cabinet hefyd ystyried os bydd angen costau un tro pellach, nad ydynt wedi eu hystyried yn barod, wrth baratoi i agor yr ysgol newydd."

---

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Dadansoddiad ac ymateb y Cyngor i sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol |

**DOGFENNAU CEFNDIR**

Mae holl ddogfennau cefndir perthnasol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion.

Mae'r dogfennau cefndir yn cynnwys:

- Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd
- Cynllun Blaenoriaethau - Maes Trefniadaeth Darpariaeth Addysg
- Dogfen Ffydd mewn Addysg Llywodraeth Cymru
- Agenda a Chofnodion Cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch Y Gader
- Pecyn Ystadegol
- Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol
- Adroddiad Asesiad Effaith Cymunedol
- Asesiad Cydraddoldeb
- Asesiad o'r Angen am Wahanol Fathau o Ysgolion
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 16 Gorffennaf 2013
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 17 Rhagfyr 2013
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet - 16 Medi 2014
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet – 13 Ionawr 2015
- Dogfen Ymgynghori Statudol 10 Hydref – 24 Tachwedd 2014
- Dogfen Ymgynghorol
- Dogfennau Ymgynghorol gyda Disgyblion Cynradd ac Uwchradd y Dalgylch
- Dadansoddiad ac ymateb y Cyngor i sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol
- Dadansoddiad o'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc gan hwylusydd arbenigol
- Rhybuddion Statudol a gyhoeddwyd 25 Chwefror 2015

**Gwrthwynebiadau i'r Rhybuddion Statudol ar y Cynnig i Gau Ysgolion Dalgylch Y Gader a Sefydlu Ysgol Ddilynol Ddalgylchol Cyfrwng Cymraeg Cymunedol ar Chwe Safle ym Medi 2017**

Derbyniwyd **53** o wrthwynebiadau ysgrifenedig ac fe'u didolwyd o dan y penawdau canlynol:

1. Addysg
2. Y Gymuned
3. Materion Staffio
4. Yr Iaith Gymraeg
5. Cludiant a Theithio
6. Materion Safle ac Adeiladwaith
7. Llywodraethu a Mynediad
8. Y Broses Statudol
9. Cyllid
10. Ystadegau
11. Opsiynau Amgen
12. Cyffredinol

| Cod Sylwad | Sylwadau | Nifer ymatebion yn cynnwys y sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **1** | **Addysg** | | |
| 1.1 | Un o'n prif resymau dros ail-leoli oedd er mwyn cynnig bywyd gwledig i'n plant. Elfen mwyaf cadarnhaol ynghylch symud oedd ysgol ein plant. Nid oedd fy mhlentyn yn ymdopi'n dda iawn gyda'r syniad o adael ein teulu a'n ffrindiau. Rwy'n credu'n gryf pe byddai wedi bod mewn unrhyw ysgol arall yn y DU, fe fyddai wedi syrthio trwy'r rhwyd. Fe wnaeth y gwaith, yr help a'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan staff Ysgol Clogau ei helpu i ddygymod â'r sefyllfa. Fy mhlant wedi cael y cyfle i lwyddo a blodeuo (diolch i'r ffaith mai ysgol fach ydy Ysgol Clogau) / Ysgol Clogau yn lle arbennig iawn - dosbarthiadau bach a chymysg. Plant mawr yn edrych ar ôl y rhai iau, rhai iau yn dysgu gan y rhai hŷn. Credu fod hyn yn hynod o werthfawr /O ran strategaeth addysg Gwynedd, mae Ysgol Clogau yn perfformio'n wych. Clogau oedd un o ddim ond dwy ysgol gynradd yn yr ardal i gael Gradd 1 mewn 5 o'r 7 maes yn yr adroddiad Estyn diwethaf. Yn ogystal, roedd asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 1 yn uwch na rhai gweddill y Sir a Chymru gyfan, a llwyddodd rhai disgyblion i gyrraedd lefel 3 mewn Cymraeg a Mathemateg. Yn yr un modd yng Nghyfnod Allweddol 2, perfformiodd yr ysgol yn well na gweddill Cymru ym mhob pwnc. Golyga hyn fod perfformiad cyffredinol Ysgol y Clogau ymhlith y 25% o ysgolion cyffelyb yng Nghymru ar adeg yr arolwg. Mae'r un tîm dysgu yn yr ysgol /O ystyried llwyddiant parhaus Ysgol y Clogau dros flynyddoedd lawer, mae'n rhaid gofyn y cwestiwn, pam newid rhywbeth sydd wedi bod yn gweithio'n arbennig o dda? Nid oes unrhyw feini prawf mesuradwy wedi'u clustnodi yn ystod y broses | 2 | Mae'r Cyngor o'r farn bydd y cynnig yn parhau, os nad yn gwella ansawdd addysg y dalgylch ac yn falch iawn o wybod bod Estyn yn cytuno â'r farn honno pan dderbyniwyd eu hymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.<br><br>O ran maint dosbarthiadau, mae pob dosbarth yn Ysgol Clogau yn cynnwys amrediad oedran 4 blwyddyn (3-7 oed a 7-11 oed). Rhagwelir bydd llai o amrediad oedran yn safle Llanelltyd gyda 3 blwyddyn mewn dosbarth ar y mwyaf. Mae Ysgol Clogau wedi cael llai na 10 disgybl o fewn dosbarth ac ar adegau dim ond un plentyn sydd wedi bod mewn blwyddyn addysgol. Rhagwelir dosbarthiadau o faint hyfyw yn safle Llanelltyd gyda disgyblion yn gallu dysgu yn gyfochrog â chyfoedion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymgynghori ynghylch beth yn union yw deilliannau addysgol penodol y newidiadau a gynigir gan Gyngor Gwynedd. Mae Estyn wedi nodi yn eu hymateb y 'gellid gweld gwelliant' ar y safon cyfredol. Nid yw hyn yn sail digonol dros newid. Mae Estyn hefyd yn nodi yn eu hymateb i'r ddogfen Ymgynhorol nad yw'n '*dangos effaith y cynnig arfaethedig yn glir ar ddynodiad yr ysgol newydd'*./ Mae plant Ysgol y Clogau yn mynd am dro yn rheolaidd i'r goedwig yn y Bontddu ac i astudio yn y Farchynys, yn yr aber. Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o'r ffactorau amgylcheddol y mae Cyngor Gwynedd wedi eu hepgor o'r cynnig. Mae rhieni, athrawon a disgyblion yn gwybod eu bod yn ffodus iawn o gael eu haddysgu mewn lleoliad unigryw. Ni allai'r un cae chwarae mewn ysgol gystadlu gyda'r amrywiaeth a'r cyfoeth y mae'r disgyblion hyn yn eu profi yn rheolaidd./ Nododd adroddiad diweddar gan Estyn fod 'Ysgol Clogau yn ysgol gyda nifer o nodweddion arbennig'. Rhieni wedi dweud fod plant yn mynd i gael eu trosglwyddo i ysgolion nad ydynt yn perfformio cystal / Credu nad ydy'r ysgolion y bydd ein plant yn cael eu gorfodi i'w mynychu, os bydd Ysgol Clogau yn cau, yn perfformio'n arbennig o dda. Tydw i ddim yn deall rhesymeg tu ôl i hyn. Rydan ni am i'n plant fynd i ysgol dda (Dyna pam y gwnaethon ni symud yma). | | |
| 1.2 | Nid wyf wedi gweld unrhyw beth yn y cynnig sy'n fy mherswadio i bydd addysg yn gwella. Roeddwn yn credu fod gan blant yn y DU yr hawl i gael addysg. Rwyf o'r farn bydd y cynnig hwn yn effeithio ar addysg fy mhlant ac mae'r cyfan allan o'm rheolaeth / Rwy'n pryderu am bawb y mae hyn yn effeithio arnynt a dyfodol addysg ein plant / Mae newid a gwella yn anochel ond yn sicr nid yw'r bwriad arfaethedig yn cyflwyno gwelliant / "Mae yna ddymuniad i sicrhau darpariaeth addysg cryf a chynaliadwy...." - nid yw cymalau fel 'mae dymuniad i' ac ' fe fydd hi'n bosibl cryfhau' yn rhoi sicrwydd o unrhyw welliannau i ddarpariaeth addysg a safonau addysg. Ymddengys mai 'rhesymoli' yw'r brif weledigaeth ac mae addysg plant a phobl ifanc yn swnio fel ail ystyriaeth / Ddim yn gweld sut y bydd hyn yn gwella'r addysg a gynigir i'r plant | 8 | Gwella ansawdd addysg a phrofiadau plant yw un o brif amcanion strategaeth ad-drefnu ysgolion y Sir. Mae ffactorau megis niferoedd disgyblion, maint dosbarthiadau, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ynghyd ag ansawdd ac addasrwydd adeiladau i gyd yn cyfrannu tuag at y profiadau addysgiadol hynny sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion yn ymateb i'w gofynion academaidd a lles.<br><br>Gall y cynnig hwn ddarparu hyblygrwydd ar draws yr holl oedrannau sydd yn angenrheidiol i sefydlu ymarfer safonol o rannu adnoddau, staff a chyfarpar. Gallai hefyd ddarparu cyd-destun mwy effeithiol i reolwyr reoli adnoddau ac i gynllunio addysg y sefydliad. Gallai Ysgol Ddilynol Ddalgylchol ddarparu cyfleoedd ychwanegol i gynnal ethos a gwerthoedd cyffredin ledled yr ysgol a dylai'r rhain ddarparu cyd-destun mwy effeithiol ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. |
| 1.3 | A chyda'r trafferthion cyfredol yn yr ysgol uwchradd, Ysgol Y Gader, y mae fy mhlentyn yn ei mynychu, oni fyddai'n well gwario adnoddau er mwyn datrys y broblem honno gyntaf?/A ystyriwyd y ffaith fod nifer sylweddol o deuluoedd un ai wedi symud o Wynedd neu wedi anfon eu plant i gael eu haddysg y tu allan i'r dalgylch oherwydd methiant Ysgol Y Gader, yr arweinyddiaeth a'r Llywodraethwyr?/ Mae Ysgol y Gader yn ddiweddar wedi canslo cymryd rhan yn yr Eisteddfod oherwydd fod ganddi arolwg Estyn. Ni all yr ysgol ymdopi gyda'i | 4 | Mae'r Cyngor yn llawn ymwybodol o bryderon rhai rhieni Ysgol Y Gader yn ddiweddar ac mae'r Llywodraethwyr a'r Adran Addysg, gyda chymorth swyddogion GWE, wedi rhoi mesurau cynhaliaeth a chefnogaeth ar waith ac yn ei fonitro'n gyson.<br><br>Ar hyn o bryd, yn Ysgol y Gader, mae Pennaeth Strategol yn cydweithio gyda Phennaeth Mewn Gofal dros dro a dau Bennaeth Cynorthwyol er mwyn ymateb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | lefelau staffio ei hun a'r nifer uchel o staff dros dro ac er hynny, fe fydd yn darparu athrawon i'r fynd i'r ysgolion cynradd. Oni ddylid delio ag ansefydlogrwydd yr Ysgol Uwchradd yn gyntaf cyn ansefydlogi yr ysgolion cynradd? Heblaw am yr arian wrth gefn o £439,000 ar gyfer cynnal a chadw, sydd heb ei egluro, nid oes unrhyw sôn am unrhyw welliannau i Ysgol Y Gader. Er hynny, mae disgwyl i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 gael eu cludo i Ysgol y Gader i rannu cyfleusterau gwyddoniaeth o safon cyffredin iawn. Sut fydd y niferoedd yn ffitio yn y labordai? Mwy na 30 disgybl ar yr un pryd? Sut fydd hyn yn cael ei amserlennu a'i gostio?/ Wrth ddarllen yr adroddiadau diweddaraf am ysgolion dalgylch y Gader, tydi hi ddim yn wir i ddweud mai'r ysgolion gwledig sydd yn cael y canlyniadau gorau, er ein bod ni heb yr adnoddau gorau./ Mae fy mhlentyn ym mlwyddyn 8 yn Ysgol y Gader. Ym mis Medi 2017, fe fydd yn cychwyn ar ei gwrs TGAU. Mae eisoes wedi profi dwy flynedd o darfu oherwydd problemau rheoli yn yr ysgol gan arwain at fandio'r ysgol yn goch, yn dilyn arolwg diweddar gan ESTYN. Mae'r holl ganolbwyntio wedi bod ar y disgyblion oedd yn sefyll arholiadau ac mae'r blynyddoedd iau wedi cael eu hesgeuluso. Mae'r Pennaeth oedd wedi derbyn secondiad wedi ymddiswyddo a bydd cyfnod pellach o ansicrwydd nes y penodir pennaeth newydd ac y caiff setlo yn y swydd. Dylid gohirio'r ad-drefnu, a rhoi cyfle i'r ysgol ddygymod â'r materion difrifol hyn. | | i gynllun gwella penodol sydd wedi ei lunio ar y cyd gyda swyddogion GWE ac sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan is-banel o'r corff llywodraethol. Mae £439,000 o ôl-groniad cynnal a chadw yn cael ei wario ar safle'r Gader maes o law.<br><br>Enghraifft o fantais posibl y cynllun yw blynyddoedd 5 a 6 yn y cynradd yn cael gwersi yn y safle uwchradd. Bydd hyn yn fater i'r corff llywodraethol benderfynu arno ac yna'i amserlennu. |
| 1.4 | Arolwg diwethaf, Ysgol Brithdir yn dangos ei bod yn ysgol ragorol ac felly mae'n hurt ystyried ei chau, gan roi datblygiad addysgol y plant mewn perygl. Mae eu dyfodol yn dibynnu ar eu cyrhaeddiad academaidd ac rwyf yn hynod bryderus fod Cyngor Gwynedd yn ystyried cau ysgol ragorol er mwyn bwrw ymlaen gyda chynllun annelwig. Ysgolion yn Nolgellau wedi cael eu graddio fel rhai gwael neu wael iawn ac mae'r syniad y bydd y rhain yn newid ac yn gwella yn swnio'n annhebygol iawn. Mae'n hysbys i bawb bod y da yn dilyn y drwg mewn sefyllfaoedd fel hyn, dirywiad a welir yn yr ysgolion da wrth eu huno â rhai nad ydynt cystal ar hyn o bryd / Adroddiad ymgynghorol o ddiddordeb mawr, cymhariaeth rhwng perfformiad Ysgol Brithdir ac ysgolion eraill yn y dalgylch yn dangos yn glir fod Ysgol Brithdir yn well nag unrhyw ysgol arall bron ym mhob categori: nifer y plant sy'n mynychu, maint rhagorol y dosbarthiadau, cost ariannol y disgybl a'r cyrhaeddiad academaidd. Eithaf rhesymegol felly fod Cyngor Gwynedd yn eu penderfyniad gwreiddiol wedi penderfynu dylai Ysgol Brithdir barhau i ddarparu addysg wych o'r radd flaenaf i blant lleol. Cadarnhawyd y penderfyniad hwn gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews / Mae gan Ysgol Brithdir enw o fod yn ofalus o'i disgyblion | 20 | Mae'r Cyngor yn falch o glywed rhieni yn camol yr addysg a ddarperir yn Ysgol Brithdir, bod gofal gwych o'r disgyblion a bod yr ysgol yn un hapus a theuluol sy'n hyrwyddo'r ddiwylliant a'r iaith Gymraeg ym mhob modd posib.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod nad mater hawdd yw wynebu unrhyw newid a bod trafodaethau ynghylch trefniadaeth ysgolion yn creu ansicrwydd.<br><br>Rhaid cofio er hynny mai'r cynnig yw cynnal a gwella ar yr arferion da hynny sydd eisoes ar waith tra'n buddsoddi mewn adnoddau sy'n gydnaws â'r 21ain ganrif er mwyn cynnig profiadau amrywiol a datblygu sgiliau a hyder holl ddisgyblion y dalgylch.<br><br>Y bwriad yw ychwanegu a chyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol a darparu'r profiadau addysgol gorau posibl ar gyfer holl ddysgwyr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous, eang a chytbwys sy'n cynnwys gweithgareddau all-gwricwlaidd a gofal. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tud. 27 | gyda ansawdd dysgu uchel iawn. Cymdogion yn sôn bod hanes arbennig i’r ysgol, llawer ohonynt wedi cael eu haddysg yno yn ogystal ag aelodau eu teuluoedd ers sawl cenhedlaeth. Cynnal yr ansawdd uchel hyn dros sawl blwyddyn yn destun clod ynddo’i hun / Cafodd fy mhlant yr addysg orau posibl yn y Brithdir. Pam cau ysgol sydd yn cynnig yr addysg orau posibl?/ Cyngor o’r farn bod Ysgol Ddilynol yn mynd i gynnig ‘dosbarthiadau addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel.’ Barn corff Brithdir ydi nad ydi’r cynnig hwn yn mynd i wella’r sefyllfa bresennol / Nid oes unrhyw rheswm call i gau Ysgol Brithdir, o’r hyn a welaf i. Mae’r rhesymau amlinellir y ddogfen ymgynghorol yn swnio’n gwbl hurt: cau ysgol lwyddiannus a hapus er mwyn gwella ansawdd ysgolion eraill/ Gwyddom fod strategaeth Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd yn adnabod chwech prif amcan a cefnogwn hyn. Yn anffortunus fe gredwn nad yw cynllun Y Gader a cau Ysgol Brithdir yn cyflawni na gwella y sefyllfa bresennol ac yn sicr ddim yn cyrraedd na gwella y chwech amcan a fabwysiadwyd.<br>Perfformiad Ysgol Brithdir yn gyfredol o safbwynt cyrraedd dangosyddion perfformiad statudol yn glod i'r athrawon a'r plant ac mae perfformiad yr ysgol er sicrhau cyfarfod a'r chwech amcan yn barod yn ddiguro. Byddai cau yr ysgol yn gwanhau tîm o athrawon a plant sydd yn rhoi o'i gorau er:<br>• sicrhau dosbarthiadau addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel<br>• hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg<br>• datblygu cynllun hir dymor rhagweithiol a chreadigol<br>• gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael<br>• creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon<br>datblygu ysgolion yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol / Fel ardal, rydym wedi bod yn gefnogol i newid ond nid ydym yn cefnogi newid sydd ddim yn mynd i ddatblygu ac ehangu addysg plant dyfodol ein hardal./ Protestio trwy lythyr ynghylch cau ysgol Brithdir. Â’n plant wedi derbyn eu haddysg yn nhref Dolgellau, fe wnaethon ni drafod y syniad o addysgu ein hwyrion yn y Brithdir ar ôl clywed am yr addysg wych a ddarperir yno. Ni chawsom ein siomi gan eu bod yn dangos cynnydd yn y ddwy iaith ac yn ddiweddar, gwelwyd mai ysgol Brithdir oedd yr ysgol orau yn ein hardal. Mae plant Brithdir yn cael addysg wych ac mae pob plentyn yn cael sylw. Mae’r ysgol yn llawn ac mwy rhagor o blant yn yr ardal yn awyddus i ddod yno / Dylech chi wedi bod yn eisteddfod yr Urdd Dalgylch Idris. Fe fyddai hynny wedi profi i chi lwyddiant Ysgol Brithdir. Aeth tua 19 eitem ymlaen i’r Eisteddfod Sir, llawer mwy nag unrhyw ysgol arall yn y dalgylch / Rydych yn defnyddio’r ddadl o fod plant yn haeddu addysg y 21 ganrif, ond gan fod Brithdir yn y categori gwyrdd, mae’n | | Gallai’r math hwn o gynnig ddarparu cyfle i wella safonau addysg ar draws y dalgylch. Gallai sefydlu un ysgol ddarparu’r hyblygrwydd ar draws yr holl oedrannau sydd yn angenrheidiol i sefydlu ymarfer safonol o rannu adnoddau, staff a chyfarpar. Mae rhesymau pam nad yw hyn eisoes yn digwydd i’r fath raddfa, megis bod angen i nifer o benaethiaid a chyrff llywodraethu gytuno cyn y gall unrhyw rannu ddigwydd.<br><br>Dylai'r model ysgol bob-oedran ddarparu cyd-destun mwy effeithiol i reolwyr reoli adnoddau ac i gynllunio addysg yn y sefydliad. Gallai hyn yn ei dro ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ansawdd, safon yr addysg a lles y disgyblion.<br><br>Gallai ysgol ddilynol ddarparu cyfleoedd ychwanegol i gynnal ethos a gwerthoedd cyffredinol ar draws yr ysgol a dylai'r rhain ddarparu cyd-destun mwy effeithiol ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | amlwg eu bod yn cael yr addysg orau. Mae'r straen ar yr athrawon wedi bod yn aruthrol ac er hynny mae'r staff dysgu wedi aros yn driw i'r Ysgol / Nid oes gan Brithdir gae chwarae, ystafell fwyta, ystafell athrawon a phrin yw'r cyfleusterau modern. Er gwaethaf hyn, ysgol y Brithdir yw'r dewis cyntaf i lawer o rieni sydd eisiau addysg o'r radd flaenaf gan staff ymroddedig. Mae'r neges yn glir – estyniad i Brithdir yw'r ateb amlwg a dyna ydy'r hyn mae llawer o rieni eisoes wedi'i gefnogi / Mae ysgol Brithdir yn ysgol sydd yn ffynnu ac mae plant yn dod o bell i gael yr addysg o safon yma. Mae yna dros 40 o blant yn mynychu ysgol Brithdir ac mae'n ysgol ganolog. Ond rydych chi eisiau cadw ysgol ar agor sydd nid yn unig ar gyrion y dalgylch ond sydd â dim ond 18 o blant / Mae plant ysgol y Brithdir i'w gweld fel plant sydd yn barchus iawn ac wedi dod o ysgol dda / Mae ysgol Brithdir yn ysgol hapus, diogel a llwyddiannus / Ar ôl blynyddoedd o ansicrwydd o dan fygythiad cau, mae rhai o'r ysgolion mor brin o ddisgyblion, mae eu dyfodol tymor byr yn fregus. Ar y llaw arall mae ein hysgol yn y Brithdir yn llawn ac yn tyfu, er gwaethaf diffyg adnoddau. Gwelir nad adeilad sydd yn gwneud ysgol lwyddiannus. Nid neuadd, na gwair sydd yn gwneud i blant lwyddo. Llwyddo yn addysgiadol a llwyddo yn bersonol ac yn gymunedol / Mae fy mhlentyn yn mynd i ysgol Brithdir yn wastad wedi bod yn swil ac mae hyn yn ei dal yn ôl yn ei gwaith ysgol. Roeddwn yn poeni na fyddai hi'n cyflawni ei photensial mewn ysgol tref fawr. Mae'r ffordd y mae ysgol wledig yn cael ei rhedeg wedi helpu fy merch a serennodd yn y sioe Nadolig y llynedd. Rwy'n credu fod hyn yn ymwneud llawer ag ysbryd teuluol ysgol wledig lle mae'r disgyblion hŷn yn cadw golwg ar y rhai iau. Mae ei darllen, mathemateg a phopeth wedi gwella | | |
| 1.5 | Mae yna gyfrifoldeb moesol a chyfreithiol i addysgu plant i'r safon uchaf posibl. Rwy'n credu fod rhai cynghorwyr yn erbyn yr egwyddor hon ond mae yna ddyletswydd cyfreithiol ar y Cyngor i ddysgu plant ac fe fyddai gwarafun athro i'r plant gan nad oes athro sy'n siarad Cymraeg yn anghywir. | 1 | Cymeradwywyd strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor llawn ar 2 Ebrill 2009. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r nod o adolygu ysgolion cynradd yn ôl dalgylchoedd uwchradd, a chafodd meini prawf eu sefydlu i flaenoriaethu'r dalgylchoedd y dylid eu hadolygu. Yn unol â'r meini prawf, dalgylch y Gader oedd y trydydd dalgylch i'w hadolygu.<br>Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r weledigaeth i:<br>"*Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn*".<br><br>Mae chwe phrif amcan wedi'u hadnabod yn y strategaeth sef:<br>1. Maint dosbarthiadau addas a safon uchel o arweinyddiaeth mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ysgolion<br>2. Hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg<br>3. Datblygu cynllun creadigol a rhagweithiol hir dymor<br>4. Gwneud y defnydd gorau o adnoddau<br>5. Creu amgylchedd dysgu o'r ansawdd gorau i blant ac athrawon y Sir<br>6. Datblygu ysgolion i fod yn sefydliadau sydd yn ganolog i ddigwyddiadau cymunedol |
| 1.6 | Mae ysgolion bach yn cau yn union fel mae'r gwasanaeth iechyd yn cau gwelyau ac ysbytai bach ac yn canolbwyntio ar Ysbyty Maelor ac Ysbyty Gwynedd. Nid yw hyn yn gweithio. Peidiwch â mynd I lawr y llwybr yna. | 1 | Nid yw pwyslais y cynnig hwn ar gau ysgolion bach ond yn hytrach ar ddatblygu cyfundrefn addysgol briodol a fydd yn gynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer y rhan hon o Wynedd. Er mwyn gwireddu hyn, mae angen lleihau nifer y safleoedd cynradd gan ystyried bod 9 safle i gwta 350 o ddisgyblion. Mae hyn ar gyfartaledd yn creu safleoedd oddeutu 40 disgybl. O greu sefydliad addysgol sydd â 5 safle cynradd, bydd y cyfartaledd oddeutu 70 disgybl. |
| 1.7 | Pam ddylai plant Brithdir dderbyn y cynnig rhataf nad yw'n 'creu amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf'. Pam ddylen ni gau safle ac ysgol lwyddiannus a theithio i safle a fyddai oni bai am yr ad-drefnu wedi cau erbyn hyn / Mae corff llywodraethol Brithdir yn credu nad yw'r gwariant ar safle Rhydymain yn creu awyrgylch dysgu o ansawdd uchel. Gwariant israddol sydd i weld yn cael ei wneud yn Rhydymain o'i gymharu â'r safleoedd eraill. A yw hyn am eich bod chwithau hefyd yn gweld na fydd yr ysgol yno yn gynaladwy? Nid yw'r ddarpariaeth yn welliant o gwbwl gan mai ond 3 dosbarth fydd yno – mae'r ysgolion eraill yn cael 4. A yw'r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen yn welliant – nac ydy, gan nad yw cael 30 o ddisgyblion yn welliant o gwbwl. Mae son hefyd am rannu cyfnod allweddol rhwng dau ddosbarth – syniad hollol hurt / Mae'r gwariant yno yn annigonol ac yn ymddangos fel ailwampio dros dro. Eto'i gyd mae disgwyl i holl ddisgyblion presennol y Brithdir deithio yno. Ni fydd adnoddau gwerth eu halen yno a chafwyd awgrym y byddai'n rhaid i'r disgyblion deithio i'r dref i gael cyfran o agweddau cwricwlaidd. Ynfytrwydd llwyr a gwastraff amser yw cludo plant yn ôl a blaen. Os mai un ysgol fydd hon yna dylai pob safle fod â'r un adnoddau ac yn gallu cynnig yr un profiadau / Mae model 8 yn cynnig 3 dosbarth yn safle Rhydymain. Yn fy marn i, mae hyn yn hollol hurt. Sut all hyn wella sefyllfa addysg plant? Mae'r cynnig o wahanu cyfnodau allweddol a blynyddoedd yn dipyn o her i'r athrawon a'r plant a ddim yn arfer da. Mae hyn yn ychwanegu at dybion fod safle Rhydymain yn un a fydd yn lleihau dros gyfnod, ac yn y cau yn y pen draw. Gobeithiwn y gwnewch chi ail-ystyried y cynllun hwn cyn symud ymlaen./ O ran dosbarthiadau addas, dim ond tri dosbarth sydd mewn golwg ar gyfer Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain. Lle | 5 | Dyluniadau cysyniadol oedd yn y ddogfen ymgynghori ac ers hynny, mae ymgynghori wedi bod gyda'r Pennaeth ac aelodau'r corff llywodraethu ar ddylunio pellach.<br><br>Ni fydd newid i'r ffigwr buddsoddiad sydd wedi ei glustnodi ar gyfer uwchraddio safle Rhydymain, sef £620,000 – sydd yn swm sylweddol gan y Cyngor. Bydd unrhyw waith uwchraddio yn cyrraedd disgwyliadau yr 21ain Ganrif.<br><br>Adroddwyd yn y ddogfen ymgynghorol ar sail y rhagamcanion a gyflwynwyd ym Medi 2013 gan benaethiaid. Cynigiwyd un ffordd posib gall dosbarthiadau safle Rhydymain gael eu trefnu. Enghraifft yn unig yw hyn, mae'r tabl isod yn dangos tair gwahanol ffordd gall niferoedd disgyblion gael eu trefnu yn seiliedig ar y rhagamcanion ddarparwyd gan benaethiaid ym Medi 2014: |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>mae'r gwelliant yn hyn i blant Ysgol Brithdir? Mae unrhyw welliant i'n sefyllfa ni yn y Brithdir yn mynnu mai 4 dosbarth ddylai fod yn Ysgol Ieuan Gwynedd Rhydymain.</td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><th>Safle</th><th>Meithrin</th><th>Derbyn</th><th>Bl 1</th><th>Bl 2</th><th>Bl 3</th><th>Bl 4</th><th>Bl 5</th><th>Bl 6</th><th>Cyf.</th><th>Nifer Dosb</th><th>Dosb Mwyaf</th><th>Dosb Lleiaf</th><th>Cyfartaledd Dosb</th></tr>
<tr><td colspan="14">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Benaethiaid ym Medi 2013</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Rhydymain</td><td>8</td><td>8</td><td>7</td><td>8</td><td>9</td><td>8<br>4 | 4</td><td>12</td><td>7</td><td rowspan="2">67</td><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">23</td><td rowspan="2">21</td><td rowspan="2">22</td></tr>
<tr><td colspan="3">23</td><td colspan="3">21</td><td colspan="2">23</td></tr>
<tr><td colspan="14">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Benaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 1</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Rhydymain</td><td>8</td><td>7</td><td>6</td><td>9</td><td>8</td><td>8<br>4 | 4</td><td>13</td><td>7</td><td rowspan="2">66</td><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">24</td><td rowspan="2">21</td><td rowspan="2">22</td></tr>
<tr><td colspan="3">21</td><td colspan="3">21</td><td colspan="2">24</td></tr>
<tr><td colspan="14">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Benaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 2</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Rhydymain</td><td>YB 4<br>YP 4</td><td>7</td><td>6</td><td>9</td><td>8</td><td>8</td><td>13</td><td>7</td><td rowspan="2">66</td><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">26</td><td rowspan="2">16</td><td rowspan="2">19</td></tr>
<tr><td colspan="4">26</td><td colspan="2">16</td><td colspan="2">20</td></tr>
<tr><td colspan="14">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Benaethiaid ym Medi 2014 - Posibilrwydd 3</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Rhydymain</td><td>YB 4<br>YP 4</td><td>7</td><td>6</td><td>9<br>5 | 4</td><td>8</td><td>8</td><td>13</td><td>7</td><td rowspan="2">66</td><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">20</td><td rowspan="2">17</td><td rowspan="2">19</td></tr>
<tr><td colspan="4">17</td><td colspan="2">20</td><td colspan="2">20</td></tr>
</table>
<br>
O'r enghreifftiau yn y tabl uchod, yn ddibynnol ar benderfyniad y pennaeth, mae modd creu strwythur dosbarthiadau fel bod y cyfnodau allweddol ddim yn cael eu croesi. Bydd strwythur y dosbarthiadau yn cael eu penderfynu gan y pennaeth a'r corff llywodraethol yn seiliedig ar wir nifer y plant a'r staff a benodwyd i'r safle.
</td>
</tr>
<tr>
<td>1.8</td>
<td>Rydym yn amheus iawn a yw model 8 yn ei ffurf bresennol yn cynnig ateb hyfyw i'r broblem sydd yn ein wynebu. Yn eich cyflwyniad a'ch gohebiaeth ar fodel 8 mae'r gair 'gobaith' yn ymddangos yn rhy aml. Ffeithiau a sicrwydd cadarn sydd ei angen arnom nid eich 'gobaith' y bydd y cyfan yn llwyddo. Mae llawer gormod yn y fantol, mae blynyddoedd addysg cannoedd o blant yn y fantol. Mae adrefnu ar y raddfa yma angen llawer mwy na'ch 'gobaith' bregus chi y bydd yn llwyddo. Onid haeddiant y plant, ac yn wir cynghorwyr y dyfodol yw'r sicrwydd fod eu haddysg o'r ansawdd orau? Onid eu hawl hwy yw derbyn addysg cystal ag unrhyw ddisgybl arall yng Ngwynedd? Mae angen i chi ddangos llawer mwy o dystiolaeth cadarn ynglŷn â llwyddiant y model hwn? Nid yw 'gobeithio' y byddwch yn denu'r pennaeth gorau yn ddigonol, nid yw 'gobeithio' bod safleoedd y cynradd yn gynaliadwy yn ddigonol, nid yw 'gobeithio' y gellir creu amserlen fel nad yw amser addysgu yn cael ei golli gan fod athrawon a disgyblion yn teithio o un lle i'r llall yn dderbyniol o gwbl /Sut y gallwch chi fod mor ddi hid o addysg plant? Sut y gallwch chi â llaw ar eich calon edrych yn llygaid yr athrawon a'r plant a dweud wrthyn nhw y bydd y cyfan yn welliant ac yn llwyddiant pan nad oes dim byd fel hyn wedi bod eisoes i brofi llwyddiant?/</td>
<td>5</td>
<td>Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddiogelu addysg yn yr ardal trwy sicrhau darpariaeth gynaliadwy a sicrhau bod adnoddau yn cael eu dosbarthu'n decach. Y bwriad yw sicrhau bod unrhyw newid yn y ddarpariaeth addysg ar gyfer yr ardal yn ddigon gwydn i gwrdd â newidiadau posib yn niferoedd disgyblion yn y dyfodol. Mae'r lleihad yn niferoedd disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf wedi creu nifer sylweddol o leoedd gweigion yn ysgolion cynradd dalgylch y Gader – cyfanswm o 41% (neu 248 mewn nifer). Mae hefyd nifer o leoedd gweigion yn yr adran uwchradd, 18% (86 o leoedd) sydd yn golygu bod nifer y lleoedd gweigion ar draws y dalgylch yn 31% (334 o leoedd ysgol). Mae'r rhagamcanion yn achosi pryder gan y bydd yr ysgolion yn dod yn rhai bregus iawn, fe fydd gormod o bwysau ar benaethiaid wrth iddynt geisio cynnal safonau a darparu profiadau a chyfleoedd o ansawdd i'r disgyblion. Mae angen gwir ystyried lles personol a chymdeithasol y disgyblion fyddai yn yr ysgol ar yr adeg hynny.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol nad yw'r model wedi ei sefydlu yn y ffurf y cynigwyd yn flaenorol. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod y ffaith ei fod o'n fodel</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ble mae’r tegwch i blant Dalgylch Y Gader ar ôl y gwariant wnaethoch yn Craig y Deryn, Penybryn, Tywyn a Llanuwchllyn? | | arloesol yn rheswm dros beidio â sefydlu’r ysgol ddilynol ddalgylchol gan ystyried y manteision gwahanol gall ei gynnig. |
| 1.9 | Bum yn ysgol Brithdir yn ddiweddar iawn fel bu fy nheulu ers pump cenhedlaeth a mwy / Mae ein teulu ni wedi bod yn yr ysgol yma ers cenedlaethau. Mae’n debyg ar ddiwedd y dydd nad ydych yn meddwl dim am addysg y plant, dim ond y gost! | 2 | Nid yw’r Cyngor yn ystyried bod yr opsiwn yma yn cynnwys risgiau lefel uchel, mae’r cynnig yn un arloesol ond mae nifer o wahanol ffactorau wedi’u cloriannu yn ofalus cyn penderfynu ar yr opsiwn a ffafrir.<br><br>Mae cryn waith ymchwil wedi’i gynnal cyn i’r model arfaethedig gael ei ddewis. Datblygwyd gwahanol fodelau ac yna gwerthuswyd y modelau hynny yn erbyn gwahanol ffactorau. Roedd y ffactorau yma yn cynnwys elfennau o strategaeth trefniadaeth ysgolion y Sir, gweledigaeth dalgylch Y Gader, elfennau o’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a ffactorau perthnasol eraill. |
| 1.10 | Yr ydym fel rhieni yn deall nad yw’r sefyllfa bresennol o ran trefniadaeth ysgolion yn gynaliadwy / Rwyf yn derbyn fod yn rhaid symud ymlaen gyda’r bwriad o uno ysgolion i wireddu yr Ysgol 3-16 oed / Rwyf yn deall fod angen newid yn y dalgylch / Deallir fod ‘gwir angen am newid mewn rhai ardaloedd am nifer o resymau’. | 4 | Mae’r Cyngor yn gwerthfawrogi’r farn a fynegir yma bod newid yn anochel er mwyn dod â manteision addysgol i ddisgyblion cyfredol a disgyblion y dyfodol. Mae’r cynnig hwn yn golygu cyfle i gynnal elfennau gorau addysg y dalgylch ac ar yr un pryd, rhoi sylw i’r elfennau hynny sydd angen eu gwella. |
| 1.11 | Pam meddwl am ysgol fawr? Onid yw bandiau coch yn y ddwy ysgol yn Nolgellau yn dweud rhywbeth wrthych fel Cyngor?/ Mater o bryder yw bod y ddwy ysgol yn nhref Dolgellau wedi eu categoreiddio yn goch. Derbynniodd Ysgol Gynradd Dolgellau adroddiad Estyn sydd o’r farn fod angen mesurau arbennig. Os mai cynllyn tymor hir y Cyngor fyddai creu “Super school” yn nhref Dolgellau, mae’r digwyddiadau yma yn gonsyrn aruthrol i rieni yr ardal / Maint dosbarthiadau yn cynyddu’n sylweddol / Nid yw’r cynnig presennol yn ymarferol. Mae Ysgol Y Gader ac Ysgol Gynradd Dolgellau mewn trybini. Nid oes ganddynt Bennaeth. Maent yn y band choch. Sut fydd creu un ysgol ar 6 safle yn gwella’r sefyllfa? | 3 | Mae’r Cyngor yn ymwybodol bod rhai rhieni wedi bod yn pryderu am addysg Ysgol Y Gader a Chynradd Dolgellau yn ddiweddar. Mae’r adran addysg wedi rhoi mesurau mewn lle i roi cymorth i’r ysgolion.<br><br>Mae Ysgol y Gader yn derbyn cefnogaeth a chynhaliaeth ychwanegol er mwyn datblygu ymhellach yr arweinyddiaeth a’r rheolaeth sydd eisoes ar waith ac yn cael ei mesur wrth fonitro safonau cyflawniad y disgyblion. Yn 2014, mae tystiolaeth gadarn fod y cydweithrediad rhwng staff, llywodraethwyr a swyddogion wedi dwyn ffrwyth gyda’r canlyniadau a’r cymarebau lleol a chenedlaethol ar gael i rieni.<br><br>Ar hyn o bryd mae Pennaeth Strategol yn cydweithio gyda Phennaeth Mewn Gofal dros dro a dau Bennaeth Cynorthwyol yn ymateb i gynllun gwella penodol sydd wedi’i lunio ar y cyd gyda swyddogion GWE ac sy’n cael ei fonitro’n rheolaidd gan is-banel o’r corff llywodraethol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae Pennaeth dros dro yn Ysgol Gynradd Dolgellau. |
| 1.12 | Rwyf yn ysgrifennu er mwyn cyflwyno fy ngwrthwynebiadau parhaus i’r bwriad i gau Ysgol Machreth, Llanfachreth. Rwyf yn Llywodraethwr ar yr ysgol ac mae | 1 | Mae’r Cyngor yn falch o glywed bod rhieni o’r farn bod addysg o ansawdd uchel yn cael ei darparu yn Ysgol Machreth. Gobaith y cynnig hwn yw parhau â’r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gen i blant sy'n mynychu'r ysgol. Mae Machreth yn ysgol arbennig iawn fel a welwyd wythnos diwethaf pan wnaeth y disgyblion gymryd rhan mewn cystadleuaeth Menter Cenedlaethol yn y Senedd a dod yn ail ledled Cymru. Mae'r plant yn yr ysgolion hyn yn cyrraedd mannau uchel yn academaidd ac yn blodeuo mewn awyrgylch llawn anogaeth. Mae fy mhlant wedi cyrraedd safon uchel ym mhob pwnc gan gynnwys y Gymraeg er mai Saesneg yw'r famiaith gartref. Ysgol Machreth sydd yn gyfrifol am y llwyddiant hyn. | | ansawdd uchel hyn ac atgyfnerthu'r sefyllfa mewn amgylchedd dysgu sy'n addas i'r $21^{ain}$ ganrif. |
| 1.13<br><br>Tud. 32 | Gan ddyfynnu o bapur yr NASS, "Ysgolion Bychain ac Economeg", "*Mae ysgolion bychain, wrth leihau anfantais trwy gadw cysylltiad agosach gyda rhieni, hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar broblemau cysylltiedig â phlentyndod yn y cyfnod hwn, yr hyn mae Sue Palmer yn ei alw yn 'blentyndod tocsig'. Roedd tair barwnes, a phob un yn gyn Ysgrifenyddion Gwladol, yn hynod bryderus am yr hyn sy'n digwydd i blentyndod fel iddyn nhw gomisiynu astudiaethau o'r symptomau. Gall ysgolion bychain gyrraedd rhieni yn haws, gan rannu gwerthoedd, agweddau, uchelgais ac ymdrech.*" Dyma'r union beth y mae Ysgol y Clogau yn ei wneud mor dda ac mae ei llwyddiant digamsyniol dros y blynyddoedd yn dangos hynny.<br>I barhau gydag adroddiad NASS "Ysgolion Bychain ac Economeg",<br>*"Yn yr Alban yn 2006, adroddodd arolwg gan y Llywodraeth bod gan blant yn yr ysgolion lleiaf 25% yn fwy o gyfle o fynd i addysg uwch. Roedd plant o deuluoedd tlawd, difreintiedig yn yr un ysgolion hynny yn gwneud cynnydd. Fe fyddai ysgolion bychain yn fwy effeithiol ar gyfer pobl dlawd mewn cymunedau trefol..."*<br>*"Yn 2007, rhoddodd Ofsted ddata i'r NASS oedd yn dangos fod ysgolion â llai na 51 o blant yn cael y graddau da neu raddau gorau am ddysgu, a bod rhwng 51 a 100 yn yn dod nesaf. Gwelwyd ers peth amser mai rhieni da ac athrawon da yw'r ffactorau pwysicaf er mwyn sicrhau deilliannau addysgol. Mae ysgolion bach a bach iawn wedi bod yn gyson ymhlith dyfarniadau 'rhagorol' Ofsted ar gyfartaledd tra bod holl arolygwyr y DU yn nodi awyrgylch deuluol gadarnhaol sy'n deillio o berthnasau effeithiol gyda rhieni a chymunedau lleol".* | 1 | Ein disgwyliad yw y bydd dosbarthiadau o faint addas yn ysgolion cynradd yn nalgylch y Gader ac yn wir, ledled Gwynedd, fel bod holl blant y Sir yn derbyn y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl yng nghwmni eu cyfoedion. Nid y bwriad yn nalgylch y Gader ydy symud disgyblion o ysgolion bychain iawn a'u boddi mewn ysgol enfawr. Pa bynnag un o'r chwe safle y bydd y disgyblion yn fynychu, y nod fydd darparu addysg o'r radd flaenaf.<br><br>Mae chwech o'r penaethiaid cynradd yn y dalgylch yn treulio dros 70% o'u hamser yn dysgu. Un bwriad creiddiol yw sicrhau lleihad mewn amser dysgu i benaethiaid, fel y gallant ganolbwyntio eu sylw a'u hymdrechion i feysydd arweinyddiaeth a rheolaeth ac y gall yr athrawon ganolbwyntio ar addysgu'r disgyblion yn eu gofal yn effeithiol. |
| 1.14 | Awgrymir '*Gellir trefnu cwricwlwm ac amserlen cynradd ar draws pob safle fel bod disgyblion o'r un oed yn dysgu'r un pethau ar yr un pryd – byddai hyn yn golygu eu bod i gyd ar yr un lefel wrth gyrraedd blwyddyn 7 yn y safle uwchradd*'. Mae hyn yn ucheglais ideolegol ond o ran ymarferoldeb a 'rhannu' adnoddau staff e.e. athro cerddoriaeth o Ysgol Y Gader, neu gael bob gwers gwyddoniaeth yn Ysgol Y Gader, ni all hynny weithio. Ymddengys na wnaethpwyd dadansoddiad sylfaenol wrth gyflwyno'r cynigion addysgol hyn. | 1 | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai trefniadau cydweithio gwirfoddol yn bodoli yn y dalgylch eisoes. Wrth bod yr ysgolion yn sefydliadau addysgol ar wahân ar hyn o bryd, gyda chyrff llywodraethol unigol, nid yw'n rhwydd sicrhau cysondeb llwyr ar draws yr ysgolion i gyd. Gall er enghraifft un corff penderfynu beidio â chydweithio ac nid yw'n gyson ar draws yr ysgolion wedyn.<br><br>Er bod yr un cwricwlwm yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd, gall y cynnig newydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dyddiau hyn mae defnyddio'r we, a rhannu adnoddau ar-lein yn hytrach na gorfod cludo plant yn gorfforol ledled y dalgylch, yn gwneud defnydd effeithlon, cost effeithiol, ymarferol ac amgylcheddol gyfeillgar. Nid oes rheswm pam na ddylai staff o safleoedd gyfarfod i drafod a rhannu arfer dda, yn wir nid yw hyn yn newydd. Mae staff a phenaethiaid yn cyfarfod yn rheolaidd e.e. yn y prosiect 'Ysgol i Ysgol' ac yn gwneud hynny. Nid yw hyn yn syniad newydd.<br>Wythnos diwethaf yn unig, fe wnaeth Pennaeth ac athro CA 1 fynychu a) gweithdy cynllunio ar gyfer CA2 ar gyfer pob ysgol yn y dalgylch a b) mynychu cyfarfod cymedroli gyda'r Cyfnod Sylfaen. | | sicrhau bod yr un themâu yn cael eu haddysgu ar yr un adeg fel bod cydweithio a rhannu arbenigeddau staff yn rhan naturiol o fywyd bob dydd yr ysgolion er lles y plant. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr ysgolion presennol yn gweithio o fewn yr un gweithdrefnau ond wrth sefydlu un ysgol o dan un drefn reolaethol (un corff llywodraethu, un pennaeth ac un tîm rheoli) bydd yn cysoni'r profiadau ymhellach. Mae rhaid cydnabod ar adegau bod gwahanol gyrff llywodraethu a phenaethiaid yn rhoi pwyslais ar agweddau penodol ac o sefydlu un drefn reolaethol bydd hyn yn cael ei gysoni, nid yn unig o fewn y sector cynradd ond yn yr uwchradd hefyd. |
| 1.15 | Lle mae'r risgiau wedi cael eu mesur? Mae costau ynghlwm â meysydd risg ac effeithiau posibl. Mae absenoldeb y costau yn dangos nad yw'r risgiau wedi cael eu harchwilio'n fanwl. Un risg sylweddol yw "Beth os na fydd y model hwn yn gweithio, o ran cynnal a gwella addysg yn y dalgylch?" Mae'n gyfleus nad oes yna unrhyw ddeilliannau mesuradwy ar gyfer addysg. Nid oes unrhyw atebolrwydd ynghlwm â'r prosiect hwn. Ni roddwyd unrhyw enghreifftiau o'r model hwn yn gweithio mewn sefyllfa debyg. Mae hon yn Strategaeth Risg Uchel iawn. Yn enwedig o ystyried methiant diweddar Ysgol y Gader, y pennaeth sydd newydd ymddiswyddo a'r corff llywodraethol cyfredol. O ystyried bod 79% o'r rhieni a holwyd wedi ateb trwy ddweud "*Yr unig beth sy'n cyfrif gen i yw fod fy mhlentyn yn cael addysg dda*". Nid yw Cyngor Gwynedd wed nodi i ba raddau y bydd safonau addysg yn gwella. | 1 | Mae'r Cyngor yn gweld nifer o fanteision addysgol i holl ddisgyblion dalgylch y Gader wrth sefydlu'r model arfaethedig.<br><br>Nid yw'r Cyngor yn ystyried bod yr opsiwn yma yn cynnwys risgiau lefel uchel, mae'r cynnig yn un arloesol ond mae gwahanol ffactorau wedi'u hystyried cyn penderfynu ar yr opsiwn a ffefrir.<br><br>Mae heriau a risgiau'r cynnig wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) |
| **2** | **Y Gymuned** | | |
| 2.1 | O ystyried lle da ni'n byw, Ysgol Clogau yw'r unig beth rhyngon ni a Dolgellau. Sut bydd y gymuned yn ymdopi os bydd yr ysgol yn cau? Beth fydd yn digwydd i'r adeilad? Mae perfformiadau, gwasanaeth Diolchgarwch a digwyddiadau codi arian yn cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned / Mae lefelau addysg y plant wedi gwella'n arw, ond yn bwysicach na dim i mi, yw'r sgiliau cymdeithasol unigryw a'r teimlad o gymuned maent wedi eu methrin ers mynychu'r ysgol / Fy mhlant yn parchu eu cymuned ac yn parchu'r naill a'r llall / Os bydd yr ysgol yn cau, fe fydd y gymuned hon yn y Bontddu yn dod i ben. Heb siop a swyddfa bost eisoes, beth fydd i gadw teuluoedd yma a denu teuluoedd newydd i'r ardal? / Dosbarthiadau maint llai, awyrgylch cymunedol a lleoliad gwledig yn fanteision mae rhieni yn teimlo eu bod yn mynd i golli os bydd Ysgol Clogau yn cau / Mae Ysgol Clogau wedi cyflawni un o brif amcanion strategaeth addysg Gwynedd "trwy ddatblygu ein hysgolion yn sefydliadau sy'n ganolog i weithgaredd y gymuned" - cau'r ysgol yn mynd yn gwbl groes i'r amcanion / Y gymuned mewn cysylltiad rheolaidd ac agos gyda'r ysgol mewn nifer o ffyrdd - ni ellir creu | 5 | Diben ysgol mewn unrhyw bentref yw darparu addysg o'r radd flaenaf i'r disgyblion. Er hynny, cydnabyddir bod unrhyw ysgol yn gallu bod yn rhan annatod o'r gymuned gyfagos a bod gan drigolion ysgolion deimladau cryfion ynghylch cynnal yr ysgol leol.<br><br>O ran bod cau ysgol yn dod â chymuned i ben, nid yw hyn o reidrwydd yn wir yng Ngwynedd – gweler enghreifftiau megis Llithfaen a Caeathro lle mae'r gymuned Gymraeg yn parhau i ffynnu a mynd o nerth i nerth flynyddoedd lawer ar ôl i'r ysgol gau.<br><br>Yr hyn y mae'r cynnig hwn yn ei wneud yw ceisio ymdrin â'r sefyllfa bresennol nad yw'n gynaliadwy. Diben y cynnig yw sefydlu trefn addysgol o'r ansawdd uchaf posibl i ddisgyblion dalgylch y Gader gan ddatblygu profiadau, sgiliau a hyder er mwyn eu galluogi i ddatblygu i'w llawn botensial.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd o ran effaith |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>cysylltiadau o’r fath mewn cyfnod byr / Nid yw’r tabl ar dudalen 58 y Ddogfen Ymgynghorol yn cynnwys defnydd ychwanegol gan y gymuned – y gymuned yn mynychu ffeiriau hydref/haf, diwrnod agored yn yr haf. Ysgol yn defnyddio neuadd y pentref ar gyfer Cyngerdd Nadolig, parti Nadolig, diolchgarwch, gwersi dawns/gymnasteg ac weithiau ffair wanwyn / Digwyddiadau bob hyn a hyn e.e. dangos ffilm a partïon pen-blwydd yno / Aelodau’r gymuned ar y Bwrdd Llywodraethol ac yn helpu’r ysgol, gan ddangos gwir ddiddordeb ac ymrwymiad, hyd yn oed os nad oes ganddynt blant eu hunain yn yr ysgol / Y gymuned yn teimlo’n rhan o’r ysgol ac yn gefnogol iawn i ddigwyddiadau’r ysgol / Ysgol yn helpu codi arian i’r neuadd bentref ac yn rhannu rhoddion diolchgarwch gydag aelodau’r gymuned / Busnesau lleol yn elwa o gefnogaeth rhieni’r ysgol / Sut ellir gwneud iawn am hyn? Nid yw’r mesurau lleddfu yn ystyried y pwyntiau hyn. Mae’n bwysig nodi mai’r ysgol yw’r fantais fwyaf i drethdalwyr y pentref o gymharu â’r arian a werir yn bennaf ar drigolion trefol.</td>
<td></td>
<td rowspan="2">posibl cau ysgolion ar gymunedau yn nalgylch y Gader ac yn effro i’r her o geisio lliniaru’r effeithiau posib hynny. Os bydd y cynnig hwn yn cael ei wireddu, mae’r Cyngor yn ymrwymo i weithio gyda’r cymunedau hynny er lles y gymuned.<br><br>Bydd cyswllt cymunedol yn un o’r ystyriaethau wrth sefydlu’r ysgol newydd arfaethedig. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod cau safleoedd addysgol mewn pentref yn gallu cael effaith negyddol ar y cymunedau ond bod mesurau lliniaru yn gallu lleihau’r effaith negyddol. Mae’r Adroddiad Asesiad Ardrawiad Cymunedol yn nodi:<br><br>“Mae effaith y Modelau ar y cymunedau, a pha mor bellgyrhaeddol yw'r ardrawiad yn ddibynnol ar y mesurau lliniaru sy’n cael eu mabwysiadu mewn ymateb i’r newid. Mae hyn yn wir ym mhob un o’r 8 Model.<br><br>Ar gyfer y cymunedau ble bydd ysgol yn cau, awgrymir mabwysiadu rhai mesurau i liniaru’r effaith negyddol. Bydd y mesurau lliniaru hyn yn cael eu hystyried gan y Cyngor i’w hymgorffori pe penderfynir gweithredu ar yr argymhellion yn y dalgylch:<br><br>• Er mwyn creu ysbryd cynhwysol a pherchnogaeth, dylid sicrhau ar gychwyn a thrwy gydol y broses drosiannol fod Llywodraethwyr pob ysgol yn rhan annatod o’r datblygiadau a’r penderfyniadau gyda gwybodaeth reolaidd yn cael ei rhaeadru i rieni,<br>• Ymgynghori’ n briodol gyda’r pentrefi a’r cymunedau lleol o ran cytuno ar ddefnydd pwrpasol o’r holl adeiladau i’r dyfodol<br>• Dylid rhaglenni i sicrhau fod cyfran o weithgareddau cymdeithasol yr ysgolion newydd (cyngerdd, noson goffi ac ati) yn cael eu cynnal yn y pentrefi lle mae ysgolion yn cau, yn ogystal â’r pentrefi lle bydd presenoldeb safle ysgol yn parhau<br>• Dylai’r Cyngor sicrhau fod cynlluniau cludiant ysgol yn bwrpasol”<br><br>Pe byddai’r model yn cael ei weithredu, gall y Cyngor roi ystyriaeth briodol i’r mesurau lliniaru a nodwyd yma.<br><br>Mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion. Yn ôl y polisi hwn, os oes dymuniad lleol bydd y Cyngor yn gofyn i’w Swyddogion Adfywio gefnogi’r</td>
</tr>
<tr>
<td>2.2<br><br>Tud. 34</td>
<td>Wedi byw yn y Brithdir ers 30 mlynedd – fe wnaeth fy mhlant fynychu’r ysgol gan elwa o addysg dda yn ogystal â meithrin y teimlad o berthyn i gymuned, teimlad a grëwyd gan yr ysgol. Dysgu a bod yn rhan o gymuned ysgol agos-at, bychan yn golygu fod ganddynt hunan-hyder, empathi tuag at eu cyfoedion, teimlad o berthyn a hunan-barch – elfennau rwy’n teimlo na fyddai ganddynt pe byddent wedi mynychu amgylchedd addysg llai agos-at ac mewn adeilad mwy o faint./Cau’r ysgol mewn pentref bychan fel Brithdir nid yn unig yn effeithio ar y rhai hynny sydd â phlant oedran ysgol, ond ar y gymuned gyfan. Teuluoedd, ffrindiau a thrigolion y pentref yn cefnogi’r ysgol yn ariannol, trwy godi pres wrth fynychu digwyddiadau a gynhelir gan yr ysgol ac maent hefyd yn helpu trwy wirfoddoli. Mae cael ysgol yn y pentref yn denu teuluoedd newydd i’r ardal sy’n dod â gwaed a phrofiadau newydd sy’n werthfawr iawn / Effaith ar y gymuned wrth golli cefnogaeth yr ysgol e.e. cyfarfod bach, gwasanaeth diolchgarwch, sioe Nadolig / Byw yn y Brithdir a’r plant yn mynychu’r ysgol yn y pentref - fedrai ddim canmol yr ysgol digon. Er gwaethaf diffyg amodau, mae’r plant yn cyflawni uwchben y disgwyl, yn datblygu’n foesol, yn clodfori eu cymuned a’u Cymreictod - yr ysgol yn llwyddo / Nid wyf yn gallu gweld y synnwyr o gau Ysgol Brithdir - rhaid fod yr ysgol yn gwneud rhywbeth yn iawn neu ni fyddai mor llawn – 44 disgybl. Mae’n boblogaidd, llwyddiannus ac yn llewyrchus – popeth y dylai ysgol wledig Gymraeg fod. Mae’n helpu cadw ein cymuned wledig yn fyw. Mae’n wastad wedi bod yn ysgol dda! Mae yma hyd yn oed restr aros sydd â phlant yn aros i’w plant gael eu haddysg yno. A dyma sut mae’r Awdurdod Addysg a’r Cynghorwyr yn gwobrwyo Ysgol Brithdir – cau! /</td>
<td>6</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gobeithio bydd y Cyngor yn ail-ystyried gan bydd cau'r ysgol yn golled nid yn unig i'r holl blant ond i weddill cymuned Brithdir ac i ddyfodol yr ardal. | | gymuned wrth ystyried unrhyw ôl-ddefnydd o dir ac adeiladau a ryddheir o ganlyniad i'r ad-drefnu.<br><br>Gan glywed am ymrwymiad a chysylltiad cymuned Bontddu gyda'r ysgol, mae'r Cyngor yn falch iawn o hyn ac yn gobeithio bydd y cyswllt yma'n parhau gyda'r gymuned ehangach bydd yn gysylltiedig â'r ysgol dalgylchol. Bydd angen aelodau'r gymuned ar y corff llywodraethol cysgodol, mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw aelod cyfredol gyrff llywodraethol yr ysgolion gynnig eu hunain fel aelodau o'r corff cysgodol.<br><br>O ran parhau ag addysg gynradd wledig Gymraeg, hoffai'r Cyngor amlygu bod pedwar safle gwledig cynradd yn parhau i gael eu gwarchod – Dinas Mawddwy, Llanelltyd, Rhydymain a Friog. |
| 2.3 | Pryderus iawn ynghylch effaith cau arfaethedig ar gymuned a phentref Brithdir. Pentref eisoes wedi colli'r swyddfa bost, siop lleol ac yn fwy diweddar, eglwys y pentref. Rydym er hynny yn hynod ffodus o gael ysgol hynod lwyddiannus sydd wedi'i rheoli'n dda iawn sydd yn rhan ganolog o fywyd y pentref / Ni ellir trin ardal wledig fel hyn a honni eich bod fel Cyngor wedi 'ymrwymo i gadw addysg wledig'. Cau safle cynaliadwy, hygyrch a hyfyw fel Brithdir yn ddiegwyddor yn enwedig ar ôl i'r Cynulliad a Leighton Andrews roi sêl bendith ar safle Brithdir yn ystod yr ymgynghoriad diwethaf / A wnewch chi barhau i ddarparu addysg wledig gynaladwy o safon uchel yn y dalgylch? Cyngor yn honni ei fod wedi ymrwymo i gynnal addysg wledig yn y dalgylch ond mae'r model hwn yn gwneud y gwrthwyneb. | 3 | |
| 2.4 | Cau'r ysgolion yn cael effaith tymor hir gwaeth ar yr ardal wrth i deuluoedd sydd eisiau gwaith orfod symud o'r ardal er mwyn canfod ysgolion sydd â'r un ethos a safonau â'r ysgolion hynny a gollwyd. Fe fyddant yn symud i fannau lle mae gwell swyddi, tai rhatach a rhagolygon gwell - unig beth fydd ar ôl fydd henoed a chartrefi gwyliau. Os bydd ein hysgol ni yn Llanfachreth yn cau, yna fe fyddai'n rhaid i ninnau ystyried symud. | 1 | |
| 2.5 | Rhieni a'r gymuned leol yn siomedig iawn gyda'ch penderfyniad i gau Ysgol Ganllwyd. Penderfyniad yn effeithio nid yn unig plant ond y cysylltiad rhwng y plant a'r gymuned. Pentref yn cael ei rwygo gyda rhieni yn anfon eu plant i ysgolion tu allan y dalgylch. Hyderwn y byddwch yn ystyried oblygiadau eich penderfyniad ar ein plant ac ar ein cymuned yn y dyfodol. | 1 | |
| 2.6 | Yn Rhydymain mae nifer o dai wedi bod ar werth am flynyddoedd ac wedi eu gwerthu i bobl mewn oed heb blant. Pa ddyfodol fydd i'r ysgol os nad oes plant? | 1 | |
| 2.7 | Pan symudon ni i'r ardal, roedden ni'n falch o wneud y penderfyniad gan ein bod yn gwybod ein bod yn gwneud y gorau dros ein darpar deulu. Fel cyn athrawon roedden yn ymwybodol iawn pa mor bwysig yw sylfaen dda ar gyfer addysg plant. Fe wnaethon symud o ardal lle'r oedd enw da gan ysgolion ond roedd problemau cymdeithasol cyffredin. Yn ogystal â magu teulu mewn ardal hardd, roedden ni'n edrych ymlaen at anfon ein plant i Ysgol Brithdir a dod yn rhan o gymuned rhieni gref / Plant yn colli allan ar gefnogaeth wirfoddol gan bobl hŷn y gymuned sydd yn rhoi eu hamser a'u harbenigedd i ddysgu plant yn rheolaidd / Bydd colli'r ysgol yn golygu newid yn y gymuned. Bydd dim posib cadw cysylltiad rhwng yr hen a'r ifanc yn y pentref heb ysgol. | 3 | Cydnabyddir ymdrech rhieni a thrigolion pentrefi lleol i gefnogi addysg plant yr ardal. Partneriaeth ydy addysg rhwng rhieni, disgyblion a'r ysgol. Gan ddod â disgyblion gwahanol gymunedau at ei gilydd i dderbyn eu haddysg y gobaith yw bydd cymunedau mwy eang yn gallu cefnogi'r ysgol. Cynigiodd yr asesiad cymunedol<br>"*Dylid rhaglennu i sicrhau fod cyfran o weithgareddau cymdeithasol yr ysgolion newydd (cyngerdd, noson goffi, ayyb) yn cael eu cynnal yn y pentrefi lle mae ysgolion yn cau, yn ogystal â'r pentrefi lle bydd presenoldeb safle ysgol yn parhau*" fel bod y cysylltiad rhwng ysgol a chymuned (neu rhwng yr ifanc a'r hŷn fel sy'n cael ei nodi mewn gwrthwynebiadau) yn parhau. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r argymhellion i liniaru effaith negyddol yr asesiad effaith |
| 2.8 | Safle Rhydymain ar gyrion y dalgylch. Nid yw'n ddigon canolog i'r tri pentref – | 4 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llanfachreth, Brithdir a Rhydymain. Sut fydd hyn yn cynnal gweithgareddau cymunedol yma yn y Brithdir ? | | cymunedol yn cael eu cyflwyno i bennaeth a chorff llywodraethol cysgodol yr ysgol ddilynol ddalgylchol newydd.<br><br>Wrth ystyried disgyblion lleol yn mynychu gweithgareddau fel yr Urdd, mae'n bosib y bydd mwy o blant yn gallu cymryd rhan a chael budd gan fod y cohort o ddisgyblion sydd yn cyd-ddysgu a chymdeithasu wedi'i ehangu. Gan y bydd disgyblion yn adnabod ei gilydd wrth derbyn eu haddysg gyda'i gilydd a chynyddu'r cohort bydd modd creu timau chwaraeon o oedrannau penodol. |
| 2.9 | Disgyblion Ysgol Brithdir yn mynychu'r Urdd yn y gymuned ac mae'r Adran wedi profi llwyddiannau yn yr eisteddfod a mewn chwaraeon ac yn cynnal gweithgareddau sy'n hybu'r Gymraeg a Chymreictod. Beth fydd dyfodol gweithgareddau fel hyn? / Ysgol Brithdir yn boblogaidd a chroesawgar. Cyngherddau Diolchgarwch a Nadolig sydd ymlaen yn y neuadd bentref yn llwyddiant bob blwyddyn a phobl yr ardal yn mwynhau dod i gefnogi. | 2 | |
| 2.10 | Fel ardal, mae gennym deuluoedd ac aelodau o'r gymuned sy'n gefnogol, gwneir defnydd rheolaidd o'r ysgol, ac mae clwb ar ôl ysgol bob nos i'r disgyblion, a ddarperir gan staff yr ysgol a gwirfoddolwyr. | 1 | |
| 2.11 | Ffodus o gael ysgol feithrin lwyddiannus ac uchel ei pharch ym mhentref y Brithdir yn Seren Fach, sydd yn bwydo'r dosbarth nesaf o blant a fydd yn mynychu ysgol y pentref / Meithrinfa Seren Fach yn ased gwerthfawr er mwyn cefnogi ein hysgol a'r gymuned ehangach. Helpu ac yn annog cyflogaeth yn yr ardal gan ei fod yn galluogi llawer o rieni i ddychwelyd i'r gweithle. A fydd cau'r ysgol yn effeithio ar Seren Fach? / Yn eich ymateb fe ddwedsoch fod Seren Fach yn Breifat. Elusen ydy hon sy'n cael ei rhedeg gan aelodau yn y gymuned fel pwyllgor gwaith, yn cyflogi 14 o staff a rheolwraig gyda chymwysterau gofal plant a phrofiad, dan arweiniad Rheolwraig a phwyllgor o aelodau yn y gymuned. Elw yn cael ei fuddsoddi nol yn y feithrinfa. Mae'n cael ei harolygu gan ESTYN, gyda chanlyniadau da iawn / Swyddi yn brin yn yr ardal - hwylus i rieni ddod â phlant i'r ysgol ac i Seren fach a chyrraedd eu gweithleoedd erbyn 9. Pam rhoi swyddi prin mewn ardal wledig mewn perygl? / Gyda Seren Fach yn cymryd plant meithrin a chyn-ysgol nid nepell o ysgol Brithdir, onid yw'n gwneud llawer o mwy o synnwyr i gadw Ysgol Brithdir ar agor? / Lleoliad Ysgol Brithdir a'r Feithrinfa yn golygu fod rhieni yn gallu mynd i'w gwaith ar ôl disgyn plant yn y ddau leoliad gyda chlwb ar ôl ysgol hyd at 7 oed tan 6 o'r gloch. Mae swyddi yn brin yn yr ardal, llai eto ar ôl cau ein hysgolion, Pam rhoi swyddi mewn perygl? | 10 | Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Seren Fach yn feithrinfa sydd wedi'i lleoli yn y Brithdir. O ran y penderfyniad wrth ddewis safle, mae nifer o resymau a gwybodaeth sydd rhaid eu hystyried.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod nifer o rinweddau o blaid safle Brithdir, yn wir, dyna pam y cynigiwyd y safle fel rhan o'r cynnig blaenorol yn 2011. Yn anffodus, roedd angen i'r Cyngor ystyried safleoedd eraill. |
| 2.12 | Welsoch chi'r gymuned yn protestio yn erbyn cau Ysgol Brithdir? Cymdogion yr ysgol, sy'n byw yn y 4 tŷ agosaf, yno ar y noson yn cefnogi cadw'r ysgol ar agor. | 1 | Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod unrhyw gynnig i newid unrhyw ddarpariaeth yn achosi pryder a bod cynnig i newid darpariaeth addysgol yn creu ansicrwydd. Dyna pam bod y broses statudol wedi'i dilyn, fel bod modd i bobl lleol gael rhoi eu sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwyenbu os dymunir. |
| 2.13 | Rydych yn dweud y buasai'r gymuned yn gallu gwneud defnydd o'r ysgol petai'n cau. Pwy fyddai'n cynnal yr adeilad? Mae gan y gymuned neuadd i'w chynnal yn | 2 | Mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion, sydd wedi'i fabwysiadu yn ôl yn 2010. Os oes dymuniad lleol, bydd y Cyngor yn gofyn i'w Swyddogion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | barod ac wedi dod at ei gilydd i wneud yn siŵr fod yr Hen Gapel heb sefyll yn wag drwy sefydlu Meithrinfa Seren Fach / Y gymuned oedd ddim eisiau gweld adeilad gwag yn y pentref - pan aeth aelodaeth y Capel mor isel, bu rhaid ei chau. Daeth y gymuned at ei gilydd a gydag arian grantiau, sefydlu'r Feithrinfa. Dim yn gweld sut gall adeilad yr ysgol gael ei ddefnyddio gan y gymuned gan fod gennym Neuadd bentref i'w chynnal yn barod. | | Adfywio gefnogi'r gymuned wrth ystyried unrhyw ôl-ddefnydd o dir ac adeiladau a ryddheir o ganlyniad i'r ad-drefnu. |
| 2.14 | Ardal Friog a Fairbourne, mae'n galonogol bydd adeilad ysgol o hyd i blant y pentrefi hyn ei fynychu. Yn naturiol, byddem yn hoffi pe bai'r sefyllfa bresennol yn aros fel ag y mae, ond derbyniwn nad yw hyn yn bosibl, a bod yn rhaid i ni felly gofleidio newid a sicrhau y cyfleoedd gorau i'r plant sydd yma. | 1 | Mae'r Cyngor yn croesawu'r sylw bod yn rhaid '*cofleidio newid a sicrhau cyfleoedd gorau i'r plant sydd yma*' ac yn cydnabod fod wynebu newid o unrhyw fath yn gallu achosi ansicrwydd. Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw 'mlaen â'r cynnig, gwneir pob ymdrech i geisio lliniaru'r newid a chyfathrebu gwybodaeth yn amserol i'r rhanddeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig. |
| 2.15 | Pwy fydd yn talu'r trethi unwaith y byddwch wedi difetha'r cymunedau a phawb wedi gadael? | 1 | Mae'r Cyngor yn deall pryderon trigolion sydd yn byw mewn pentrefi sydd yn wynebu newid. Fodd bynnag, swyddogaeth ysgolion ydy cynnal cymunedau ond yn hytrach darparu addysg o ansawdd uchel i'r disgyblion. |
| **3** | **Materion Staffio** | | |
| 3.1 | Penderfyniad yn gwneud pethau'n anos gan fod recriwtio yn gymaint o broblem. Fel ag y mae hi, mae'n anodd i'r ysgol gael athrawon . Siawns fod ei chadw fel ysgol ddwyieithog yn golygu y bydd yn haws cael staff. Byddai opsiwn i gyflogi athrawon sy'n fodlon dysgu Cymraeg. Rwy'n credu bod yna gyfleusterau i ddysgu Cymraeg yn benodol i athrawon yn yr ardal - angen i'r Cyngor ychwanegu at y dewis o athrawon sydd wedi'u cymhwyso'n addas, nid ei leihau. | 1 | Mae recriwtio penaethiaid ym Meirionnydd yn her ar hyn o bryd, a gall fod hyn oherwydd poblogaeth a'r elfen wledig, ond gall fod am nifer o resymau eraill. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod penodi pennaeth i'r ysgol arfaethedig am fod yn her ond yn cynllunio ar gyfer hynny. |
| 3.2 | Cynnig yn llwyr ddibynnu ar ganfod un 'pennaeth'. Faint fydd y cyflog? Bydd unrhyw godiadau cyflog i athrawon eraill er mwyn adlewyrchu cyfrifoldebau ychwanegol yn dileu unrhyw arbedion a ragwelwyd? Dogfen ymgynghorol yn anghyflawn ac yn anghywir / Yn cael hyd i arian i dalu cyflog pennaeth newydd am flwyddyn cyn agor yr ysgol oni allwch hefyd gael hyd i arian i wario'n ddoeth ar safle Brithdir? / Cost yr 'uned rheoli'? Yr un peth â'r 'tîm rheoli'? Oes gan y rheolwyr, heb unrhyw gostau wedi'u nodi, gymwysterau mewn addysg? Pam na all strwythur rheoli sengl oruchwylio cynnal a chadw, iechyd a diogelwch, gwerthuso a pherfformiad yn y ffomat cyfredol? Mae'r sgiliau hyn yn dod o dan Adnoddau Dynol/Iechyd a Diogelwch ac nid addysg. Fe fyddai hyn yn rhyddhau athrawon a phenaethiaid i gael mwy o amser i ddysgu ac arwain eu hysgolion. | 2 | Ar hyn o bryd mae nifer o benaethiaid cynradd yn dysgu am ran helaeth o'u hamser ac nid ydynt yn cael eu rhyddhau'n ddigonol i arwain, rheoli a chynllunio. Wrth greu strwythur arwain a rheoli newydd yn yr ysgol arfaethedig ni fydd yn ofynnol i'r pennaeth ddysgu am ran fwyaf ei amser. Bydd y strwythur yn caniatâu datblygu rheolwyr/arweinwyr safle a fydd yn magu sgiliau angenrheidiol i fod yn arweinwyr llwyddiannus, gyda'r sicrwydd o gefnogaeth ac unigolion profiadol i allu troi atynt.<br><br>Pe bai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud i fwrw ymlaen efo'r cynnig, bydd y gwaith o sefydlu'r corff llywodraethol cysgodol a phenodi'r pennaeth yn cychwyn. Bydd cyflog y swydd angen adlewyrchu nifer disgyblion yr ysgol a'r cyfrifoldebau mae'r swydd yn eu cynnwys.<br><br>Mae'n wir fod y Cabinet wedi ymrwymo i gyflogi'r pennaeth o leiaf blwyddyn o flaen sefydlu'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol. Mae arbedion y cynllun yn ariannu hyn ac ni fyddai'n ddigonol i allu ariannu'r gwaith sydd ei angen ar safle Brithdir. |
| 3.3 | Credaf yn gryf yn ysgolion y dalgylch - ysgolion da iawn a staff gweithgar ymroddedig. Ysgolion wedi datblygu dros y blynyddoedd i wynebu her a mabwysiadu ethos ei ardal benodol. Pob un ychydig yn wahanol, i gyd yn gweithredu cynlluniau tymor hir unigol, sydd yn ceisio goresgyn her y plant yn eu gofal / Pryderu y bydd arbenigedd a pherthnasoedd arbennig yn diflannu o | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dan blanced ysgol gydol oes/aml safle. Sut bydd 6 safle yn rhannu cynllun datblygu? Ar hyn o bryd mae'r dogfennau yma yn rhai cynhwysfawr, sydd yn berthnasol iawn i'r staff, plant a llywodraethwyr y safleoedd. Deallaf yn iawn fod swmp gwaith athrawon a phenaethiaid yn tyfu yn ormodol. Ai hyn yw'r ffordd orau o oresgyn hyn? Ydy 'one size fits all' y deilliant gorau i blant? | | O ran tîm rheoli, bydd cost a nifer staff yn y tîm rheoli yn dibynnu ar benderfyniad y corff llywodraethol cysgodol. Bydd dyraniad yr ysgol yn cael ei benderfynu yn seiliedig ar niferoedd disgyblion yn unol â'r fformiwla gyllidol. Bydd yn benderfyniad i'r corff llywodraethol a'r pennaeth i benderfynu pa gyfran o'r dyraniad sydd yn cael ei ddynodi i staff yr ysgol, yn y tîm rheoli ac yn ehangach, fel sydd yn digwydd yn yr ysgolion heddiw.<br><br>Wrth gyfeirio at swmp o waith papur sydd ar hyn o bryd yn cael ei ail adrodd mewn gwahanol ysgolion - mae lleihau'r dyblygu yma yn un o'r buddion effeithlonrwydd rhagwelir fel rhan o'r cynnig. Byddai'r Cyngor wedi croesawu unrhyw drefniant cydweithio anffurfiol rhwng yr ysgolion presennol o ran y gwaith papur rheoli, ond yw hyn yn digwydd yn wirfoddol ar draws y dalgylch.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol o broblemau o ran sicrhau penaethiaid ac arwain a rheoli llwyddiannus yn y dalgylch. Yn wir, roedd yn un o'r ystyriaethau wrth werthuso opsiynau gwahanol. Y bwriad yw bydd y cynnig yma'n rhoi'r cyfleoedd gorau posib i bennaeth yr ysgol newydd arwain yn effeithiol. |
| 3.4 | Nodi'n gyson fod penaethiaid yn treulio gormod o amser yn dysgu a ddim digon o amser yn 'arwain'. Dylid nodi mai un o'r rhesymau pam fod ysgolion bach, fel Ysgol Clogau, lle mae pennaeth dawnus, effeithlon a llawn cymhelliant wrth y llyw, canlyniadau'n dweud y cyfan - maent yn arwain trwy esiampl. Mae eu gwaith yn anferthol ac mae angen chwilio am ffyrdd o leihau'r gwaith gweinyddol ailadroddus sy'n digwydd ymhob ysgol, a rhannu adnoddau ar-lein. Er hynny, nid yw hynny'n golygu eu tynnu o'u swyddi a gosod 'rheolwyr' yn eu lle, gan arwain at arbedion bychain yn ariannol ond colledion anferthol mewn arweinyddiaeth. Rydym wedi gweld beth sy'n digwydd yn Ysgol y Gader pan fo 'Arweinydd' yn methu cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r ysgol i gyd yn syrthio. | 1 | |
| 3.5 | Nodwyd fod problemau canfod penaethiaid. Achos Ysgol Clogau, mae wedi denu cyfres o benaethiaid gwych dros blynyddoedd. Efallai mai maint yr ysgol neu'r ffaith ei bod yn gymaint rhan o'r gymuned sy'n ei gwneud yn ysgol hyfyw. Pennaeth presennol gyda llawer o flynyddoedd o wasanaeth eto cyn ymddeol er mwyn i rieni a disgyblion elwa o'i harweinyddiaeth a'i harbenigedd. Unwaith eto, a ninnau ag ateb llwyddiannus, pam ei fod yn cael ei wared? Mae'r risg o gael 'pennaeth gwych' yn lle'r holl benaethiaid yn strategaeth risg uchel iawn gydag oblygiadau pellgyrhaeddol ledled y dalgylch cyfan, yn ysgolion cynradd ac uwchradd. Dylid edrych yn ofalus ar lwyddiant y pennaeth presennol. | 1 | Cafodd y pennaeth cyfredol ei hapwyntio yn 2003. Dros y deuddeg mlynedd a fu ers hynny mae byd addysg ac amodau gwaith penaethiaid a staff dysgu fel ei gilydd wedi ei newid yn sylweddol gyda nifer helaeth ohonynt yn nodi'r angen i resymoli'r disgwyliadau er mwyn creu amodau 'bywyd-gwaith' cynaliadwy.<br><br>Dros y cyfnod hwn mae tystiolaeth gynyddol o leihad sylweddol yn nifer y ceisiadau am brifathrawiaeth ac mae'r posibilrwydd o recriwtio staff profiadol o safon gyda'r cymhwyster priodol yn achosi pryder traws-sirol.<br><br>Mae gofyn i bennaeth ddysgu, arwain a rheoli sefydliad gyda'r gofynion yn debyg ar draws ein holl ysgolion. Er mwyn gwneud hynny'n effeithiol mae gofyn i lywodraethwyr ymateb i'w dyletswydd gofal drostynt a sicrhau adnoddau priodol yn ymateb i'w hawliau cyflogaeth er mwyn eu cyflawni ar bob lefel. Er mwyn sicrhau fod pennaeth yn 'arwain' ysgol yn effeithiol mae'r angen am swydd 'digyswllt' yn cynyddu, nid er mwyn parhau gyda'r safonau presennol, ond i'w gwella tuag at y rhagoriaethau disgwyliedig. |
| 3.6 | Mae Prifathrawes Brithdir ac Ieuan Gwynedd newydd ymddiswyddo a chredaf na wnaeth straen y sefyllfa helpu yn y penderfyniad yma. | 1 | Nid oes modd rhoi sylw ar sefyllfaoedd staff unigol ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod trafodaethau ad-drefnu ysgolion yn gallu creu cyfnod o ansicrwydd. |
| 3.7 | Un o brif angenrheidiau'r Cyngor ar gyfer yr Ysgol newydd yw sicrhau pennaeth o'r calibr uchaf i arwain ysgol mor arloesol. Sut all y Cyngor ddisgwyl denu | 1 | Cytunir y bydd penodi unigolyn priodol i'r swydd Pennaeth ar gyfer yr ysgol ddilynol ddalgylchol yn allweddol. Bydd angen rhywun sy'n meddu ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | pennaeth o'r calibr gofynnol i ardal mor wledig? Llawer haws denu pennaeth da i ardal fwy trefol nag i un mor wledig, yn enwedig o gofio'r problemau gydag addysg uwchradd yn y dalgylch yn ddiweddar | | weledigaeth bendant, presenoldeb wrth ymwneud â rhieni a rhan-ddeiliaid allweddol eraill a'r gallu i ennill parch, cydweithio a hygrededd ymhlith staff a disgyblion pob safle'r ysgol. Fodd bynnag, credir yn ogystal y bydd penodi aelodau staff brwdfrydig, profiadol a phroffesiynol ar y 6 safle yn hynod o bwysig ac yn greiddiol i lwyddiant yr ysgol newydd.<br><br>O ran pwysau gwaith ar y Pennaeth, fe fydd angen sicrhau bod y strwythur staffio a ddatblygir yn hwyluso'r gwaith o ddydd i ddydd a'r baich gwaith wedi'i rannu rhwng yr uwch dîm rheoli er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn y modd mwyaf effeithiol er budd y disgyblion.<br><br>Ar sail gwersi a ddysgwyd mewn siroedd eraill a phrofiad y Cyngor, mae'r Cabinet wedi ymrwymo i gyllido'r pennaeth am o leiaf blwyddyn cyn i'r ysgol ddilynol ddalgylchol arfaethedig agor. Pe bai'r Cabinet yn penderfynu o blaid y cynnig, mae felly modd cychwyn y broses penodi yn dilyn y penderfyniad terfynol. Bydd hyn yn galluogi amser paratoi fel bod penodiadau a strwythur staffio yn gallu cael eu creu ynghyd â sicrhau amser digonol i greu polisïau a threfniadau cadarn cyn i'r ysgol agor.<br><br>Y corff llywodraethu cysgodol fydd yn gyfrifol am benodi'r pennaeth ar gyfer yr ysgol ddilynol ddalgylchol ond rhagwelir bydd y pennaeth o gefndir addysgol, unai'r sector uwchradd neu'r cynradd. Yn y dyfodol, ar ôl sefydlu'r ysgol, byddai'n bosib cael pennaeth heb gefndir addysgol gan ddylai strwythur y tim rheoli golygu bod arweinwyr cwricwlwm ac arweinwyr sectorau oedran bod yn gyfrifol am y dysgu ac mai materion rheolaethol byddai prif dyletswyd y pennaeth. Nid hyn yw'r bwriad wrth penodi pennaeth cyntaf yr ysgol. |
| 3.8 | '*Dylai'r model ysgol ddilynol ddarparu cyd-destun mwy effeithiol ar gyfer rheolwyr i reoli adnoddau a chynllunio addysg o fewn y sefydliad'*. A fydd gan y rheolwyr hyn gefndir mewn addysg? Sut fyddant yn cael eu recriwtio? Os nad ydynt yn gyn-athrawon, sut allant fod yn gyfrifol am gynllunio addysg? | 1 | |
| 3.9 | Mae ymdriniaeth yr Awdurdod Addysg Lleol / Cyngor Gwynedd o weithlu dalgylch Y Gader wedi bod yn israddol a sarhaus yn ystod y broses hon. Ers blynyddoedd bellach, mae llawer o'r staff wedi gorfod ysgwyddo baich ychwanegol i arwain mewn ysgolion a chymryd cyfrifoldebau yn ychwanegol i'r gwaith bob dydd o addysgu plant. Cyndyn iawn fu'r Awdurdod Addysg i gefnogi a phenderfynwyd symud yr holl swyddfeydd addysg o dde'r sir i Bwllheli a chefnu yn llwyr ar yr ardaloedd yn ne'r sir oedd yn wynebu'r newidiadau mwyaf. Pwy fydd i gefnogi a chynnal pethau pan fydd yr Ysgol Ddilynol hon yn methu ? Yr athrawon fydd yn gorfod wynebu'r her eto mae'n siwr a chlirio'r llanast | 1 | |
| 3.10 | Nid yw aelodau staff wedi cael gwybodaeth o ran eu dyfodol. Nid yw'r 'cyfathrebu clir ac agored' wedi bod yn amlwg. Heblaw am gael gwybod eu bod yn cael ceisio am swyddi ar ôl colli eu swyddi, nid ydynt wedi cael unrhyw wybodaeth nag opsiynau ar gyfer eu gyrfaoedd. | 1 | Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfnod yma yn un o ansicrwydd a all arwain at straen. Pe bai'r penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig yn cael ei wneud, bydd ymgynghorwyr Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i roi cymorth trwy gydol y broses. Bydd cyfathrebu clir ac agored gyda staff yn rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynnig.<br><br>Mae'r Cyngor wedi bod yn glir o gychwyn y broses bod y cynnig yn cynnwys cau pob ysgol. Byddai penderfynu ar nifer a mathau y swyddi yn yr ysgol newydd yn fater i'r corff llywodraethol cysgodol a'r pennaeth. Hyd nes y penodir y Pennaeth newydd a sefydlu'r corff llywodraethol cysgodol, ni ellir creu strwythur staffio newydd. |
| 3.11 | Does dim clem gan staff yr ysgolion a fyddan nhw'n cael cynnig swydd yn yr ysgol newydd heb sôn am ar ba safle byddant yn gweithio. A fydd y sir yn meddwl am gysondeb i'n plant wrth benodi staff a phenderfynu ar ba safle y byddant yn gweithio? Bydd hyd i gyd yn nwylo'r llywodraethwyr hefyd? | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.12 | Adran 5:11 tud 60 - posiblrwydd (a realiti) diweithdra a'r straen sydd ynghlwm ag adleoli yn bris uchel i'w dalu mewn ardal wledig lle mae swyddi yn brin iawn. Rydym yn nodi nad yw'r Ddogfen Ymgynghori Statudol yn rhoi unrhyw awgrym o'r diswyddiadau/adleoli posibl. Cyngor Tref Abermaw yn gwrthwynebu unrhyw symuniadau i ddiswyddo gweithwyr / Swyddi yn cael eu colli | 2 | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod trafodaethau trefniadaeth ysgolion yn creu ansicrwydd yn y dalgylch a bod y cyfnod i ddod am fod yn ansicr a gall arwain at ddiswyddiadau. Gan nad yw'r penderfyniad terfynol wedi'i wneud, nid yw'n bosib rhoi gwybodaeth fanwl am sefyllfaoedd unigol.<br><br>O ran nifer y swyddi fydd yn cael eu colli, mae hefyd yn gynamserol nodi hyn oherwydd bod strwythur staffio'r ysgol newydd yn fater trafod i'r corff llywodraethol cysgodol. Pe bai'r penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig yn cael ei wneud, bydd ymgynghorwyr Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i roi cymorth gydol y broses. Mae nifer o gyfarfodydd a chymorth wedi cael eu rhoi i staff ysgolion yn gysylltiedig â datblygiad Ysgol Ardal Groeslon, Carmel a Bronyfoel yn y 6 mis diwethaf, a bydd y cymorth yma ar gael i staff ysgolion dalgylch Y Gader. Mae angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r angen am gefnogaeth Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol y Cyngor gan ystyried bydd staff 10 ysgol angen cymorth pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Yn anffodus nid yw'n bosib gwybod manylion sefyllfa unigolion staff nes bydd y penderfyniad wedi'i wneud. Roedd Ymgynghorwyr adran Adnoddau Dynol ar gael yn ystod diwrnodau agored y cyfnod ymgynghori statudol i egluro'r broses ac i egluro pa gymorth sydd ar gael ar hyd y daith. |
| 3.13 | Sefyllfa bresennol wedi gosod straen eithriadol am ddeng mlynedd ar staff, rhieni a llywodraethwyr. Nid yw addysg y plant wedi dioddef ac mae hyn oherwydd bod y staff wedi aros yn y Brithdir drwy bob dim. Eu gwobr – colli eu swyddi heb unrhyw sicrhad i'r dyfodol yn y trefniant newydd. Ble mae'r tegwch yn hyn ? / Mae yna lawer o resymau pam bod Ysgol Brithdir yn llwyddo i'r eithaf. Yn bennaf yw cysondeb staff dysgu arbennig. Sylfeini pob disgybl yn gadarn gryf, ac maent yn tyfu trwy'r ysgol ar daith dysgu fwriadus. | 2 | |
| 3.14 | Ar ôl profiad ad-drefnu addysgol, rwy'n gwybod ei fod yn effeithio yn negyddol iawn ar forâl staff dysgu, y rheolwyr a'r disgyblion. | 1 | |
| 3.15 | Sut fydd modd arwain 6 safle yn effeithiol? Mae'r pellter rhwng y safleoedd yn yr Ysgol Ddilynol yn enfawr e.e. mae 16 milltir rhwng safle'r Friog a safle Rhydymain. | 1 | Derbyn bod 14 milltir rhwng safleoedd Friog a Rhydymain, ond nid yw'r model o reidrwydd yn golygu bod angen i staff deithio i bob safle bob diwrnod. Bydd unrhyw deithio a wneir gan staff angen ei gynllunio'n ofalus a bydd strwythur staffio'n greiddiol i sicrhau bod y safleoedd i gyd yn cael eu harwain yn effeithiol. Nid oes angen presenoldeb y pennaeth ar bob safle bob diwrnod, os bydd staff effeithol yn cael eu penodi ar y safleoedd gwahanol bydd modd i'r pennaeth reoli rhai o'r safleoedd o bell. |
| 3.16 | O ran adnoddau, fel a nodwyd yn yr adran Arbedion a chyllidebau, mae'r Cyngor yn gyfrifol am reoli 80-90% o'r cyllidebau trwy'r cytundebau gwasanaeth felly beth sydd yna yn weddill i'r 'rheolwyr' hyn ei reoli? Faint o reolwyr fydd yna a faint fyddant yn ei gostio? Ymddengys nad oes ffigurau na gwybodaeth am hyn / Ar hyn o bryd mae 80-90% o gyllideb yr ysgolion dan reolaeth Gwynedd trwy gyfrwng eu 'Cytundebau Gwasanaeth'. Mewn arolwg diweddar gan y Cyngor, roedd Ysgol Clogau yn cael ei rhedeg yn hynod effeithiol ac nid oedd mewn sefyllfa i wneud arbedion pellach. Enghraifft o gost ychwanegol diweddar y mae Gwynedd yn ei ychwanegu i bob ysgol o Ebrill 2015 ydy £1,200 y flwyddyn am 'fandeang'. Ni all yr ysgol fforddio talu am hyn ac yn wir, mae ynddi fynediad | 1 | Mae'r cytundebau gwasanaeth yn cyfateb i oddeutu 17% o gyllideb yr ysgol. O ran tim rheoli, bydd cost a nifer staff yn y tim rheoli yn dibynnu ar benderfyniad y corff llywodraethol cysgodol. Bydd dyraniad yr ysgol yn cael ei rhoi yn seiliedig ar niferoedd disgyblion yn unol â'r fformiwla gyllidol. Bydd yn benderfyniad i'r corff llywodraethol a'r pennaeth i benderfynu pa gyfran o'r dyraniad sydd yn cael ei ddynodi i staff yr ysgol, yn y tim rheoli ac yn ehangach, fel sydd yn digwydd yn yr ysgolion heddiw.<br><br>Mae'r datblygiad band eang ychwanegol yn ddisgwyliedig gan Lywodraeth Cymru i bob Awdurdod a'r dechnoleg yn hanfodol ar gyfer galluogi ysgolion i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | digonol i'r we ac felly mae'n ystyried y gwariant hwn yn ddiangen ac felly fe fydd yn gofyn am beidio â chael bandeang. | | weithredu yn y tymor canol a rhyddhau arbedion maes o law. |
| **4** | **Yr Iaith Gymraeg** | | |
| 4.1 | Ysgrifennu er mwyn cyflwyno gwrthwynebiad swyddogol i'r penderfyniad i gau Ysgol y Gader a'i hailagor fel ysgol cyfrwng Cymraeg. Ein plant yn mynychu'r ysgol - un wedi dewis dilyn pynciau TGAU yn Saesneg tra bod llall yn gwneud pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Perffaith hapus gyda hyn a dyma eu hawl a'u dewis. Dolgellau yn ardal naturiol ddwyieithog, ac mae rhai trefi a phentrefi eraill yn y dalgylch yn llawer mwy Seisnig. Byddai gwneud yr ysgol yn cyfrwng Cymraeg yn codi gwrychyn disgyblion o'r ardaloedd hynny, gan eu hannog i symud i ysgolion eraill sy'n fwy ystyriol o ddewis disgyblion. Hyn yn cael effaith ar gyllideb yr ysgol ac yn arwain at lai o ddewis o ran rheoli wrth geisio denu athrawon a darparu adnoddau a fydd yn cael effaith ar y plant ac ar ansawdd yr addysg y byddant yn ei derbyn. Tydi hynny ddim yn dderbyniol / Bron yn sicr byddwn yn symud fy mhlant i ysgol arall os byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei weithredu yn erbyn fy ewyllys. Nad fi yw'r unig riant sy'n teimlo fod hwn yn benderfyniad anghywir. Atal rhieni a disgyblion rhag cael dewis sylfaenol yn anghywir / Gwrthwynebu gan na chefais wybod y byddai hyn yn digwydd pan wnes i gofrestru fy mhlentyn ar gyfer Ysgol y Gader. Ni chefais wybod fod yna fwriad i gau'r ysgol a'i hail-agor fel ysgol cyfrwng Cymraeg yn ei flwyddyn TGAU. Pe byddwn wedi cael gwybod hynny, YN BENDANT ni fyddai wedi mynd i'r ysgol. Teimlo mod i wedi cael fy nghamarwain yn ddifrifol iawn / Mewn gwlad lle mae yna ddwy iaith gyntaf, pam dylai'r ysgol newydd newid ei statws o ysgol ddwyieithog i ysgol cyfrwng Cymraeg? Onid yw hyn yn gwrthddweud yr hyn a fynegir yn Adran 5:1, tudalen 32, fod *"y Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r safon uchaf posibl....er mwyn datblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus ac amryddawn."*/ Pe byddai Dolgellau yn dref fwy yna efallai y byddai'n fuddiol cael ysgol cyfrwng Cymraeg ac ysgol ddwyieithog. Ond nid felly mae hi a'r unig benderfyniad call fyddai cadw'r ysgol yn ddwyieithog. Cynnig dewis yn y mater hwn ydi'r ffordd synhwyrol ymlaen. Mae fy mhlant yn siaradwyr rhugl yn y ddwy iaith a dyna'r hyn roedd fy ngŵr a minnau ei eisiau, ac rwy'n gobeithio y byddant yn cofio am eu gwreiddiau a'u hiaith Gymraeg trwy gydol eu bywyd. Ond yr hyn sydd bwysicaf gen i roi i fy mhlant ydy'r addysg orau posibl gan yr athrawon gorau posibl. Rwyf am iddynt allu cystadlu yn y farchnad fyd-eang ac yn aelodau dysgedig, cyflawn o gymdeithas. Dyna ddylai fod yn unig nod gan y Cyngor. Mae'r iaith a ddefnyddir yn eu gwersi yn eilbeth. Safon yr | 4 | Gall rhieni a disgyblion ddewis ysgol am nifer o resymau gwahanol, a gall y rheswm yma newid dros gyfnod o amser.<br><br>Mae statws ieithyddol yn derm technegol, sydd angen ei glustnodi wrth greu ysgol newydd yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a dogfen arweiniol y Llywodraeth, *"Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg"* (023/2007).<br><br>Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd (Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2014-17) yn berthnasol i holl ysgolion y Sir ac yn golygu bod yr un disgwyliadau ieithyddol ar bob ysgol. Amcan y Polisi yw - *"Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol...er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y cyfnodau allweddol eraill disgwylir i ysgolion gynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg... disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd..."*, felly mater technegol yw statws ieithyddol yng Ngwynedd.<br><br>Comisiynwyd asesiad ieithyddol annibynnol i asesu'r modelau ystyriwyd yn nalgylch Y Gader. Roedd yr asesiad yma yn nodi'r anghysondeb o fewn y dalgylch o ran yr iaith Gymraeg, ond hefyd yn gweld cyfle wrth symud ymlaen gyda'r model a ffefrir trwy greu ysgol 3-16 cyfrwng Cymraeg:<br>*"Model 8: Ysgol Ddilynol Dalgylchol ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Friog, a Dinas Mawddwy a chau Ganllwyd, Clogau, Machreth a Brithdir. Un pennaeth, un corff llywodraethol. Dyfarniad o effaith cadarnhaol sy'n cynnig cyfle i sicrhau cysondeb ar draws y dalgylch cyfan. Tra nad oes modd gosod pob model mewn trefn sgorio effaith ar iaith, casglwn fod y model hwn yn cynnig manteision arbennig o ran cynllunio a darparu addysg statudol fydd yn gyson ac yn deillio o un weledigaeth gyflawn yn hytrach na chyfeiriad amrywiol nifer o sefydliadau fydd, yn anorfod, a safbwynt amrywiol o* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tud. 42 | addysg a'r cymwysterau sy'n bwysig. Mewn pynciau fel Mathemateg a'r Gwyddorau, mae'r gallu i astudio ac ennill cymhwyster yn Gymraeg yn ddibwys i gyflogwyr a phrifysgolion. Gradd dda sy'n cyfrif fwyaf. Mae graddau da angen athrawon da. Mae mor syml â hynny / O'r 39% o fyfyrwyr sy'n mynychu Ysgol y Gader o tu allan i'r dalgylch, mae 80 yn dod o'r Bermo – oddeutu 20% o boblogaeth yr ysgol. Mae'r ffaith bod Ysgol Gader yn ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog yn gwneud yr ysgol yn fwy atyniadol a derbyniol i deuluoedd Bermo. Cynnig a amlinellir yn Adran 5 ar dudalen 30 yn golygu sefydlu ysgol ddalgylchol gymunedol dilynol 3-16 oed Cyfrwng Cymraeg ar chwe safle - Cyngor Tref Abermaw yn erbyn y newid arfaethedig o ysgol ddwyieithog i ysgol cyfrwng Cymraeg / Nid yw ysgol Gymraeg yn unig yn mynd i fod yn dderbyniol i bobl sy'n ystyried symud i mewn i'r ardal yn ystod cyfnod addysg eu plant. Fe fyddant yn eu cofrestru mewn ysgolion dwyieithog er mwyn achosi cyn lleied o darfu â phosibl ar eu haddysg. Mae'r dref yn ymdrechu'n galed i gael pobl fel meddygon i weithio yma - penderfyniad yma yn atal teuluoedd sydd ddim yn siarad Cymraeg rhag symud yma o rannau eraill o Gymru neu o ardaloedd tu hwnt i hynny. Ai dyma beth ydy bwriad y Cyngor? / Rhaid rhoi'r un cyfle i'n plant ni â phob plentyn arall nid dim ond yng Ngwynedd ond hefyd yng Nghymru, gweddill y DU a'r byd. Gadewch iddyn nhw wneud eu gwaith gorau ym mha bynnag iaith. Dyna'r cyfan sydd yn bwysig. A wnewch chi ailystyried y penderfyniad iaith? / Fe awgrymwyd gan gynghorydd lleol mai'r polisi bellach yw fod ysgolion yng Ngwynedd yn gorfod bod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac nad oes dewis ond cael ysgol uwchradd ddwyieithog. A yw hyn yn wir? Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion yn nodi:<br>"*Dylai cynigion sicrhau bod cydbwysedd y ddarpariaeth ysgolion yn adlewyrchu cydbwysedd y galw. Mae hyn yn golygu, os bydd darpariaeth ysgol yn cael ei lleihau neu ei dileu, y dylid sicrhau bod darpariaeth ysgol amgen o'r un natur (categori iaith neu, os yn berthnasol, cymeriad crefyddol) ar gael i ddisgyblion yn yr ardal leol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl".*<br>Lle fydd y darpariaeth ddwyieithog ar lefel ysgol uwchradd yn bodoli yn y dalgylch? Pa bryd yn ystod y Broses Ymgynghori cafwyd gwir drafodaeth ar y mater o newid iaith yn yr Ysgol Uwchradd? Ni drafodwyd ac ni chyflwynwyd darpariaethau iaithpan gyflwynwyd yr 8 model. Ni chynigiwyd model dwyieithog neu model cyfrwng Cymraeg. | | *ran dyhead i gyflawni polisi iaith addysg y sir a chreu dinasyddion ifanc hyfedr ddwyieithog. Mewn dalgylch lle mae'r Gymraeg yn wynebu sawl her sylfaenol, efallai'n wir mae cynllunio'r ddarpariaeth ar sail un weledigaeth sefydliadol yw'r ffordd orau i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio a dysgu mwy fyddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch."*<br><br>O ran ymwybyddiaeth y cynnig a newid statws Ysgol Y Gader, mae trafodaethau ad-drefnu'r dalgylch wedi eu cynnal ers cryn amser. Mae cyfarfodydd PAD ac e-byst wedi eu rhyddhau yn ystod y broses, wrth i ymchwil cychwynnol gael ei gwblhau, wrth ddatblygu a gwerthuso modelau ac yn ystod y prosesau statudol. Roedd statws a dyddiad gweithredu'r cynnig yn rhan o'r ddogfen ymgynghori statudol a'r rhybuddion statudol. Pe bai'r Cabinet yn parhau a'r cynnig bydd cyfnod trosiannol rhwng y penderfyniad terfynol a gweithredu'r cynnig ym Medi 2017. Bydd bob ymdrech i leihau unrhyw effaith negyddol ar ddisgyblion yr ysgolion yn ystod y cyfnod trosiannol yma, gan gynnwys disgyblion sydd yn eistedd arholiadau pwysig fel eu TGAU.<br><br>Gan ystyried bod yr ysgolion cynradd i gyd yn ysgolion Cymraeg byddai rhoi statws dwyieithog ar y sector cynradd yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn unol â rhagamcanion ym Medi 2017 mae mwy o ddisgyblion cynradd nac uwchradd. Yn ymarferol ni fydd newid dydd i ddydd yn yr iaith gaiff ei darparu i'r disgyblion uwchradd gan y bydd angen darparu addysg trwy gyfrwng sydd yn ymateb i drawstoriad demograffig y dalgylch.<br><br>Un o heriau sefydlu'r ysgol ddilynol ddalgylchol fyddai sefydlu strwythur ieithyddol cywir, ar draws y sectorau oedran. Bydd ymateb i'r her a gweithrediad Polisi Iaith yr ysgol yng ngofal y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, gyda chymorth gan yr Awdurdod. Bydd angen gweithredu Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn briodol ac mewn modd sydd yn ymateb i'r her yn yr asesiad ieithyddol. |
| 4.2 | Dylai dysgu Cymraeg fel ail iaith fod yn bleser, ni ddylid gorfodi yn sgil penderfyniadau anghywir ac annoeth. Disgyblion yn ymateb i anogaeth ac nid gorfodaeth. | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Fy mhlant yn fy rhyfeddu - symud yma roeddwn yn bryderus am eu gallu i ddysgu siarad Cymraeg. Ar ôl blwyddyn yn ysgol Clogau, maent yn rhugl. Rwyf mor falch o hynny. Nid wyf o'r farn bod dosbarthiadau mwy yn mynd i wella gallu fy mhlant i ddysgu Cymraeg - y gwrthwyneb sy'n wir yn fy marn i / Teuluoedd sydd newydd symud i mewn i'r ardal yn dweud bod eu plant bellach yn rhugl yn y Gymraeg diolch i'r gefnogaeth maent yn cael yn Ysgol Clogau / Canfu Estyn fod Ysgol Clogau yn arbennig wrth hyrwyddo dwyeithirwydd a bod 90% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg i safon mamiaith er mai dim ond 5% o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle mai Gymraeg yw'r brif iaith - enghraifft o ragoriaeth dysgu ac arweinyddiaeth Ysgol Clogau / Ffaith bod plant yn rhugl yn y Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth anferthol i'w haddysg. Plant di-Gymraeg adref yn ymgolli yn yr iaith, ac mae hi'n dod yn iaith fyw iddynt. | 5 | Mae'r Cyngor yn falch bod Ysgol Clogau yn cael ei chanmol yn gysylltiedig â safon addysgu'r iaith Gymraeg. Nod y Cyngor yw "*bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg".* Yn ôl Polisi Iaith y Cyngor "*nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd,"* ond *" fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer datblygiad pellach."*<br><br>Gobeithir byddai'r Ysgol Ddilynol Dalgylchol yn adeiladu ar safon presennol yr Iaith Gymraeg ac yn cysoni'r addysgu ieithyddol dros y dalgylch. Yn wir, yn ôl yr asesiad iaith annibynnol a gwblhawyd, byddai'r cynnig hwn *"yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith ac yn gyfle i sicrhau cysondeb ar draws y dalgylch cyfan."* |
| 4.4 | Fy mhlant dyfu i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn ysgol Brithdir, er nad y Gymraeg oedd iaith y cartref ac maent oll wedi mynd yn eu blaen i ddilyn gyrfaoedd llwyddiannus yn eu meysydd arbenigol / Ysgol Brithdir yn ysgol lwyddiannus gyda chyfraniad cryf i'w wneud i'n cymuned. Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu yn yr ysgol hon ac mae hyder y plant yn amlwg iawn. / Ysgol dda iawn (Y Brithdir) a'r Gymraeg yn cael y sylw dyladwy. / Cawsom addysg wledig yn y Brithdir o safon a'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth gan nad oedd neb yn cael siarad yr iaith Saesneg ar yr iard ysgol na thu mewn y dosbarth heblaw am yn y gwersi Saesneg. Roedd y plant a oedd yn ddim yn gallu siarad yr iaith yn gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 6 yn siarad yr iaith yn rhugl. | 4 | Mae'r Cyngor yn falch bod Ysgol Brithdir yn cael ei ganmol yn gysylltiedig â safon addysgu'r iaith Gymraeg. Y bwriad yw sicrhau bod gweithdrefnau fel hyn yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y dalgylch ym mhob safle.<br><br>Gwelir bod nifer o wrthwynebiadau yn sôn am bwysigrwydd addysg wledig. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau gydag addysg wledig yn y dalgylch, wrth barhau a safleoedd Dinas Mawddwy, Llanelltyd, Rhydymain a Friog.<br><br>O ran y penderfyniad yn gysylltiedig â dewis safle gwledig, mae nifer o resymau a gwybodaeth sydd rhaid eu hystyried. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.5 | Yn ôl y Cyngor 'mae gwarchod a chynnal yr iaith Gymraeg yn elfen hanfodol o'u gwaith'. Ysgolion gwledig y dalgylch sydd yn cynnal yr iaith Gymraeg. 93% o ddisgyblion Brithdir yn rhugl yn y Gymraeg - rhaid sicrhau bod safle dwyreiniol yn parhau fel hyn. / Pryderus petai'r safle yn Rhydymain yn methu yna gall llywodraethwyr benderfynu cau'r safle a gyrru pawb i'r dref. Beth fydd canran rhuglder y Gymraeg wedyn? Canran y rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg yn sylweddol is yn y dref. Nid yw'r Gymraeg yn iaith fyw ar iard ysgolion mwy ble mae'r Saesneg mor gryf. Wrth edrych i'r dyfodol a methiant safle Rhydymain ni all y Cyngor ddweud eu bod yn hyrwyddo na chryfhau'r iaith. Ysgol Brithdir yn hyrwyddo a chryfhau'r iaith. Pam cau safle hygyrch a hyfyw sydd yn 'hyrwyddo a chryfhau'r iaith' a symud i safle yn ôl datganiad y Cyngor nad yw'n gynaliadwy ? / Credu fod Ysgol Brithdir yn llawer mwy cynaliadwy o ran niferoedd disgyblion ac mae'n rhoi dewis o ysgol mwy Cymraeg yn agos i Ddolgellau a'r feithrinfa leol / Cyngor gyda'r mwyafrif yn Gynghorwyr Plaid Cymru, beth ar y ddaear ydych yn meddwl sydd i'w ennill o gau ysgolion gwledig ffyniannus lle mae'r cydbwysedd rhwng Cymry Cymraeg a Di-Gymraeg yn arwain at fwy o siaradwyr Cymraeg, nid llai, fel y bydd yn digwydd pan (ac nid os) bydd llawer o blant Brithdir a Llanfachreth yn mynd i'r Ysgol Gynradd yn nhref Dolgellau ac nid i Rydymain. Lle mae eich gweledigaeth? Dywediad yn Gymraeg *"torri eich coes i achub eich esgid"* - dyna'r ydych yn ei wneud gyda'r cynnig hwn. / Ysgol wledig yw cadarnle'r Gymraeg. / Gwrthwynebu datblygu safle Rhydymain gan y gwelwn y bydd yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Addysg wledig yn cynnal ac yn cryfhau Cymreictod yr ardal. Sut allwch leoli ysgol ar gyrion dalgylch ac yna ddisgwyl i rieni gefnogi hynny? Llwyddiant y safle yn dibynnu ar niferoedd Ysgol Brithdir, beth os nad yw rhieni yn fodlon i'w plant deithio mor bell byddent yn gorfod mynd a'u plant i'r safle yn y dref. Llywodraethwyr sydd yn penderfynu ar fynediad i ysgolion ac mae plant Brithdir yn ddaearyddol yn nes at y dref nag at safle Rhydymain. Nid yw'r Gymraeg mor gryf yn y dref 34% yn rhugl o'i gymharu â 93% yn y Brithdir. Dyma ystadegyn clir arall sy'n dangos bod rhaid i'r safle gwledig fod yn hygyrch a hyfyw er mwyn cynnal Cymreictod yr ardal. Ffolineb yw credu y bydd y plant hyn yn troi'r dref yn fyw Cymreig. Dro ar ôl tro gwelwn y Gymraeg yn cael ei glastwreiddio a'i cholli ac yn peidio â bod yn iaith fyw ar iard ysgolion mwy / Ysgolion gwledig y dalgylch hwn sy'n cynnal y Gymraeg. Mae 93% o blant ysgol Brithdir yn rhugl yn y Gymraeg / Cau Ysgol Brithdir heb rhesymau dilys yw un o'r camgymeriadau mwyaf wneith y Cyngor o ran parhau addysg gwledig yn nalgylch y Gader a chadw'r iaith Gymraeg yn gryf/ Mae arweinyddiaeth Cyngor Gwynedd wedi dweud bod angen "ceisio canfod ateb | 10 | Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod nifer o rinweddau o blaid safle Brithdir, yn wir, dyna pam cynigwyd y safle fel rhan o'r cynnig blaenorol yn 2011. Yn anffodus, roedd angen i'r Cyngor ystyried safleoedd eraill.<br><br>Byddai datblygu ysgol ar safle Rhydymain yn parhau i ddarparu addysg wledig. Y bwriad yw dod a mwy o blant at ei gilydd mewn un safle yn atgyfnerthu'r Polisi Iaith. Mae llwyddiant a safon unrhyw ysgol yn ddibynnol ar ansawdd staff ac arweinyddiaeth gadarn, cefnogaeth gan rieni a gweithrediad effeithiol gan y llywodraethwyr.<br><br>O ran y cynnig, rhaid cofio bod holl ysgolion y dalgylch yn cau a bydd safle Rhydymain yn agor fel un o'r safleoedd, ni fydd Ysgol Ieuan Gwynedd yn parhau yn ei ffurf bresennol. Nid oes tystiolaeth yn awgrymu y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Yn wir yn ôl yr asesiad iaith annibynnol a gwblhawyd, byddai'r cynnig hwn *"yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith ac yn gyfle i sicrhau cysondeb ar draws y dalgylch cyfan."*<br><br>Mae gwarchod a chynnal yr Iaith Gymraeg yn elfen hanfodol o waith y Cyngor er mwyn sicrhau fod Gwynedd yn parhau yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Mae heriau parhaol ar yr Iaith ond mae Polisi Iaith Addysg y Cyngor yn nodi "*yn ogystal â datblygu hyfedredd disgyblion yn y ddwy iaith, disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd...disgwylir i ysgolion gynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg".*<br><br>Bwriedir i'r Ysgol Ddilynol Dalgylchol adeiladu ar safon presennol yr iaith Gymraeg ac yn cysoni'r addysgu ieithyddol dros y dalgylch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sydd yn hyfyw [ac]...sydd yn gwneud synnwyr o fewn cymunedau daearyddol priodol.” Nid yw cau Ysgol Brithdir a symud i Ysgol Rhydymain yn gynnig hyfyw nac yn gwneud synnwyr daearyddol. Ac os bydd yr ysgol yn Rhydymain yn methu, lle bydd y plant o’r wlad yn mynd wedyn? Ni fydd opsiwn gwledig ar ôl, bydd yn rhaid mynd i’r ysgol gynradd yn y dref, ac er pob tegwch i’r plant a’r athrawon yno, ysgol Seisnigaidd ydyw hon mewn cymhariaeth ag ysgolion gwledig y dalgylch. Sut y mae hyn yn hyrwyddo a chryfhau’r iaith Gymraeg yn y tymor hir?/ Iaith y iard – yn ddaearyddol fydd rhai safleoedd yn fwy Cymreig na safleoedd eraill?/ Rydych chi yn rhifyn diweddaraf o Newyddion Gwynedd yn pwysleisio pwysigrwydd hybu y Gymraeg, ac annog plant ddi Gymraeg i ddysgu. Lle gwell sydd i wneud hyn na mewn ysgol lle mae’r Gymraeg yn cael ei ddefnyddio ar y buarth./Plentyn wedi mynychu Ysgol Brithdir a ninnau’n dod o wlad wahanol, roedd hi’n anodd iawn iddi fynychu ysgol a hithau’n siarad iaith arall. Hapus iawn i weld pa mor groesawgar oedd y disgyblion a’r athrawon - fe wnaethon nhw ei helpu i addasu i’w hysgol a’i hiaith newydd. Dysgodd Gymraeg a Saesneg yn gyflym iawn. Athrawon wedi sicrhau croeso plentyn wrth ei fodd yn yr ysgol. | | |
| 4.6 | Colli’r iaith wnawn nhw gan fod ysgol y Gader yn ysgol Seisnigaidd iawn a dim yn rhoi unrhyw fath o bwyslais ar bwysigrwydd siarad Cymraeg. Felly mae gwaith athrawon Brithdir yn ddiwerth. Mi fûm yn ddisgybl yn ysgol y Gader a phan gyrhaeddais yno yn 11 oed, roedd yr ysgol mor Seisnigaidd fel imi deimlo fel pe bawn mewn ysgol yn Lloegr. Ond, mi fûm yn ddigon ffodus o gael criw bach o ffrindiau a oedd yn barod i siarad yr iaith yn yr ysgol / Felly pam anfon plant i ysgol dalgylch i ddirywio’r iaith ac i gael eu Seisnigeiddio?/ Mae clywed disgyblion Ysgol y Gader ar stryd Dolgellau yn gwneud i mi feddwl fy mod yn Lloegr / Mi es i ysgol y Berwyn yn y Bala i wneud fy lefel A ac roedd clywed y gwahaniaeth yn y defnydd o’r Gymraeg yn anghredadwy ac o fewn blwyddyn roedd fy Nghymraeg wedi gwella. | 2 | Mae’r Cyngor yn cynnig creu Ysgol Ddilynol Dalgylchol â statws ieithyddol cyfrwng Cymraeg. Pe byddai’r Cabinet yn penderfynu parhau â’r cynnig, un o heriau sefydlu’r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol fyddai sefydlu strwythur ieithyddol cywir, ar draws y sectorau oedran. Bydd ymateb i’r her a gweithrediad Polisi Iaith yr ysgol yng ngofal y Pennaeth a’r Corff Llywodraethu, gyda chymorth gan yr Awdurdod. Bydd angen gweithredu Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn briodol ac mewn modd sydd yn ymateb i’r her yn yr asesiad ieithyddol. |
| 4.7 | Paragraff yn cychwyn “Mae niferoedd disgyblion yn Ysgol y Gader wedi cynyddu....”<br>Mae’r sylw “Gallai’r cynnydd fod yn sgil amryw o resymau...” yn gwbl ffuantus. Er mwyn i’r ymgynghoriad hwn a’r newid arfaethedig fod yn deg i rai y tu allan i’r dalgylch, mae’n rhaid gwybod YN AWR pam fod 39% o boblogaeth yr ysgol yn dod o’r tu allan i’r dalgylch a bod y rhesymau hyn yn cael eu hystyried – yn enwedig pan fo hynny’n ymwneud â natur dwyieithog cyfredol yr ysgol (ffactor arwyddocaol yn y nifer uchel o bobl ifanc o Abermaw sy’n mynychu’r ysgol). | 1 | Gall rhieni ddewis ysgol i’w plant am nifer o resymau gwahanol, (e.e. amgylchiadau teuluol, lleoliad gwaith, trefniadau gwarchod, daearyddiaeth – pellter o’r cartref, ystyriaethau iechyd, materion lles, dewis y plentyn ac ati) a gall y rheswm yma newid dros amser.<br><br>Yn gyfreithiol mae pob ysgol drwy Wynedd yn gorfod cael dynodiad statws ieithyddol ac mae pob ysgol yn gorfod gweithredu Polisi Iaith y Cyngor a “*nod cyffredinol y polisi yw dwyieithrwydd, ac fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn* |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y cyfnodau allweddol eraill disgwylir i ysgolion gynllunio’n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg... disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu’r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a’u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd...”,<br><br>Wrth edrych ar y cynnig yn ei gyfanrwydd, a gan ystyried bod yr ysgolion cynradd i gyd yn ysgolion Cymraeg, byddai rhoi statws dwyieithog ar y sector cynradd yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn unol â rhagamcanion ym Medi 2017 mae mwy o ddisgyblion cynradd nac uwchradd. Yn ymarferol ni fydd newid dydd i ddydd yn iaith yr addysg gaiff ei darparu i’r disgyblion uwchradd gan y bydd angen darparu addysg drwy’r cyfrwng sy’n ymateb i’r gofyn.<br><br>Un o heriau sefydlu’r ysgol ddilynol ddalgylchol fyddai sefydlu strwythur ieithyddol cywir, ar draws y sectorau oedran. Bydd ymateb i’r her a gweithrediad Polisi Iaith yr ysgol yng ngofal y Pennaeth a’r Corff Llywodraethu, gyda chymorth gan y Sir. Bydd angen gweithredu Polisi Iaith y Sir yn briodol ac mewn modd sydd yn ymateb i’r her sy’n cael ei amlygu yn yr asesiad ieithyddol.</td></tr>
<tr><td>4.8</td><td>Nid yw’r ffigurau yn y tabl ar dudalen 57 y Ddogfen Ymgynghorol yn gwneud synnwyr. Nid yw’r cyfansymiau yn gywir ac mae’r ffigurau ar gyfer Ysgol Clogau yn anghywir.<br><br>
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Siarad Cymraeg yn rhugl adref</th><th>Ddim yn siarad Cymraeg adref ond yn rhugl</th><th>Siarad Cymraeg adref ond ddim yn rhugl</th><th>Ddim yn siarad Cymraeg adref a ddim yn rhugl</th><th>Ddim yn siarad Cymraeg o gwbl</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Clogau</td><td>2</td><td>12</td><td>11</td><td>3</td><td>0</td><td>28</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cymraeg Rhugl - 14</td><td colspan="2">Ychydig bach o Gymraeg - 14</td><td colspan="2">Dim Cymraeg - 0</td></tr>
</table></td><td>1</td><td>Wrth gwblhau ymchwil cyn cychwyn y broses rhoddwyd cyfle i benaethiaid ysgolion y dalgylch wirio ystadegau’r pecyn ystadegol. Gan fod y broses statudol yn cymryd amser, cymerwyd ciplun o ddata am un flwyddyn academaidd (2013/14) ac yna defnyddiwyd y rhain yn gyson, i osgoi unrhyw ddryswch. Mae’r ddogfen ymgynghorol felly yn cynnwys gwybodaeth ieithyddol disgyblion yn seiliedig ar ddata Medi 2013.</td></tr>
<tr><td>4.9</td><td>Ymddiheurwn nad yw’r llythyr apêl hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Oherwydd yr amserlen dynn IAWN o gasglu’r ffeithiau, nid yw wedi bod yn bosibl cyfieithu’r cyfan mewn da bryd. Fe allwn er hynny ddarparu cyfieithiad os oes angen.</td><td>1</td><td>Nid oes angen darparu cyfieithiad, mae gwrthwynebiadau’n cael eu derbyn yn y Gymraeg neu’r Saesneg. Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu am 28 diwrnod, yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Rhoddwyd amserlen amlinellol yn y ddogfen ymgynghorol statudol ac anfonwyd nifer o negeseuon e-bost i aelodau’r PAD i’w rhagrybuddio y byddai cyfnod gwrthwynebu yn cychwyn yn fuan.</td></tr>
<tr><td>5</td><td colspan="3">Cludiant a Theithio</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Oes disgwyl gwirioneddol i ni anfon ein plant bach ar fws? Plant 4 oed yn gorfod teithio gyda phlant 16 oed? Rwyf yn credu mai mater diogelwch ydy hyn - a yw gyrwyr bysiau wedi cael eu gwirio? Ac fe allai hyn achosi problemau mawr o ran bwlio. A phlant ifanc yn teimlo'n ofnus a ddim am fynd i'r ysgol? / Mae cludiant yn faes pryder arall i rieni Ysgol Clogau. Gyda phlant o 3 i 16 oed yn teithio gyda'i gilydd, mae yna bryderon fod yna fwy o gyfleoedd i blant hŷn fychanu plant iau. | 4 | Nid yw'n fwriad rhoi disgyblion oed cynradd (4-11) ac uwchradd (11-16) ar yr un bws â'i gilydd. Mae disgwyl i blant a phobl ifanc ymddwyn yn briodol wrth ddefnyddio cludiant i'r ysgol, mae mwy o wybodaeth ar gael yn y canllawiau statudol ynghylch y cod ymddygiad wrth deithio (Rhagfyr 2009), Llywodraeth Cymru. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob gyrwr bws wedi cael gwiriad Gwasanaeth Datagelu a Gwahardd. |
| 5.2 | Costau anferthol ynghlwm â chludiant / O ble mae'r holl arian yn dod i dalu am gludiant ac adeiladu'r ysgol newydd er ein bod ni wedi cael gwybod ei bod yn rhy ddrud i gadw'r ysgolion cyfredol ar agor? / Mae oblygiadau teithio o ran cost, amser, gofynion amgylcheddol a diogelwch yn achosi pryder. | 3 | Rhagwelir bydd y cynnig yma yn darparu oddeutu £255,625 o arbedion refeniw. Mae hyn ar ôl ystyried costau cludiant cysylltiedig â gweithredu'r cynnig.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn bwysig rhoi sylw i amseroedd teithio yn ogystal â'r pellteroedd – yn wir mae amser teithio wedi ei ystyried fel rhan o'r asesiad opsiynau.<br><br>Nid yw'n ddisgwyliedig, fel rhan o'r model hwn, bod disgyblion yn teithio o un safle i'r llall yn ddyddiol. Bydd disgyblion yn mynychu un safle yn ddyddiol ac yn achlysurol efallai yn mynychu safle'r uwchradd am wersi arbenigol. Rhagwelir byddai staff yn hytrach na disgyblion yn symud safleoedd.<br><br>Wrth gyfeirio at ôl-troed carbon a materion amgylcheddol, mae angen ystyried bydd 4 safle addysgol yn cael eu cau, bydd yn golygu llai o safleoedd i'w gwresogi ayyb. Mae'r Cyngor yn wastad yn annog rhannu ceir i'r gwaith a bydd yn bosib i rai staff wneud hyn os gwireddir y model. |
| 5.3 | Tra mae'r plant neu'r athrawon yn teithio o safle i safle mae'r amser addysgu yn cael ei golli / Fe fyddai amser addysgu yn cael ei golli hefyd pe byddai raid i'r athrawon deithio, 'gobeithio' y gellir amserlennu hyn yr ydych chi. Nid chi fydd yn gorfod ond y pennaeth fydd yn gorfod gweithredu ar eich penderfyniadau chi / Nid yw'r safle yn Rhydymain o yn ganolog ac mae oblygiadau i'r dyfodol o ran costau teithio yno gan mae i'r ysgol agosaf y bydd darpariaeth gan y Cyngor. Tra mae plant yn teithio, mae amser addysgu yn cael ei golli. | 3 | |
| 5.4 | Un ysgol ar draws ardal o 16 milltir rhwng y ddau safle pellaf yn anymarferol. / Mae anghysonderau dybryd yng ngweithredu'r Cyngor ac mae pawb yn colli ffydd. Nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi bod Ysgol Ddilynol ar 6 safle yn gweithio. Safleoedd llawer rhy bell oddi wrth ei gilydd. Does dim digon o ddyddiau mewn wythnos i bob safle gael y sylw wythnosol gan unrhyw arweinydd hyd yn oed! / A yw traffig a phrysurdeb misoedd yr haf wedi cael eu hystyried yn yr amseroedd teithio hyn? (adran 5:6 tud 51) / Os yw'r model hwn am gael unrhyw siawns o lwyddo, rhaid i'r opsiwn i ddiogelu addysg wledig fod yn ymarferol. Rhaid i safle gwledig fod yn hygyrch i drefi mwy poblog. | 3 | Mae'r Cyngor wedi ystyried pellteroedd ac amseroedd teithio fel rhan o werthusiad yr opsiynau fel bod yr opsiwn a ffefrir yn diwallu anghenion gwledig y dalgylch. Mae'r amseroedd a phellteroedd teithio yn seiliedig ar gyfartaledd tair *'route planner'* electroneg er cysondeb.<br><br>Mae Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf yn ffederasiwn ffurfiol o 4 ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd. Pennaeth y Ffederasiwn hyd at Rhagfyr 2014 oedd Mike Tate ac fe'i gwahoddwyd i ddyddiau agored yr ymgynghoriad statudol yn Nolgellau ar y $5^{ed}$ a'r $6^{ed}$ o Dachwedd er mwyn rhannu o'i brofiad a rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd glywed am fodelau newydd ac arloesol o ddarparu addysg mewn rhan arall o Gymru. Wrth reswm, nid yw model sy'n gweithio mewn un ardal o reidrwydd yn mynd i weithio mewn ardal arall ond mae modd rhannu profiadau ac arfer dda a chymhwyso rhai elfennau i ardaloedd o fewn Gwynedd. |
| 5.5 | Sarhad oedd dangos ysgolion am safle eraill sydd wedi llwyddo gan nad oes ond yr elfen aml safle yn gyffredin rhyngddynt. Mae'r hyn sydd ar y gweill yma â llawer mwy o safleoedd , nid fel yr ysgolion 2 safle a nodwyd yn ymateb y cyngor. Pellter rhwng safleoedd model 8 yn fawr ac yn ôl datganiad prifathro ysgol aml safle arall yn ne Cymru, agosatrwydd y safleoedd oedd un o'r prif | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | resymau dros y llwyddiant. Tua 4 milltir oedd rhwng y safleoedd, mae bron i 20 milltir rhwng y safleoedd yn model 8, sut gellid cymharu? Sut allwch chi roi sicrwydd y bydd y model yma'n llwyddo? / Anfonwyd Mr Mike Tate, pennaeth Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf, i'r diwrnodau agored i geisio dwyn perswâd ar rieni a'r gymuned fod y model newydd yn mynd i lwyddo. Mae pum safle y Ffederasiwn i gyd o fewn 5 cilomedr i'w gilydd. 30 cilomedr rhwng y chwe safle o fewn model dalgylch y Gader (Dinas i Rydymain - 19.8 cilomedr; Dinas i Friog 30.7 cilomedr). Beth yw'r synnwyr mewn cymharu'r ddwy ardal? Un yn ardal drefol a'r llall yn ardal wledig, wasgarog gyda ffyrdd culion, troellog a dau fwlch serth / Nid oes unrhyw enghreifftiau lle gallwn weld y model hwn ar waith. Dywed Estyn *'nid yw'r cynigydd yn nodi enghreifftiau o fewn yr awdurdod lleol na thu hwnt i hynny lle mae trefniadau o'r fath wedi arwain at ddarpariaeth well yn y Cyfnod Sylfaen ac ym mhob cyfnod'*. | | Mae dalgylch y Gader yn ardal wledig ac yn ddaearyddol eang, sydd yn golygu bod ystyriaeth i gludiant ac amseroedd teithio yn hanfodol. Mewn rhai achosion, er bod y pellteroedd yn fyr, mae cyflwr a natur y ffyrdd yn golygu bod y daith yn cymryd mwy o amser nag a ddisgwylir.<br><br>O ran pellter teithio, mae Cyngor Gwynedd yn rhagweld y gall disgyblion sydd yn mynychu Ysgol Ganllwyd ac Ysgol Clogau ar hyn o bryd deithio i safle Llanelltyd a gall disgyblion sydd yn mynychu Ysgol Brithdir ac Ysgol Machreth ar hyn o bryd deithio i safle Rhydymain. Bydd yr Awdurdod yn rheoli mynediad i'r ysgol a bydd llywodraethwyr yn penderfynu ar fynediad safleoedd penodol. Er mwyn sicrhau na fydd gweithredu'r cynnig yn mynd tu hwnt i'r polisi amser teithio (dim mwy na 45 munud un ffordd), defnyddiwyd yr amseroedd teithio o'r mannau pellaf yn y dalgylch i amcangyfrifo'r amser teithio (gweler y mapiau ar dudalen 53 yn y Ddogfen Ymgynghorol Statudol Ysgolion Dalgylch y Gader). |
| 5.6 | Sut ar wyneb y ddaear fydd y ffyrdd yn gallu dygymod â mwy o fysiau a thacsis ac ati i ddarparu cludiant ysgol / Yw costau'r ysgol yn cynnwys y teithiau cyson ar gyfer y blynyddoedd cynradd i'r ysgol uwchradd er mwyn rhannu adnoddau e.e. cerddoriaeth, gwyddoniaeth? O ystyried bod taith dwyffordd o Ysgol Clogau i'r ysgol uwchradd ar hyn o bryd yn costio £120 mewn bws, fe fyddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar y costau? Lle mae'r amcangyfrifon hyn? Faint o ystyriaeth roddwyd i weithgareddau ar ôl ysgol? / Cynnydd yn nifer teuluoedd Bontddu, a yw'r ffigurau wedi cael eu hystyried o ran darparu cludiant iddyn nhw? / Yw'r Cyngor wedi ystyried y dystiolaeth yn yr adroddiad *"On the relationship between the School Journey and Social and Emotional Adjustments"* (Athro Terence Lee ac a gyhoeddwyd yn *"The British Journal of Educational Psychology"*) - *"Canfuwyd tystiolaeth glir o effeithiau cymdeithasol ac emosiynol negyddol ar blant, yn enwedig bechgyn iau"* / Cyhoeddodd Rhwydwaith Ysgolion Gwledig Albanaidd (*SRSN*) adroddiad yn edrych ar ffeithiau gwirioneddol gostau. Cludiant Ysgolion canfu'r canlynol: *"Mae'r cynnydd mewn costau yn gyson yn fwy na'r arbedion posibl mewn staff dysgu (gan amlaf y prif elfen mewn arbedion posibl)"*. / Costau cludiant cyrraedd £75,000 ond nid yw hynny'n cynnwys costau cludiant ychwanegol ar gyfer teithio i Ysgol Y Gader i ddefnyddio cyfleusterau. Os byddwn yn amcangyfrif £2,000 fesul disgybl ar gyfer taith 5 milltir y flwyddyn, hynny'n golygu cludo 37.5 disgybl y flwyddyn, heblaw am dripiau i Ysgol Y Gader (gan ddefnyddio costau tanwydd 2010 a ffigurau gan yr NASS). Astudiaeth Prifysgol Dijon (ardal wledig Ffrainc) *"edrych ar effaith cau 22 o 50 ysgolion bach a chludo'r plant i'r 28 arall. Ar ôl 10 mlynedd, canfuwyd fod y costau cludo bron cymaint fel y byddai wedi bod yn rhatach cadw'r 22 ar agor – ac yn* | 2 | Nid yw'n ddisgwyliedig, fel rhan o'r model yma, bod disgyblion yn teithio o un safle i'r llall yn ddyddiol. Bydd disgyblion yn mynychu un safle yn ddyddiol ac, yn achlysurol, efallai yn mynychu safle'r uwchradd am wersi arbenigol. Rhagwelir byddai staff yn hytrach na disgyblion yn symud safleoedd. Mae amlder a'r cost yn gysylltiedig â hyn yn dibynnu ar benderfyniadau'r corff llywodraethol cysgodol. Efallai pe byddai penderfyniad i sefydlu trefn reolaidd ar sail tymor, byddai'n bosib cael cytundeb gyda bysiau lleol. Bydd angen i'r trafodaethau yma gael eu cynnal gan y corff llywodraethol cysgodol, pe byddai'r penderfyniad i barhau â'r cynnig.<br><br>Rhagwelir bydd y cynnig yma yn darparu oddeutu £255,625 o arbedion refeniw. Mae hyn ar ôl ystyried costau cludiant yn gysylltiedig â gweithredu'r cynnig. Cyfrifwyd y £255,625 yn dilyn ystyried y ffactor aml-safle a'i rinweddau, a hefyd yn dilyn ystyriaeth o gostau cludiant ychwanegol. Bydd yr elfen dechnegol o ddull dyrannu'r cyllid yn cael ei datrys trwy fformiwla ysgol ddilynol, sydd eisoes yn cael ei datblygu, yn unol ag Adran 52 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *arwyddocaol."* / Dyfyniad allan o bapur sefydliad Ysgolion Bach Cenedlaethol *ar "The Case againt small schools, alleging unacceptable costs"*.<br>Dengys astudiaethau yn yr Alban mewn llawer o bentrefi lle caewyd ysgolion, fe fyddai wedi costio mwy i gynnal bws a gyrrwr nac i oleuo, gwresogi a glanhau'r adeilad. Ai dyma'r achos yng Nghymru ac ai dyma beth yw ein sefyllfa ni? | | |
| 5.7 | Os yw cymaint o ysgolion yn yr ardal ar y rhestr cau, pam penderfynu ehangu Rhydymain, sydd â dim ond 18 disgybl ac sydd ddim yn bendant yn ganolog yn ddaearyddol – a fyddai'n cynnwys mwy o deithio (ôl troed carbon) ar gyfer pawb? Rhyfeddu at yr hurtrwydd ymddangosiadol. / Nid yw safle Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn gynaliadwy i'r dyfodol. Beth yw pwynt adleoli ac ad-drefnu i wneud arbedion os na fydd eich cynnig presennol yn para yn y tymor hir, gan roi'r model cyfan yn y fantol? Prif resymau pam y credwn na fydd Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn gynaliadwy i'r dyfodol yw pellter teithio a lleoliad, dirywiad parhaus ers 1975 o ran niferoedd, lleoliad cartrefi plant y dalgylch, a dewis rhieni / Bwriad cynnal addysg wledig yn Rhydymain ond a yw Rhydymain yn gynaliadwy? Ychydig iawn o blant sy'n byw yn nes i Rydymain nag i Ddolgellau / Llawer mwy o blant (84%) yn byw yn nes at Ysgol Brithdir nag Ysgol Rhydymain – llai o deithio o lawer (plant a phellter) a lleihau ôl-troed carbon sydd i fod yn ffactor pwysig. Ysgol Rhydymain ar gyrion y dalgylch – dywedodd y Cyngor na fyddent o blaid ysgol ar y cyrion – yn groes i bolisi Cyngor Gwynedd / Ysgol Brithdir yn llawn plant. Gwelodd gynnydd o 119% rhwng 1975 a 2013 a 44 o blant ar hyn o bryd. Ysgol Brithdir yn ganolog. / 24 o'r plant yn byw llai na milltir a hanner o'r ysgol a 3 o blant dan oed ysgol sydd ddim yn dangos yn eich ffigurau / Mae 24 o blant yn byw o fewn milltir a hanner i'r ysgol. 44 o blant./ Y lleill yn cael eu cludo heb ddim cost i'r Cyngor. Rhieni yn dod â'u plant i'r ysgol o'u dewis Mae rhieni yn amlwg wedi dewis Brithdir fel safle i anfon eu plant gan mai yma mae'r niferoedd. Cyngor wedi cydnabod mai Brithdir oedd y safle cynaliadwy yn flaenorol. Niferoedd Brithdir wedi bod yn gyson uchel ers blynyddoedd bellach / Rydych yn mynd yn groes i lawer iawn o'ch polisïau wrth ddatblygu Ysgol Ieuan Gwynedd yn hytrach nag Ysgol Brithdir, e.e. cau ysgolion gyda llefydd gwag, lleoliad ysgolion, y broses ddemocrataidd, heb sôn am wrthod hawl rhieni i ddewis ysgolion ar gyfer eu plant. Beth yw pwynt eich polisïau os yw gwneud arbedion yn bwysicach na dim? / Er mwyn cael cyfle cyfartal o ran adnoddau byddai rhaid i blant safle Rhydymain deithio i'r dref. Collir amser addysgu drwy wneud i'r plant deithio gan eu gosod dan anfantais unwaith eto. Os oes rhaid gwneud i blant deithio onid yw'n gwneud mwy o synnwyr iddynt deithio o safle Brithdir gan ei fod yn agosach? Llai o amser | 14 | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy o blant yn byw yn nes i safle Brithdir, yn wir, roedd hyn yn rhan o'r rheswm pam y cynigwyd safle Brithdir fel rhan o'r cynnig blaenorol. Yn anffodus, nid yw datblygu safle Ysgol Brithdir yn opsiwn posib bellach.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal addysg wledig ac yn gwneud hyn wrth gynnwys safle Rhydymain yn rhan o'r model a ffafrir. Golyga hyn bod opsiwn addysg wledig i ardal Dwyrain y dalgylch. Mae'r Cyngor wedi darparu digon o lefydd i holl ddisgyblion presennol ysgolion Brithdir, Machreth a Ieuan Gwynedd ar safle Rhydymain.<br><br>Bydd cynaladwyedd safle Rhydymain yn fwy hyfyw yn dilyn y buddsoddiad arfaethedig. Wrth gwrs mae dewis safle yn ddarostyngedig i ddewis rhieni a phenderfyniad y llywodraethwyr. Y neges sydd wedi ei derbyn yn ystod trafodaethau yw bod angen parhau i gynnig addysg wledig. Os oes dyhead yn lleol i gadw addysg wledig, y gobaith yw y bydd rhieni yn cefnogi safle addysgol Rhydymain. Drwy ddod â phlant yr ardaloedd lleol (Machreth, Brithdir a Rhydymain) at ei gilydd mewn un safle, y bwriad yw sicrhau ysgol ffyniannus. Os yw rhieni'r dref yn parhau i ddewis addysg wledig i'w plant, serch y pellter, bydd hyn yn cyfrannu ymhellach tuag at gynaladwyedd y safle.<br><br>Nid yw'n ddisgwyliedig fel rhan o'r model hyn bod disgyblion yn teithio o un safle i'r llall yn ddyddiol. Bydd disgyblion yn mynychu un safle yn ddyddiol ac yn achlysurol efallai yn mynychu safle'r uwchradd am wersi arbenigol. Rhagwelir byddai staff yn hytrach na disgyblion yn symud safleoedd.<br><br>Mae amlder a'r cost yn gysylltiedig â hyn yn dibynnu ar benderfyniadau'r corff llywodraethol cysgodol. Efallai pe byddai penderfyniad i sefydlu trefn reolaidd ar sail tymor, byddai'n bosib cael cytundeb gyda bysiau lleol. Bydd angen i'r trafodaethau yma gael eu cynnal gan y corff llywodraethol cysgodol, pe byddai'r penderfyniad i barhau â'r cynnig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | addysgu, byddai costau teithio yn is a bydd lefelau llygredd yn is. Mae'r holl ffeithiau hyn yn dangos yn glir mai safle Brithdir yw'r opsiwn synhwyrol / Dewis rieni - gwyddom eu bod yn barod i ddod i Brithdir ac ni fu dim lleihad yn faint o blant sydd am ddod i Brithdir oherwydd y sefyllfa fregus yma. Ysgolion eraill wedi dioddef – e.e Llanfachreth, ond mae'r ansicrwydd yma i weld wedi cryfhau Brithdir. Rhieni yn cefnogi Seren Fach fel meithrinfa ac yn ei gweld yn hwylus. Nid yw dod i'r Brithdir i ddefnyddio y Feithrinfa ac wedyn gorfod teithio i Rydymain mor ddeniadol na chost effeithiol. / Nid yw'r cynnig yn rhoi cyfle cyfartal i ddisgyblion Brithdir gan y byddant yn gorfod teithio i un pen o'r dalgylch i gyrraedd y safle ac yna deithio'n ôl wedyn i ddilyn gweithgareddau arbenigol yn y dref gan na fydd adnoddau yn safle Rhydymain! | | Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i weld pob plentyn o fewn y Sir yn cael cynnig yr un ddarpariaeth o ran addysg a chyfleoedd. Oherwydd hynny, mae'r cynnig hwn i ddarparu addysg gynradd ar 5 safle yn hytrach na 9 safle yn mynd i olygu gwella adnoddau, lle storio adnoddau, llyfrgell, technoleg gwybodaeth, neuadd a chae chwarae.<br><br>O ran y costau cludiant, mae'n wir bod peth cynnydd mewn costau cludiant, o gymharu â'r sefyllfa bresennol ond mae'r cynnig yma yn parhau i fod y model mwyaf cost effeithlon. Rhagwelir bydd y cynnig yma yn darparu oddeutu £255,625 o arbedion refeniw. Mae hyn ar ôl ystyried costau cludiant yn gysylltiedig â gweithredu'r cynnig.<br><br>Yn ogystal â chreu arbedion, bydd y cynnig yn sicrhau bod cost y disgybl yn cael ei gysoni ar draws y dalgylch cyfan, gan ganiatáu tegwch a chydraddoldeb i bawb. |
| 5.8 | Prif Weithredwr eich hun wedi dweud bod angen cael ateb hyfyw i'r dyfodol. Dyfynnwn o'i eiriau ei hun, sef [rhaid] "ceisio canfod ateb sydd yn hyfyw o ran ansawdd [yr] addysg a chost y ddarpariaeth...sydd yn gwneud synnwyr o fewn cymunedau daearyddol priodol." Nid yw cau Ysgol Brithdir a symud i Ysgol Rhydymain yn gynnig hyfyw nac yn gwneud synnwyr yn ddaearyddol. Ni allwch ddarbwyllo rhieni a phlant Ysgol Brithdir eu bod yn symud i rywle gwell. Efallai y bydd rhai rhieni'n anfon eu plant i Ysgol Rhydymain yn y tymor byr, ond yn y tymor hir ni fydd rhieni'n anfon eu plant yno fel sy'n digwydd ers blynyddoedd maith. Pa dda yw ysgol heb iddi blant? / Sut gallwch fynd yn groes i'r hyn y mae eich Prif Weithredwr yn dweud, bod angen cael ateb hyfyw i'r dyfodol sy'n gwneud synnwyr mewn cymunedau daearyddol priodol? / Rheswm daearyddol yw pam fod Ysgol Ieuan Gwynedd yn methu - beth sydd wedi newid? | 2 | |
| **6** | **Materion Safle ac Adeiladwaith** | | |
| 6.1 | Teimlwn i gyd ein bod wedi cael ein twyllo allan o ddatblygiad a allai fod wedi mynd yn ei flaen pe bai'r bwriad yno. Yn gyntaf, cafwyd y mater anffodus fod y cae gerllaw a oedd i gael ei ddefnyddio ar gyfer codi estyniad i'r ysgol yn anaddas oherwydd 'craig galed'(oedd ddim yn bodoli) yn y cae (a ddefnyddiwyd gan Gyngor Gwynedd er mwyn cyfiawnhau newid meddwl ar y penderfyniad i adeiladu estyniad i'r ysgol). Yn ail, y bai a roddwyd ar Barc Cenedlaethol Eryri am wrthod y cynlluniau (ac mae'r Parc wedi gwadu hynny!). Mae hyn yn ymddygiad cwbl annerbyniol gan Gyngor a ddylai gynrychioli'r gymuned a dymuniadau aelodau'r gymuned honno / Tro pedol yn y penderfyniad wedi achosi cynnen mawr yng nghymuned Brithdir nid yn unig am ei fod yn groes i ystadegau a gwerthoedd a nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol. Yn ogystal, mae Cyngor Gwynedd wedi methu â chyflwyno unrhyw reswm call na boddhaol dros y newid meddwl sydyn hwn. Yn dilyn herio'r graig, cawsom wybod fod yna beth | 16 | Cwmni preifat Betts Geo-environmental a gomisiynwyd i gwblhau gwaith daear ar safle cyfagos i Ysgol Brithdir. Penderfyniad y cwmni arbenigol oedd defnyddio bwced diddannedd i dyllu'r cae. Y rheswm oedd bod y safle o fewn pellter penodol i olion archaeolegol. Mae defnyddio bwced gyda dannedd yn debygol o chwalu unrhyw olion archaeolegol ac mae hyn yn drosedd. Dyma'r offer a ddefnyddir gan bob cwmni arbenigol mewn sefyllfa o'r fath – cyrraedd lefel y graig oedd pwrpas yr archwiliad nid ceisio tyllu drwyddi ac felly mae bwced heb ddannedd yn gwbl rhesymegol.<br><br>Mae adroddiad Geotech yn cadarnhau fod craig wedi ei darganfod 1 metr o dan y ddaear – mae'r term 'craig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gwneuthuriad y deunydd o dan y ddaear – nid yw o reidrwydd yn un craig solet. Roedd y cynnydd mewn costau yn gyfuniad o fwy nag un ffactor wrth gwrs gan gynnwys |

anghytuno gyda barn Parc Cenedlaethol Eryri fel Awdurdod Cynllunio. Nid yw'r rheswm olaf hwn yn cyd-fynd â datganiad y Parc Cenedlaethol / Esgusodion a ddefnyddiwyd ar gyfer gwrthod cynlluniau i ymestyn yr ysgol dda hon ac felly sicrhau ei dyfodol, ond y cyfan ydyn nhw ydy esgusodion / Yn ôl y penseiri yn eu hadroddiad blaenorol, nodwyd mai ysgol Brithdir oedd yr adeilad mwyaf addas i'w ddatblygu er ei fod yn hŷn. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o anaddasrwydd safle Brithdir o ran cael estyniad i hwyluso gwaith yr ysgol. Yn ôl y cyfarfod PAD a'r cyfarfodydd agored yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion deallwn bod y Parc Cenedlaethol yn barod i drafod ac addasu'r cynllun ar gyfer Brithdir / Beth yw ateb gwir y newid penderfyniad yn 2010 i roi addewid o ysgol newydd i Brithdir?/ Rwyf yn gweithio ym maes adeiladu a llogi peiriannau ac rwy'n gwybod fod ysgol Brithdir yn un hylaw i'w datblygu. Pan gafodd y ffordd heibio ysgol Brithdir ei ailwneud, nid oedd unrhyw broblemau gyda chreigiau / Cywilydd mawr arnoch bod wedi ymddwyn mewn ffasiwn ddull. Rhywun yn rhywle yn dweud celwydde mawr ac mae'n warthus y ffordd rydym wedi cael ein camarwain / Rhieni Ysgol Brithdir wedi cael gwybod gan swyddogion Cyngor Gwynedd yn noson agored Iau 6ed Tachwedd 2014 NAD y graig a'r gost yw'r brif broblem ond yn hytrach y byddai cael caniatâd cynllunio bron wedi bod yn amhosibl. Roeddem i gyd yn meddwl mai'r graig a chost cloddio'r graig oedd y brif broblem - dyma a ddywed Cyngor Gwynedd ar ei wefan yn yr Archif:
'*Yn y cyfamser, gwnaethpwyd cryn waith cefndirol er mwyn datblygu'r cynllun, gan roi sylw manwl i ddaeareg y safle a materion cynllunio. Yn anffodus, darganfuwyd cyfyngiadau a phroblemau sylweddol a olygai gynnydd sylweddol yng nghost datblygu'r safle a phenderfynwyd peidio parhau â'r cynnig i sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ym Mrithdir a Dinas Mawddwy.'*
Mae e-bost gan yr Adran Eiddo ar 5ed Tachwedd 2014 yn dweud yn gwbl groes i hyn:
*Yn gyntaf oll dylwn bwysleisio un mater. Nid presenoldeb y graig yw'r unig reswm nac yn wir y prif reswm dros benderfyniad y Cabinet i ddirwyn y broses ddiwethaf i ben.*
[ac mae'n mynd ymlaen i esbonio]
*Y risg sylweddol o fethu cael caniatâd cynllunio doed a ddel. Yn ystod y cyfnod dylunio aeth barn y swyddogion cynllunio yn llawer mwy negyddol nag yr oedd adeg yr ymgynghori ac roeddent yn mynd yn fwy pryderus wrth i amser fynd heibio. Roeddem wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd y siawns o fod yn llwyddiannus yn fychan os nad amhosib. Dyma'r prif reswm felly, mater na all arian ei oresgyn wrth gwrs'*

tyllu'r deunydd o'r safle, y gost o roi gwasanaethau drwy'r deunydd, y gost o ddraenio drwy'r deunydd, y gofynion newydd gan y Llywodraeth (gan gynnwys cynnydd mewn arwynebedd a'r linc cymhleth rhwng un lefel y safle a'r lefel arall ayb).

Mae adroddiad yn dilyn y gwaith yma wedi'i rannu gyda thrigolion Brithdir yn dilyn cais rhyddid gwybodaeth.

Nid presenoldeb y graig yw'r unig reswm nac yn wir y prif reswm dros benderfyniad y Cabinet i ddirwyn y broses ddiwethaf i ben.

Gweler isod ran o'r adroddiad aeth i Gabinet y Cyngor ym mis Gorffennaf 2013:

*"Aethpwyd ymlaen i ymgynghori'n statudol ar y bwriad i wireddu'r cynllun yn ardal Brithdir a Dinas Mawddwy gan adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn yn Rhagfyr 2011. Oherwydd bod gwrthwynebiadau wedi eu derbyn trosglwyddwyd y mater i'r Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol. Ym mis Tachwedd 2012 cafwyd penderfyniad o blaid y cynnig.*

*Yn y cyfamser, gwnaethpwyd gwaith manwl ar safle Ysgol Brithdir a daethpwyd ar draws problemau a rhwystrau sylweddol o ran datblygu safle Brithdir o safbwynt materion cynllunio a chostau. Ers cyfnod yr ymgynghori ac wrth ddatblygu'r dyluniadau, daeth yn amlwg y byddai'n anodd iawn derbyn caniatâd cynllunio. Nodwyd y byddai'n rhaid gostwng lefel y tir yn sylweddol ar gyfer adeiladu a hynny mewn ardal ble mae craigm a byddai cost sylweddol ynghlwm â hyn. Yn ystod yr un cyfnod daeth yn amlwg fod gofynion technegol y Llywodraeth wedi newid ac y byddai angen mwy o ofod yn yr estyniad. Canlyniad hyn ydyw fod yr hyn a ystyrir bellach yn wahanol i'r hyn dybiwyd adeg yr ymgynghori, a chynnydd yn y gost a risg sylweddol na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi. Y pryder yw y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei wario er mwyn groesgyn problemau peirianyddol yn hytrach nag ar adnoddau addysg i ddisgyblion yr ardal.*

*Yn sgil hyn, daethpwyd i gasgliad na fydd y cynnig gwreiddiol yn cael ei weithredu a bydd rhaid datblygu cynllun arall."!*

Cynhaliwyd sawl trafodaeth agored gyda Swyddogion Cynllunio'r Parc

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tud. 52 | Mae'r Adran Eiddo hefyd yn dweud yn yr e-bost bod modd goresgyn problem y graig a'r gost, ond nid y broblem gynllunio / Aeth rhieni i gysylltiad ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac mae swyddogion y Parc yn gwadu y byddai wedi bod yn amhosibl cael caniatâd cynllunio. Mae gennym e-bost gan Awdurdod y Parc yn cadarnhau na ddaeth neb yn ôl atynt o gwbl i wneud newidiadau i'r dyluniadau a gyflwynwyd (yn wir, roeddent yn gynlluniau mor sâl fel bod y Swyddog Cynllunio wedi eu disgrifio fel 'the cheapest plans possible, mere sketches, only a box to consider') ac y byddent yn croesawu cais cynllunio.<br>Ble mae'r broblem? Pam eich bod â'ch cyllell yng nghefn Ysgol Brithdir? Pam eich bod yn mynnu cau eich llygaid ar bob ystadegyn a ffaith sy'n dangos yn glir mai yma mae'r safle ar gyfer y dyfodol? Dyma'r safle sy'n hygyrch a hyfyw. Onid ydych wedi datgan eich bod wedi 'ymrwymo i addysg wledig'?<br>Rhieni'r ysgol wedi tyllu'r cae gyda chyfarpar mwy pwrpasol na'r hyn a ddefnyddiodd y Cyngor a heb ddod ar draws unrhyw graig. Awgrymodd swyddogion y Cyngor yn gryf nad craig oedd yno, dim ond na allai JCB gyda bwced heb ddannedd fynd ddim dyfnach, a bod y bwced hwn wedi'i ddewis oherwydd bod olion archaeolegol o fewn 300m i'r ysgol (pellter angenrheidiol). Deallwn nad oes unrhyw archaeoleg o fewn 300m i'r safle fel y credai swyddogion y Cyngor - mae'r olion Rhufeinig yn llawer pellach na hynny a thai eisoes wedi eu codi arnynt beth bynnag! Roedd y penderfyniad hwn i ddefnyddio bwced heb ddannedd yn greiddiol i'r profion tyllu ac i'r penderfyniad i roi cynllun Ysgol Brithdir o'r neilltu, ac mae'r esgeulustod a'r camarwain hwn wedi gwylltio rhieni a thrigolion Brithdir. Ac o ystyried na ddaethom ni fel rhieni ar draws unrhyw graig yn y cae gerllaw Ysgol Brithdir, sut all y Cyngor gyfiawnhau'r gost ddiweddaraf o £2.72m i ddatblygu Ysgol Brithdir?/ Dylai'r Cyngor gadw at y penderfyniad blaenorol i adeiladu estyniad i'r ysgol (penderfyniad a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn 2010). Rydym angen ein hysgol yn y Brithdir ac yn wir, barn gynharach Gwynedd oedd mai Brithdir oedd y lleoliad gorau ar gyfer darparu addysg wledig yn rhan ddwyreiniol ardal ddalgylch y Gader / O gofio na wnaed unrhyw ymdrech i gyflwyno cais cynllunio yn y lle cyntaf fel y dylid bod wedi gwneud, nac i ddod i gytundeb gyda'r Parc ar wneud newidiadau a fyddai wedi arwain at ddyluniad derbyniol (fel sy'n hollol arferol gyda cheisiadau cynllunio) nac ychwaith i gostio pethau'n iawn, gofynnwn fod Cyngor Gwynedd yn cyflwyno CAIS CYNLLUNIO ar gyfer rhoi estyniad ar Ysgol Brithdir rhag blaen, ac er tegwch i'r broses ymgynghori ddemocrataidd gyntaf o blaid cadw Ysgol Brithdir ar agor / Nid ydych wedi ymateb i'r anghysondeb hwn o gwbl yn y Cyfnod Sylwadau. | | Cenedlaethol. Crëwyd model 3D o'r ysgol, cyflwynwyd cynlluniau a chynigiwyd gwneud newidiadau. Roedd yr ymateb yn negyddol ac roeddent yn gallu cyflwyno dadleuon digon rhesymol dros wrthod cais cynllunio. Byddai parhau i wneud y gwaith angenrheidiol i gyflwyno cais llawn wedi costio rhai degau o filoedd a phenderfyniad y Cabinet, o ystyried yr holl ffactorau, oedd peidio â bwrw ymlaen gyda'r datblygiad.<br><br>Mae tri rheswm felly:<br>• Y risg sylweddol o fethu cael canaiatâd cynllunio doed a ddel. Yn ystod y cyfnod dylunio aeth barn y swyddogion cynllunio yn llawer mwy negyddol nag yr oedd adeg yr ymgynghori ac roeddent yn mynd yn fwy pryderus wrth i'r amser fynd heibio. Roeddem wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd y siawns o fod yn llwyddiannus yn fychan os nad amhosib. Dyma'r prif reswm felly, mater na all arian ei oresgyn wrth gwrs.<br>• Yn ystod y cyfnod dylunio, daeth gofynion y Llywodraeth yn gliriach. Os oeddem am ddefnyddio arian grant yna roedd angen gwariant ychwanegol ar natur yr adeiladwaith er mwyn cyrraedd gofynion amgylcheddol uchel iawn. Hefyd roedd angen 70m$^2$ yn ychwanegol nag y dybiwyd yn wreiddiol os am gyrraedd y safonau disgwyliedig i sicrhau arian grant.<br>• Yn ystod y dylunio bu i'r Parc fynnu y byddai'n rhaid gostwng lefel yr adeilad newydd yn sylweddol (hyd at 3m) er mwyn peidio ag effeithio ar yr ysgol bresennol a mwynderau'r tŷ yn y cefn. Eisoes mae safle'r ysgol bresennol fetr yn uwch na'r safle drws nesaf ac felly byddai angen cloddio 4 metr. Mae'r arolwg arbenigol yn dangos fod craig fetr o dan y ddaear. Nid yw hyn ynddo'i hun yn golygu ei bod yn amhosib cyflawni'r datblygiad ond yn amlwg roedd yn ychwanegu at y gost. Byddai'r gwahaniaeth lefel hefyd yn golygu creu linc gymhleth a chostus rhwng yr hen a'r newydd.<br><br>Eglurwyd hyn yn gyson mewn ymatebion gohebiaeth ac ar lafar yn y diwrnodau agored gan swyddogion yr Adran Eiddo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.2 | Yn ogystal, nid yw Ysgol Brithdir ar brif ffordd ac mae digon o le i ychwanegu at yr ysgol. | 1 | |
| 6.3 | Pam fod hyn yn broblem na fedr gael ei datrys yn ystod y broses cynllunio? Sut fedr Llywodraeth Cymru newid y "Gôl Byst" ar ôl cymeradwyo yr argymhelliad? Nid oes digon o waith wedi ei wneud ynglyn â'r cynllunio eto i ddefnyddio hyn fel rheswm o beidio parhau â Brithdir fel safle. | 1 | |
| 6.4 | Mewn cylchlythyr a gafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2013 gan y Cyngor, rhoddwyd rhesymau pam na fyddai safle Brithdir bellach yn addas. Y rhesymau oedd:<br>• Byddai'n anodd iawn derbyn caniatad cynllunio.<br>• Byddai'n gostus iawn gostwng lefel y tir oherwydd presenoldeb craig.<br>• Gofynion technegol y Llywodraeth wedi newid ac byddai angen mwy o ofod i'r estyniad.<br>• Cynnydd mewn cost a risg na fyddai caniatad cynllunio yn cael ei gymeradwyo.<br>• Gormod yn cael ei wario i oresgyn problemau peiriannyddol. | 1 | |
| 6.5 | Gair i brotestio yn gryf iawn yn erbyn cau Ysgol y Brithdir. Pam cau ysgol sy'n ffynnu, a chithau wedi gwario miloedd mae'n siŵr ar wneud cynlluniau. Byddai yn dda cael gwybod y gost! Sut oedd rhywun wedi gwneud cynlluniau heb edrych yn gyntaf ar ansawdd y tir – am y rheswm mae'n debyg nad oes craig galed yna – yn ôl y bobl fu'n cloddio yna. | 1 | Mae'r Cyngor yn falch o glywed bod rhieni yn canmol yr addysg a ddarperir yn Ysgol Brithdir a bod yr ysgol yn un hapus a theuluol. Mae'r Cyngor hefyd yn deall nad peth hawdd yw wynebu unrhyw newid.<br><br>Mae nifer o wahanol ffactorau wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r opsiwn arfaethedig a ffefrir. Yn wir mae nifer o'r rhesymau a restrwyd yn rhai o'r rhesymau dros ddewis safle Brithdir fel rhan o'r cynnig blaenorol. Yn anffodus, nid yw datblygu safle ysgol Brithdir yn opsiwn posib bellach am nifer o resymau a eglurwyd uchod.<br><br>Mae angen bellach mynd i'r afael â'r sefyllfa anghynaladwy er mwyn cynnal a pharhau ag elfennau gorau addysg ac ethos y dalgylch tra'n buddsoddi mewn adnoddau sy'n gydnaws â'r $21^{ain}$ ganrif er mwyn rhoi profiadau amrywiol a datblygu sgiliau a hyder holl disgyblion y dalgylch. Mae cyfle yma i atgyfnerthu a gwella darpariaeth addysg yn y dalgylch i blant a phobl ifanc heddiw ac i blant a phobl ifanc y dyfodol. Prif ddiben y cynnig hwn ydy ansawdd yr addysg a ddarperir. |
| 6.6 | Mae gan Ysgol Brithdir un peth nad oes gan unrhyw ysgol arall y dalgylch (yn cynnwys ysgol tref Dolgellau) - Ysgol LAWN. Mae'n warthus eich bod yn ystyried cau'r unig ysgol lwyddiannus. Fe ddylech ystyried beth sy'n gwneud Ysgol Brithdir yn ysgol lwyddiannus yn ôl adroddiadau Estyn a'r gwerthusiad lliw. Sut | 1 | Petai'r cynnig yma'n cael ei gymeradwyo y bwriad yw parhau â'r cryfderau a welir ar waith yn y Brithdir ac yn wir y bydd yn cael ei atgyfnerthu wrth ddod â phlant o dair ysgol wledig ynghyd yn safleoedd Llanelltyd a Rhydymain. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mae hyn yn gwneud unrhyw synnwyr? A wnewch chi plîs ailystyried. | | |
| 6.7 | Ffodus i weld tu mewn Ysgol Brithdir yn ddiweddar - roedd awyrgych gynnes a chyfeillgar ac roedd y cyfleusterau yn fy atgoffa o'm profiad fy hun mewn ysgol gynradd a oedd hefyd mewn ysgol mewn pentref bychan. | 1 | Mae'r Cyngor yn falch o glywed bod awyrgylch croesawgar yn Ysgol Brithdir. Yn anffodus, nid oes yr holl adnoddau angenrheidiol yno, fel y cydnebydd sawl gwrthwynebiad.<br><br>Gall rhieni a disgyblion ddewis ysgol am nifer o resymau gwahanol, a gall y rheswm hwn newid dros gyfnod o amser. Mae ffactorau fel niferoedd disgyblion, llefydd gweigion a rhagamcanion disgyblion wedi'i ystyried wrth werthuso'r modelau posibl. |
| 6.8 | Ble mae'r tegwch i'r rhieni sy'n dewis Brithdir i'w plant ers nifer o flynyddoedd? Er bod adnoddau yr adeilad fel y mae ddim yn arbennig o dda, mae rhieni yn dewis dod â'u plant yma i gael eu haddysg. Byddai adeiladu estyniad ar ysgol sydd â ddim llefydd gweigion yn gynaliadwy. | 1 | |
| 6.9 | Corff yn cydnabod nad oes adnoddau da yn y Brithdir ar hyn o bryd o ran adeilad. Fodd bynnag, mae gennym niferoedd cynaliadwy. Rydym yn gwrthwynebu gwario ar safle arall fydd ddim yn llwyddo yn hirdymor. Pam nad oes gwariant yn cael ei wneud yma ? Os na fydd disgyblion y Brithdir yn mynychu Rhydymain yna ni fydd y safle hwnnw yn llwyddo. Hoffwn wrthwynebu cau Ysgol Brithdir. Er fy mod yn cydnabod fod yr ysgolion o fewn yr ardal angen cael eu had-drefnu, nid wyf yn credu fod digon o ystyried wedi bod ar y posiblrwydd o gadw Brithdir ar agor yn lle Rhydymain, yn enwedig o ystyried fod y Gweinidog Addysg wedi cymeradwyo hynny yn 2010. | 2 | |
| 6.10 | Teulu wedi byw yn y Brithdir ers sawl cenhedlaeth - hen daid rododdd y tir ar gyfer codi'r ysgol yn 1872 at ddibenion Addysg Elfennol ac i ddim pwrpas arall / Deall bod y tir ar gyfer ysgol Brithdir yn anrheg gan y stad yn 1800, yn benodol ar gyfer codi ysgol - meddyliwch eto a chadwch Ysgol Brithdir ar agor / Adeilad Brithdir yma ers dros 100 mlynedd - pe baech wedi cynnal yr adeilad yn well yn lle anghofio amdano, byddai yma mewn 100 mlynedd arall | 3 | Mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion. Yn ôl y polisi hwn, os oes dymuniad lleol bydd y Cyngor yn gofyn i'w Swyddogion Adfywio gefnogi'r gymuned wrth ystyried unrhyw ôl-ddefnydd o dir ac adeiladau a ryddheir o ganlyniad i'r ad-drefnu. |
| 6.11 | Bydd adeilad Ysgol Brithdir yn mynd yn ôl i'r tirfeddiannwr os bydd yr ysgol yn cau, tra bydd adeilad Rhydymain ar gael i'w werthu ac yn creu incwm. | 1 | |
| 6.12 | Gwariant israddol yn Rhydymain o'i gymharu â safleoedd eraill yn y model - hyn yn fwriadol er mwyn gallu cau'r safle yn y dyfodol ? Nid yw'r gwariant yn deg o'i gymharu â'r gwariant arall yn ne Meirionnydd e.e. Ysgol Penybryn, Craig y Deryn a Llanuwchllyn / Gwybod eich bod wedi dewis safle Rhydymain gan ei fod yn rhatach i'w ddatblygu na safle Brithdir. Arian yw eich blaenoriaeth yma nid dewis safle gorau ar gyfer y dyfodol. Mae cyfanswm yr hyn a fwriedwch wario yn Rhydymain yn sarhaus. Hawdd sôn am y miliynau yr ydych am ei wario yn y dalgylch ac wedi ei wario ar safleoedd eraill ond nid dyma'r gwir ar safle Rhydymain. Rhydymain yw'r opsiwn rhataf, yr opsiwn 'gwneud y tro'. Rydych yn sôn am gynnig 'addysg ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain' ac eto ond yn cynnig 3 | 7 | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal addysg wledig ac yn gwneud hyn wrth gynnwys safle Rhydymain yn rhan o'r model a ffafrir. Golyga hyn bod opsiwn addysg wledig i ardal Dwyrain y dalgylch. Bydd cynaladwyedd safle Rhydymain yn fwy hyfyw yn dilyn y buddsoddiad hwn. Y neges sydd wedi ei derbyn yn ystod trafodaethau yw bod angen parhau i gynnig addysg wledig. Os oes dyhead yn lleol i gadw addysg wledig, y gobaith yw y bydd rhieni yn cefnogi safle addysgol Rhydymain. Drwy ddod â phlant yr ardaloedd lleol (Machreth, Brithdir a Rhydymain) at ei gilydd mewn un safle, y nod yw creu ysgol ffyniannus. Os yw rhieni'r dref yn parhau i ddewis addysg wledig i'w plant, serch y pellter, bydd hyn yn cyfrannu ymhellach tuag at gynaladwyedd y safle. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tud. 55 | dosbarth ar y safle. 4 dosbarth yn ysgol O.M Edwards a Craig y Deryn. Onid yw plant yr ardal hon yn teilyngu cael eu haddysg dan yr un amodau? / Pryderon mawr ynglŷn â safle Rhydymain, nid ydym yn gweld y safle yn llwyddo yn y dyfodol - colli ein haddysg wledig a'r iaith Gymraeg / Prif wrthwynebiad yn erbyn safle ysgol gynradd Ieuan Gwynedd, safle gwledig yn nwyrain yr ardal/ Nid yw opsiwn 8 yn sicrhau dyfodol addysg wledig yn nwyrain Dyffryn Wnion, hynny oherwydd na welaf fod cynaladwyedd yr ysgol yn Rhydymain yn sicr. Cynaladwyedd Rhydymain yn ddibynnol ar blant Brithdir yn symud yno - nid oes dim wedi ei wneud i weld a fydd hyn yn digwydd / Yn bresennol mae ysgolion Brithdir a Rhydymain yn cydweithio - rhannu staff ac yn llwyddo. Cymdeithas Rhydymain a Brithdir yn hanesyddol yn debyg iawn - perthynas o gydweithio wedi bodoli ers tro. Nid oes problem mewn cydweithio efo Ysgol Rhydymain, ond pryderu am y safle a ddewiswyd. Disgyblion yn y pen draw (yn ôl model 8) yn mynd i fynychu'r ysgol agosach at gartref, rwy'n teimlo bod dewis safle ar gyrion y dalgylch mor bell ag sy bosib oddi wrth rhan fwyaf y disgyblion, yn gyrru neges ddifrifol am ddymuniad y Cyngor a'i ymrwymiad i addysg wledig. Oni fydd y safle yn Rhydymain yn gwagio bob blwyddyn? / Ymateb y Cyngor yw bydd safle Rhydymain yn sicrhau na fydd y disgyblion yn gorfod bwyta eu cinio yn y dosbarth. Fodd bynnag, ni fydd digon o le yn neuadd bresennol Rhydymain ar gyfer cael un eisteddiad cinio - bydd angen dau eisteddiad cinio. Sut mae hyn yn gwella'r sefyllfa bresennol? / Sut mae disgwyl i ni gefnogi cau ysgol, cludo plant i safle arall sy'n cynnig dim gwelliant o ran dosbarthiadau. Gwrthwynebu'r cynnig gan nad oes digon o ddosbarthiadau. Yn unol ag addysg yn yr unfed ganrif ar ugain mae'n hanfodol cael 4 dosbarth o fewn safle er tegwch i'r disgyblion, nid 3 fel sy'n cael ei gynnig yn safle Rhydymain / Gwariant sylweddol i ddatblygu adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw wariant yn Ysgol Brithdir oherwydd yr addewid o ysgol newydd. Bu'n rhaid i ni godi arian ein hunain i sicrhau ardal ddysgu tu allan - enghraifft o'r modd mae Ysgol Brithdir wedi ei thrin yn israddol gan y Cyngor / Corff Brithdir o'r farn nad yw'r gwariant ar safle Rhydymain yn creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf. Nid yw 3 dosbarth yn ddigonol gan fod rhannu Cyfnodau Allweddol a blynyddoedd yn niweidiol. Pam bod disgyblion ardal y dwyrain yn cael y gwariant lleiaf? Disgyblion safle Rhydymain o dan anfantais o'u cymharu â gweddill yr Ysgol Ddilynol. Oni fydd pawb yn perthyn i'r un ysgol ac yn haeddu'r un adnoddau a chyfleusterau? / Pan oedd yr ysgol wedi ei haddo i ni yn y Brithdir roedd 4 dosbarth wedi ei addo. / Beth yw pwrpas adeilad heb blant i gynnal ysgol? Pam fydd rhaid i blant Ysgol Ieuan Gwynedd deithio i fynychu gwersi | | Gan ystyried yr hinsawdd economaidd mae buddsoddiad ariannol sylweddol yn cael ei wneud i ddatblygu safleoedd y dalgylch. Wrth fuddsoddi £4.34miliwn o arian cyfalaf i uwchraddio safleoedd mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau ansawdd amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf. Yn ogystal â'r gwaith yma, mae safleoedd Friog, Gader a Dinas Mawddwy yn derbyn gwariant ôl-groniad cynnal a chadw i'w gwella. Mae cyfanswm y gwariant ôl-ddefnydd cynnal a chadw yn £491,000. Golyga hyn bod y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddi £4,831,000 erbyn Medi 2017 i sicrhau yr ansawdd dysgu gorau posib pe bai'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol yn cael ei sefydlu.<br><br>Ni fydd newid i'r ffigwr buddsoddiad sydd wedi ei glustnodi ar gyfer uwchraddio safle Rhydymain, sef £620,000 – Dyluniadau cysyniadol oedd yn y ddogfen ymgynghori ac ers hynny, mae ymgynghori wedi bod gyda'r Pennaeth ac aelodau'r corff llywodraethu ar ddylunio pellach.<br><br>Bydd y neuadd yn safle Rhydymain o faint digonol i gynnal gwasanaethau, gweithgareddau ymarfer corff a gweithgareddau cerddoriaeth ayyb. Bydd angen dau eisteddiad cinio pe byddai'r safle yn llawn. Nid yw cynnal dau eisteddiad cinio yn anarferol yn ysgolion Gwynedd. Mae'r Cyngor wedi ystyried gosod neuadd fwy, ond gan ystyried y cyllideb sydd ar gael, ni ellid cyfiawnhau costau uwch na'r hyn sydd dan sylw, sef £620,000. Mae sut y defnyddir yr arian sydd wedi ei glustnodi yn ddibynnol ar y cynllun terfynol, yn dilyn mewnbwn gan bawb perthnasol.<br><br>Mae nifer dosbarthiadau yn cael eu penderfynu yn unol â'r dyraniad ariannol ar gyfer yr ysgol, sydd yn cael ei selio ar niferoedd yr ysgol. Mae rhagamcanion nifer y disgyblion yn gwarantu cyllideb ar gyfer 3 dosbarth. Bydd union ffurf dosbarthiadau yn cael ei benderfynu gan y Pennaeth a'r corff llywodraethu.<br><br>Adroddwyd yn y ddogfen ymgynghorol ar sail y rhagamcanion a grëwyd ym mis Medi 2013 gan benaethiaid, a chynigiwyd un ffordd posib gall maint dosbarthiadau safle Rhydymain gael eu trefnu. Enghraifft yn unig yw hyn, mae'r tabl isod yn dangos tair gwahanol ffordd gall niferoedd disgyblion gael eu trefnu yn seiliedig ar ragamcanion ddarparwyd gan benaethiaid ym Medi 2014: |

<table>
<tr><td></td><td>arbenigol a cholli allan ar amser addysgu a dysgu? Ai’r bwriad yw lladd addysg wledig yn llwyr?</td><td></td><td rowspan="3">
<table>
<tr><th>Safle</th><th>Meithrin</th><th>Derbyn</th><th>Bl 1</th><th>Bl 2</th><th>Bl 3</th><th>Bl 4</th><th>Bl 5</th><th>Bl 6</th><th>Cyf.</th><th>Nifer Dosb</th><th>Dosb Mwyaf</th><th>Dosb Lleiaf</th><th>Cyfartaledd Dosb</th></tr>
<tr><td colspan="14">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Benaethiaid ym Medi 2013</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Rhydymain</td><td>8</td><td>8</td><td>7</td><td>8</td><td>9</td><td>8<br>4 | 4</td><td>12</td><td>7</td><td rowspan="2">67</td><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">23</td><td rowspan="2">21</td><td rowspan="2">22</td></tr>
<tr><td colspan="3">23</td><td colspan="3">21</td><td colspan="2">23</td></tr>
<tr><td colspan="14">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Benaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 1</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Rhydymain</td><td>8</td><td>7</td><td>6</td><td>9</td><td>8</td><td>8<br>4 | 4</td><td>13</td><td>7</td><td rowspan="2">66</td><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">24</td><td rowspan="2">21</td><td rowspan="2">22</td></tr>
<tr><td colspan="3">21</td><td colspan="3">21</td><td colspan="2">24</td></tr>
<tr><td colspan="14">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Benaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 2</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Rhydymain</td><td>YB 4<br>YP 4</td><td>7</td><td>6</td><td>9</td><td>8</td><td>8</td><td>13</td><td>7</td><td rowspan="2">66</td><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">26</td><td rowspan="2">16</td><td rowspan="2">19</td></tr>
<tr><td colspan="4">26</td><td colspan="2">16</td><td colspan="2">20</td></tr>
<tr><td colspan="14">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Benaethiaid ym Medi 2014 - Posibilrwydd 3</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Rhydymain</td><td>YB 4<br>YP 4</td><td>7</td><td>6</td><td>9<br>5 | 4</td><td>8</td><td>8</td><td>13</td><td>7</td><td rowspan="2">66</td><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">20</td><td rowspan="2">17</td><td rowspan="2">19</td></tr>
<tr><td colspan="3">17</td><td colspan="3">20</td><td colspan="2">20</td></tr>
</table>
O’r enghreifftiau yn y tabl uchod, yn ddibynnol ar benderfyniad y pennaeth, mae modd creu strwythur dosbarthiadau fel na fydd y cyfnodau allweddol yn cael eu croesi. Bydd strwythur y dosbarthiadau yn cael eu penderfynu gan y pennaeth a’r corff llywodraethol yn seiliedig ar wir nifer y plant a’r staff a benodwyd i’r safle.</td></tr>
<tr><td>6.13</td><td>Dim gwariant wedi’i wneud i’r Cyfnod Sylfaen gan eich bod wedi addo ysgol newydd arall yn lleoliad canolog Brithdir</td><td>1</td></tr>
<tr><td>6.14</td><td>Rydych chi’n awgrymu ein bod ni’n cau Ysgol lwyddiannus llawn Brithdir a symud i’r ysgol o’r 60au a chael estyniad bach - dydi hyn ddim yn cymharu gyda’r cynllun gwreiddiol, nac i’r hyn a dderbyniwyd gan blant eraill ym Meirionnydd.</td><td>1</td></tr>
<tr><td>6.15</td><td>Cymuned Brithdir yn poeni’n arw na fydd Ysgol Rhydymain yn para yn y tymor hir, gyda dim ond 18 o blant ar hyn o bryd a lleihad o -42% rhwng 1975-2013.</td><td>1</td><td>Nid yw Ysgol Ieuan Gwynedd yn parhau yn ei ffurf bresennol, mae’r cynnig yn cynnwys ei chau ar 31 Awst 2017. Fel rhan o’r cynnig mae safle’r ysgol yn parhau i gynnig addysg wrth iddi gael ei hagor fel un o chwe safle’r Ysgol Ddilynol Dalgylchol.</td></tr>
<tr><td>6.16</td><td>Holl ystadegau yn dangos yn glir mai safle Brithdir yw’r safle cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae’n safle hygyrch, mae niferoedd Brithdir yn gyson uchel ers blynyddoedd gwelwyd cynnydd o 119% rhwng blynyddoedd 1975 a 2013 ac mae’r niferoedd yn parhau’n uchel er y bygythiad o gau. Dim llefydd gweigion ond mae 60% o lefydd gweigion yn ysgol Rhydymain. Dengys hyn yn glir mai’r Brithdir yw safle dewisol rhieni, mae’n profi tu hwn i bob amheuaeth gryfder safle yr ysgol. Faint mwy o brawf o lwyddiant sydd ei angen arnoch? Mae’n safle hygyrch i’r dref a safle yr ysgol gynradd ac uwchradd, yn hygyrch i’r feithrinfa lwyddiannus leol ac i safle ysgol Dinas Mawddwy. Dyma’r safle lle y gellid gweld cyd weithio Ysgol i Ysgol ar ei orau. Dyma oedd un o’i chryfderau yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol, beth sydd wedi newid? Cofier fel y mae’r ysgolion aml safle eraill wedi profi bod agosatrwydd rhwng safleoedd yn holl bwysig / Mae ysgol y Brithdir yn gyfleus iawn i rieni sydd a phlant eraill ym Meithrinfa Seren Fach ac yn ganolog iawn / Brithdir yn hollol gynaladwy – dim llefydd gweigion, dim rhwyd ddiogelu a.y.b. Dyma eich meini prawf chi ac eto nid yw Brithdir yn ymddangos mewn un opsiwn.</td><td>3</td><td>Mae’r Cyngor yn ymwybodol bod nifer o rinweddau o blaid safle Brithdir, yn wir, dyna pam cynigwyd y safle fel rhan o’r cynnig blaenorol yn 2011. Yn anffodus, roedd angen i’r Cyngor ystyried safleoedd eraill.<br><br>Mae nifer o ffactorau wedi eu hystyried fel rhan o’r gwerthusiad opsiynau e.e. niferoedd disgyblion, amseroedd a pellteroedd teithio, lleoliadau ac agosatrwydd at safleoedd eraill yn rhan o’r Ysgol Ddilynol ayb. Mae’r Cyngor yn ymwybodol o feithrinfa Seren Fach.<br><br>Mae’r Cyngor yn cydnabod bod safle Ysgol Brithdir yn nes at safle Ysgol Dinas Mawddwy ac yn wir, roedd hyn yn rheswm o blaid y safle pan penderfynwyd ei gynnwys fel rhan o’r cynnig blaenorol. Yn anffodus nid yw’n bosib bellach datblygu safle Brithdir.<br><br>Mae’r Cyngor o’r farn bod yr opsiwn arfaethedig yn cynnig y ffordd orau ymlaen i sicrhau hyfywedd darpariaeth addysgol dalgylch y Gader.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.17 | Lleoliad Brithdir yn hybu gwell cydweithio rhwng safleoedd eraill, safle uwchradd a meithrinfa gymunedol elusennol Seren Fach. Ysgol Brithdir yw'r safle hygyrch i rieni gan ei fod yn parhau i ddenu rhieni newydd er y cwmwl o gau – dyma'r safle dewisol. Dylai'r Cyngor gymryd sylw o ddewis naturiol a chyson y rhieni. | 2 | Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i weld pob plentyn o fewn y Sir yn cael cynnig yr un ddarpariaeth o ran addysg a chyfleoedd. Oherwydd hynny, mae'r cynnig hwn i ddarparu addysg gynradd ar 5 safle yn hytrach na 9 safle yn mynd i olygu gwella adnoddau, lle storio adnoddau, llyfrgell, technoleg gwybodaeth, neuadd a chae chwarae.<br><br>Mae'r Cyngor yn falch bod ysgolion Ieuan Gwynedd a'r Brithdir wedi bod yn cydweithio'n agos wrth rannu pennaeth ers i gyn-bennaeth Ysgol Brithdir ymddeol. |
| 6.18 | Ysgol Brithdir yn ganolog iawn a fyddai'n hwyluso cydweithio rhwng y safleoedd, yn enwedig Dinas Mawddwy sy'n un o'r ysgolion ar gyrion y dalgylch y dewisodd y Cyngor ei chadw rhag ofn y collir plant dros y ffin i Bowys. Gyda model mor arloesol a heb ei brofi, a dim ond gobeithio y gallwch ddenu pennaeth o'r calibr angenrheidiol, bydd cydweithio rhwng safleoedd yn gwbl hanfodol. | 2 | |
| 6.19 | Corff Llywodraethol Ysgol Brithdir yn derbyn fod newid yn anochel. Fodd bynnag, ein blaenoriaeth ni ydi sicrhau bod addysg wledig yn parhau i fodoli yn nwyrain y dalgylch a'i fod hefyd yn gynaliadwy i'r dyfodol. Yn wyneb hyn, mae'n gwneud synnwyr i gael y safle gwledig hwn yn ganolog o ran lleoliad nid ar y cyrion eithaf sef y safle yn Rhydymain. Rydym yn gwrthwynebu'r safle dwyreiniol sy'n cael ei ffafrio gennych oherwydd hyn. Onid yw'r niferoedd yn y Brithdir yn dangos mai hwn yw'r safle cyfleus a hyfyw ?<br>Rydym wedi bod yn oddefgar ar hyd y daith ond eto mae'r Cyngor wedi manteisio yn annheg iawn gan sgubo unrhyw sylwadau a chwestiynau sydd gennym ni o'r neilltu a'n hanwybyddu. Fe wnaeth Brithdir geisio hwyluso'r broses o gydweithio rhwng ein hysgol ni a Rhydymain trwy wahodd pennaeth Rhydymain i gymryd gofal am y ddwy ysgol pan wnaeth Meinir Wyn Jones ymddeol a phan oedd yr ysgol wledig i fod ar safle Brithdir. Gwn bod eich swyddogion ac Estyn yn gweld bod y trefniant wedi bod yn un llwyddiannus. Lle mae'r gydnabyddiaeth am hyn yn eich penderfyniadau ?<br>Rydym yn gwrthwynebu model 8 yn ei ffurf bresennol gan ei fod yn mynd yn groes i sylwadau diweddar y Cyngor ynghylch beth sy'n gwneud safle yn gynaliadwy h.y. niferoedd disgyblion, daearyddiaeth lleoliad a'r trefniant i gydweithio. Pellaf yn y byd yw'r safleoedd oddi wrth ei gilydd yn y model yna lleiaf tebygol ydynt o allu cyd-weithio. Roedd safleoedd y model yng Nghwm Aman yn agos at ei gilydd ac felly roedd yn haws iddo gael ei weithredu. | 1 | |
| 6.20 | Ffordd y B4416 Brithdir yn llawer mwy diogel na'r A494 yn Rhydymain | 1 | Nid yw Ysgol Rhydymain yn uniongyrchol ar y briffordd A494 ond ar ffordd oddi arni sy'n arwain i'r pentref. Bydd y gwaith uwchraddio yn edrych ar ddiogelwch ffyrdd ac yn darparu man gollwng plant o flaen yr adeilad fel bod modd cael mynediad diogel i'r safle. |

<table>
<tr>
<td>6.21</td>
<td>Angen gwneud gwaith adeiladu ar Ysgol Friog ar hyn o bryd i ymestyn dosbarth y Cyfnod Sylfaen i ystafell ddosbarth ganol a ddefnyddid yn flaenorol i ddysgu Blwyddyn 3 a 4. Hanfodol i sicrhau darpariaeth ar gyfer dosbarth Cyfnod Sylfaen sy’n tyfu. Ni all y Corff Llywodraethol dalu am y gwaith strwythurol hwn.</td>
<td>1</td>
<td>Mae adeilad a safle Friog mewn cyflwr derbyniol ac nid oes gofynion gwario mwy ar ei gyflwr. Nid oes cyllideb ar gael i uwchraddio’r safle yn ei gyfanrwydd.<br><br>O ran cyfnod sylfaen sy’n tyfu, yn unol â rhagamcanion tair blynedd cyflwynwyd gan y pennaeth ym mis Medi 2014 mae niferoedd y cyfnod sylfaen yn gostwng ychydig:
<table>
<tr><th>Rhagamcanion</th><th>Nifer Disgyblion Yr Ysgol</th><th>Nifer Disgyblion Cyfnod Sylfaen</th><th>Nifer Disgyblion Cyfnod Allwedol 2</th></tr>
<tr><td>Gwir Nifer Medi 2014</td><td>29</td><td>18</td><td>11</td></tr>
<tr><td>Medi 2015</td><td>31</td><td>18</td><td>13</td></tr>
<tr><td>Medi 2016</td><td>29</td><td>17</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Medi 2017</td><td>31</td><td>14</td><td>17</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>6.22</td>
<td>Wrth gyflwyno’r cysyniad o ‘ysgol ardal newydd’ roedd rhywun yn dychmygu rhyw fath o adeilad mawr newydd. Ni allai’r darlun go iawn fod yn fwy gwahanol i hynny. Mae’n wir dweud nad yw’r ‘cysyniad’ hwn wedi cael ei gyfathrebu’n glir i’r cyhoedd. Roedd llawer yn credu am amser hir y byddai yna adeilad newydd. Adroddwyd gan Arwyn Jones, Gohebydd Addysg BBC Wales am y newidiadau ar yr agenda ym Mhowys a llwyddiant yr ‘ysgol wych’:<br>“Un opsiwn yw dod ag ysgolion cynradd at ei gilydd dan yr un to – neu hyd yn oed disgyblion cynradd ac uwchradd ar yr un campws. Mae David Williams yn bennaeth Ysgol Bro Pedr yn Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion ac mae’n gyfrifol am blant o 3 i 19 oed – yr ysgol ddilynol gyntaf yng Nghymru.<br>Mae’n dweud fod yna fanteision wrth dracio cynnydd disgyblion a bod disgyblion iau yn cael defnyddio cyfleusterau arbenigol, athrawon a chael eu mentora gan fyfyrwyr hŷn.” “Roeddem yn ffodus o gael dwy ysgol lwyddiannus – cynradd fawr ac uwchradd fawr – yn dod at ei gilydd ar yr un campws ac roeddem yn gallu lleddfu’r pryderon ynghylch cyfathrebu a phellter” meddai.<br>Dywed Mr Williams mai dim ond o’i brofiad o y gall siarad a bod pob cymuned yn wahanol.”<br>Y gwahaniaeth sylweddol yn Nolgellau yw fod y 2 ysgol a fyddai’n creu craidd addysg yn yr ardal yn ddwy ysgol goch. Oni ddylai Cyngor Gwynedd fod yn datrys y broblem hon yn gyntaf cyn cau’r ysgolion bach llwyddiannus yn y dalgylch? Mae’n bwysig nodi, fel y dywed Mr Williams fod pob cymuned yn wahanol, nid yw un ateb yn diwallu anghenion pob cymuned.</td>
<td>1</td>
<td>Mae angen bod yn glir o’r ffordd mae’r cynnig yn ei weithredu. Mae pob ysgol yn y dalgylch yn cau. Felly mae son am ddwy ysgol goch yn dod at ei gilydd i greu craidd yr Ysgol Ddilynol yn anghywir. Mae’r Cyngor yn ymwybodol o bryderon yn gysylltiedig ag ysgolion yn nhref Dolgellau ei hun ac mae hyn yn un o’r rhesymau pam bod yr addysg yn ei ffurf bresennol yn hollol anghynaladwy. Mae’r safleoedd yn parhau i ddarparu addysg ond bydd yn rhan o ysgol hollol newydd. Bydd gan yr ysgol un pennaeth, un corff llywodraethol, strwythur staffio newydd arloesol, polisïau newydd a chyfle arbennig i allu sefydlu trefniadau cadarn llwyddiannus o’r cychwyn cyntaf.<br><br>Ar gychwyn trafodaethau rhai blynyddoedd yn ôl roedd ymchwil yn cael ei gwblhau i geisio darganfod safle fel y gallai disgyblion cynradd y dalgylch gael eu lleoli gyda’i gilydd neu bod modd creu Ysgol Ddilynol i ddisgyblion y dref ar un safle, ond yn anffodus nid oes safle posib i’w ddatblygu. Mae’r ardal yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri, nid yw llawer o’r tir yn wastad ac mae ardaloedd eang o dir o dan ddŵr am gyfnodau’r flwyddyn pan fydd llifogydd. Adroddwyd hyn i’r PAD cryn amser yn ôl gan egluro pam nad oedd un safle i’r dalgylch yn bosib a thrafodwyd posibilrwydd o fodelau aml-safle.<br><br>Mae’r Cyngor yn cytuno bod cymunedau’n wahanol a bod angen addasu model i sicrhau ei fod yn briodol i’r ardal benodol. Mae’r Cyngor yn credu fod hyn wedi ei wneud. Mae’r model Ysgol Ddilynol – fel yr un y cyfeirir ato yn Ysgol Bro Pedr – wedi’i addasu i gwrdd â gofynion dalgylch Y Gader. Nid oes modd defnyddio un safle mawr, felly mae’r safleoedd presennol yn cael eu defnyddio. Mae awydd lleol yn y dalgylch i barhau ag addysg wledig a chadw pellteroedd teithio</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | i’r isafswm, felly mae 4 safle gwledig yn parhau. |
| 6.23 | *‘Nid yw’n bosibl defnyddio safle Ysgol Clogau gan fod y safle yn rhy fach, yn erbyn wyneb y graig a phrif ffordd ar y flaen – nid oes lle i godi estyniad addas’.* Os ydym yn ystyried y ffaith nad yw’n costio mwy i addysgu plentyn mewn ysgol o 30 nag mewn ysgol o 100, yna mae angen edrych ar ymchwil yr Athro Hattie yn ei adroddiad. Dros 12 mlynedd, bu’r Athro Hattie yn edrych ar 815 o astudiaethau ynghylch yr hyn sy’n gwneud addysg yn effeithiol: ‘*Mae’r ffactorau mwyaf cadarnhaol yn brin, a’r prif rai ydy perthynas gyda phobl, ansawdd yr ymwneud, gwaith heriol gan athrawon sy’n adnabod y disgyblion yn dda. Roedd bron pob ysgol a threfn dosbarth yn ymddangos yn isel ar Raddfa Hattie yn cynnwys adeiladau. Credwn fod yr astudiaethau hyn yn cadarnhau ein tystiolaeth mai athrawon a rhieni yw’r prif fanteision ar gyfer disgyblion ifanc a’r targed mwyaf doeth ar gyfer buddsoddi.’ Dyfyniad gan sefydliad Ysgolion Bach Cenedlaethol ‘Adeiladau ar gyfer y dyfodol/addas i bwrpas’: ‘Dau astudiaeth sylweddol, un yn cynnwys 900 o ysgolion gan Price Waterhouse Coopers ar gyfer y DCSF yn 2003 a’r ail gan Brifysgol Newcastle ar gyfer y Design Council yn 2005. Nodwyd manteision posibl adeiladau a chyfleusterau modern ond roeddent yn fwy parod nag Estyn yn 2007 a ddyfynnir gan y Pwyllgor RD i ystyried a pharchu grym nifer o ffactorau eraill sy’n cyfrannu at gyrhaeddiad disgybl e .e. ansawdd y dysgu, arweinyddiaeth a chefnogaeth rhieni. Ymddengys, os bydd y safonau lleiaf posibl yn bresennol, er enghraifft o ran gofod, awyru ac ati, nid oedd tystiolaeth glir fod ‘symud o Ford i Ferrari’ yn cael unrhyw effaith ar berfformiad disgybl.’* | 1 | Mae’r Cyngor yn ceisio darparu adeiladau o ansawdd ar gyfer addysg gynradd o fewn y Sir trwy strwythuro cynlluniau, darparu ystafelloedd addas ar gyfer penaethiaid ac athrawon, sicrhau mynediad at gaeau chwarae a neuaddau addas ar gyfer plant. Bydd yn ofynnol hefyd i adeiladau gydymffurfio gyda gofynion Cyfnod Sylfaen a gofynion y cwricwlwm.<br><br>Mae adroddiad ESTYN *“Gwerthuso perfformiad ysgolion cyn ac wedi symud i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd*” (2007) yn cadarnhau’r farn uchod. Mae’r adroddiad yn nodi bod ysgolion sydd â’u hadeiladau wedi cael eu hadnewyddu yn sylwi bod gwelliant ym mherfformiad a chyrhaeddiad eu disgyblion. Mae hefyd yn nodi bod adroddiadau Estyn ar ysgolion unigol yn dangos bod ansawdd yr addysgu wedi gwella, bod moral y staff yn uwch, bod presenoldeb yn gyson a bod ymddygiad wedi gwella. Ac yn ychwanegol at hyn, bod adeiladau sydd wedi eu gwella yn cynnig gwell dewis a darpariaeth ar gyfer addysg o fewn yr ysgol a hefyd y gweithgareddau a gynhelir cyn ac ar ôl oriau ysgol.<br><br>Ein disgwyliad ni yw bod yr “amgylchedd dysgu” ar gyfer plant ac athrawon y Sir - mewn geiriau eraill cyflwr yr ysgol, ystafell dosbarth, ystafell staff, darpariaeth chwarae - oll yn cwrdd â gofynion dysgu ac addysgu'r unfed ganrif ar hugain. Mae gwir bryder ynghylch cyflwr ac addasrwydd ysgolion cynradd y Sir. Mae’r adeiladau angen buddsoddiad sylweddol er mwyn ymateb i ofynion iechyd a diogelwch ac er mwyn cwrdd â’r safonau priodol. Mae nifer o ysgolion mewn cyflwr gwael a byddai yn golygu costau sylweddol i uwchraddio ac addasu adeiladau ysgolion y Sir fel eu bod yn cwrdd â gofynion y cwricwlwm newydd a’r safonau disgwyliedig. |
| 6.24 | Gellid ystyried codi estyniad o faint rhesymol dyweder ar gyfer 50-60 o ddisgyblion (y nifer gorau o ddisgyblion yn ôl ymchwil yng ngogledd Ewrop) yna fe ellid adeiladu ar y tir tu ôl Ysgol Clogau. Mae penseiri lleol wedi edrych ar y safle, ac wedi nodi nad craig sydd yno ond tir serth llawn tyfiant. Mae’r hen adeilad, sydd wedi gwrthsefyll amser, yn cynnwys ffenestri gwreiddiol mawr ac mae’r golau a’r awyru yn yr adeilad yn fwy na digonol. Mae nenfydau uchel i’r dosbarthiadau sy’n rhoi digon o le ar gyfer arddangos gwaith plant a chymhorthion addysgol ysgogiannol eraill. A fydd estyniad newydd i’r ysgolion eraill yn darparu gofod mor ddiddorol? Yn bendant fe fydd parhau i ddefnyddio’r adeiladau cadarn hyn yn gwrthsefyll treigl amser yn fwy na rhyw estyniadau | | Ystyriwyd nifer o safleoedd cyn argymell y safleoedd sydd yn rhan o’r cynnig hwn. cyn dod i gasgliad mai safle Llanelltyd oedd yr unig safle o faint digonol ar gyfer cwrdd â’r gofynion ar ochr gorllewinol y dalgylch. Yn ogystal â hyn, mae ychydig o dir gwastad ar gael i ymestyn y safle.<br><br>O ran cwmpas y gwaith yn Llanelltyd, bydd yr adeilad i gyd yn cael ei uwchraddio’n sylweddol er mwyn gallu darparu’r stafelloedd o faint cywir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bychain. | | |
| 6.25 | Yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru mae'n nodi:<br>*'..costau ac arbedion oes yr adeilad perthnasol, ac o'i gymharu â chostau ac arbedion cysylltiedig â chynnal a chadw'r status quo'*<br>Nid yw costau oes, o ystyried oedran yr adeiladau cyfredol, wedi cael eu hystyried. Ystyrir fod Ysgol Clogau angen gwerth £40,000 o gostau cynnal a chadw o gymharu ag adeilad cymharol newydd Ysgol Y Gader sydd angen gwerth £439,000 o gynnal a chadw wrth gefn. Pan fydd y costau hyn yn cael eu rhannu gydag oedran yr adeiladu, nid yw'n gwneud synnwyr ariannol i gael gwared ar adeiladau cadarn a ffafrio adeiladau mwy 'dros dro' na fydd â'r un oes. Lle mae ffigurau cyfnod adeiladau wedi cael eu hystyried?<br>Mae angen dysgu plant i barchu a mwynhau treftadaeth Cymru yn yr hen adeiladau ysgol hyn, yn enwedig pan fo'r ysgol mor llwyddiannus ac yn llawn. | 1 | Ystyriwyd nifer fawr o wahanol opsiynau yn ystod trafodaethau cychwynnol, gan gynnwys lleoli holl disgyblion cynradd y dalgylch ar un safle (un ysgol gynradd fawr) neu leoli rhai o ddisgyblion oed cynradd y dalgylch ar safle'r ysgol uwchradd. Penderfynwyd nad oedd yr opsiynau hyn yn ymarferol ac roedd diffyg safle addas yn rhan o'r penderfyniad yma.<br><br>Wrth i ymchwil cael ei gwblhau yn gysylltiedig â safleoedd ystyriwyd cyflwr ac addasrwydd adeiladau a safleoedd yr ysgolion presennol – roedd hyn yn cynnwys oedran yr adeiladau.<br><br>Nid oes bwriad i godi unrhyw adeilad dros dro fel rhan o'r buddsoddiad.<br><br>Mae'r costau cynnal a chadw a wynebir yn ysgol y Gader yn sylweddol uwch na'r rhai yn Ysgol Clogau gan fod yr adeiladau yn sylweddol fwy o ran arwynebedd. |
| 6.26 | Ni nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol fod Ysgol Clogau hefyd yn eiddo i Gyngor Gwynedd. | 1 | Mae teitl Ysgol Clogau yn perthyn i Gyngor Gwynedd. |
| 6.27 | Ymddengys na chafodd ffactorau amgylcheddol eu cynnwys. Mae'r dalgylch ym Mharc Cenedlaethol Eryri a dylai unrhyw ddatblygiadau gael eu hystyried nid yn unig o ran cadwraeth ond hefyd o ran cynaladwyedd a threftadaeth ddiwylliannol. Pa gasgliadau ddylid eu gwneud o'r ffaith nad oes sôn am faterion amgylcheddol? / O gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2014, *'Ymatebwyd nad yw'n ofynnol, yn unol â Chòd Trefniadaeth - ychwanegwyd fod agweddau amgylcheddol yn cael eu cyfarch fel rhan o ddogfennaeth ehangach y prosiect'* / Nid yw'r rhain yn ymddangos yn y Ddogfen Ymgynghorol nac yn y Pecyn Cefndirol. | 1 | Wrth gyfeirio at ôl-troed carbon, mae angen ystyried y bydd 4 safle addysgol yn cael eu cau, bydd yn golygu llai o safleoedd i'w gwresogi ac ati.<br><br>Bydd y buddsoddiad yn y 3 safle yn edrych ar wella'r perfformiad ynni yn sylweddol. |
| 6.28 | Pam fod angen gwariant cyfalaf i ddatblygu safle Dolgellau (Cynradd) gan fod nifer sylweddol o lefydd gwag yno yn barod - a oes bwriad yn yr hir dymor i ganoli mwy o Lanelltyd a Rhydymain yn Dolgellau?/ Pam felly cadw'r safle gwledig ar safle nad yw'n gynaliadwy? Nid yw'r rhieni yn cefnogi'r safle ar hyn o bryd gan nad yw'n hygyrch ac ni fydd hyn yn newid drwy gau ysgol Brithdir. Mae safle Rhydymain yn parhau ar y cyrion ac nid yw'n ddewis gan rieni. Pam gwario'n ofer fel hyn? A ydych chi'n gobeithio y bydd safle Rhydymain yn cau yn y dyfodol agos ac y bydd rhaid trosglwyddo pawb i'r dref? Ai dyma yw eich gweledigaeth? | 2 | Bydd y buddsoddiad yn Nolgellau yn delio gyda phroblemau traffig a pharcio difrifol. Bydd hefyd yn darparu dosbarthiadau o'r maint cywir yn hytrach na nifer o stafelloedd bychan fel sy'n bodoli ar hyn o bryd. |
| 6.29 | Wedi clywed bydd angen estyniadau newydd a phethau fel meysydd parcio | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ychwanegol a phont dros y ffordd ar yr ysgolion newydd. Cylchdro newydd? Mae'r rhain yn costio swm anferthol o arian. (Rwy'n deall mai cost cyfalaf ydy hyn ac nid costau staffio). Ond a oes yna fodd i'r gyllideb gael ei hail-addasu er mwyn arbed ein hysgolion gwledig bychain? | | |
| **7** | **Llywodraethu a Mynediad** | | |
| 7.1 | Rhai rhieni wedi gofyn am gael symud eu plant o ysgolion eraill i Ysgol Clogau ond eu bod wedi cael gwybod nad yw hynny'n bosibl gan y bydd yr ysgol yn cau? | 1 | Does gan yr Awdurdod ddim cofnod o wrthod unrhyw cais mynediad i Ysgol Clogau yn y 3 blynedd diwethaf. Mae'r Awdurdod wedi derbyn plant i ysgolion eraill y dalgylch dros y cyfnod yma e.e. cais i Ysgol Machreth. |
| 7.2 | Ni welaf fod cau Ysgol Brithdir yn gwella na chryfhau unrhyw un o'r chwech amcan ac yn sicr trwy ddileu hawliau rhiant i ddewis ysgol i'w plant mae Cyngor Gwynedd yn sefydlu trefn lle mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am benderfynu pa safle mae'r plant am fynychu - sut gall hyn gyfrannu at unrhyw un o'r chwech amcan? Mae gennyf blentyn yn Brithdir a bwriadaf i'm plant i gyd fynd yno. Gan ein bod yn byw yn Dolgellau cymeraf y bydd rhaid, yn unol â'ch rheoliadau, ddisgwyl i'r Corff Llywodraethol benderfynu pa safle fydd yn addas iddynt fynychu - os yr agosaf yna Dolgellau. Y drefn yn welliant ac am gryfhau perfformiad a cyrraedd yr amcanion? Byddai symud safle ysgol i unrhyw un o'r plant yn creu problemau seicolegol ac addysgol, heb sôn am effaith ar hapusrwydd yr aelwyd! | 1 | Pe bai'r cynnig yn cael ei gadarnhau, un ysgol fydd yn bodoli yn nalgylch Y Gader.<br><br>Rhagwelir bydd disgyblion presennol ysgolion Machreth, Brithdir a Ieuan Gwynedd yn mynychu safle Rhydymain yr ysgol ddilynol newydd. Yr Awdurdod sydd yn penderfynu mynediad i'r ysgol ac mae'n wir mai corff llywodraethol yr ysgol fydd yn rheoli mynediad y safleoedd penodol. Mae hyn wedi ei nodi'n gyson yn ystod y trafodaethau ad-drefnu yn y dalgylch.<br><br>Bydd angen i'r corff llywodraethol benderfynu ar ba sail y byddent yn rheoli mynediad ond bydd cymorth gan yr adran addysg. Mae'n debyg y byddai'r Awdurdod yn argymell dilyn polisi mynediad y Sir.<br><br>Yn ystod trafodaethau cychwynnol ad-drefnu ysgolion derbyniwyd y neges bod angen parhau i gynnig addysg wledig. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau gydag addysg wledig yn y dalgylch, wrth barhau â safleoedd Dinas Mawddwy, Llanelltyd, Rhydymain a Friog. O ran lleoedd yn y safleoedd gwledig, rhagwelir capasiti o 45 yn Friog, 75 yn Llanelltyd, 49 yn Ninas Mawddwy a 70 yn Rhydymain. |
| 7.3 | Bydd cau ysgol Brithdir yn arwain at lai o rieni yn cael y dewis o addysg wledig i'w plant. Sut y gallwch chi ddwyn hawl fel hyn oddi ar riant? Llywodraethwyr yr ysgol fydd yn pennu mynediad i bob safle ar sail agosatrwydd. | 1 | |
| 7.4 | Addawyd byddai disgyblion presennol Ysgol Brithdir a Llanfachreth i gyd yn cael mynediad i safle Rhydymain heb orfod gwneud cais gan mai ar y rhifau presennol y penderfynwyd ar y capasiti. Amwysedd erbyn hyn a llawer o rieni gyda'r argraff na fydd eu plant yn cael mynd gyda'u ffrindiau i Rhydymain gan eu bod yn byw y tu allan i'r dalgylch / Rhaid iddynt wneud cais i'r Llywodraethwyr? Rhaid iddynt gael eu dadwreiddio a symud i safle cwbl ddiarth? / Cyngor yn gwarantu eu bod yn cael parhau eu haddysg gyda'u cyfoedion? / Rwyf yn byw yn Nolgellau ond gyda chysylltiadau teuluol agos yn Brithdir, a fyddaf yn cael dewis pa ysgol mae fy mhlant yn ei mynychu? Ac a fydd gan blant fy mhant ddewis? | 3 | |
| 7.5 | Ganllwyd yn pryderu yn fawr mai dewis y Corff Llywodraethol fydd pa safle fydd plant yn cael mynychu | 1 | |
| 7.6 | Byddwch fel Cyngor yn disgwyl i lywodraethwyr yr ysgol gydol oes lenwi llefydd gweigion yn safle Dolgellau yn gyntaf, ar ôl gwario £2.7 miliwn arni | 1 | |
| 7.7 | Ar hyn o bryd mae gan rieni'r dalgylch hawl i ddewis ysgol i'r plant. Rhai pobl sy'n byw yn y dref yn dewis gyrru eu plant i ysgolion llai ac i'r gwrthwyneb. Rwy'n | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymwybodol iawn fod hyn yn ddadleuol, ondonid oes gan bawb hawl i ddewis? Teuluoedd â’r hawl i ddewis! O dan y model arfaethedig yma, ni fydd dewis gan neb. Mi fydd plant yn mynychu’r safle agosaf. Pryderu llawer o bobl. Sefyllfa anodd lle ni fydd opsiwn arall. Bydd rhaid i’r holl safleoedd fod yr un fath er mwyn cysoni profiadau. | | |
| 7.8 | Nid ydym wedi byw yn y Brithdir trwy gydol addysg y plant. Anffodus dim wedi llwyddo i brynu tŷ (her i deuluoedd ifanc). Rrhentu cartref - dim mor sefydlog â bod yn berchen tŷ. Pryder os angen symud ty, ni fydd plant yn cael mynychu safle gwledig - mae dewis i rieni yn hanfodol i ddyfodol addysg. | 1 | |
| 7.9 | Pryder gan Gorff Llywodraethol Friog yw’r safle a ddynodir ar gyfer y plant. Os oes gofyn i bob plentyn ail-ymgeisio am yr ysgol ‘model newydd’, a fyddant yn cael eu hanfon i’r safle agosaf? Llawer o rieni nad ydynt yn gyrru ac yn teimlo’n gryf am anfon eu plant i safle arall pan fydd safle yn y pentref. Gobeithiwn y bydd hyn yn cael ei ystyried wrth lenwi lleoedd mewn safleoedd mwy canolog. | 1 | |
| 7.10 | Pa blant fydd yn ‘cael’ mynychu’r ysgol? Onid yw’r Cyngor yn israddio darpariaeth wledig? Mae plant sydd hyd yn hyn ar gyrion dalgylch Ysgol Brithdir yn agosach o lawer i’r ysgol yn Nolgellau nac i’r safle yn Rhydymain. Beth fydd eu hanes nhw? Mae rhan fwyaf o blant pentref Brithdir ar ffermydd y fro yn agosach i’r dref hefyd. Sut mae’r ysgol newydd, a’r corff llywodraethol yn mynd i oresgyn y problemau hyn? Neu ai hyn yw’r bwriad? Llenwi’r safle yn y dref, ac israddio’r safleoedd gwledig, nes y byddant yn edrych yn anghynaladwy? | 1 | |
| 7.11 | Yn draddodiadol, gan ein bod ar ffin dau ddalgylch gyda chyswllt trên da i Dywyn, mae cyfran o ddisgyblion y Friog bob blwyddyn mynychu Ysgol Uwchradd Tywyn. Prydera llawer o rieni y bydd bod yn rhan o un safle dysgu gydol oes yn rhoi eu plant dan anfantais wrth ymgeisio am le yn yr ysgol uwchradd. Fel Corff Llywodraethol, pryderwn y gall hyn gael effaith ar niferoedd yr ysgol yn y grwpiau blynyddoedd hŷn wrth i rieni baratoi eu plant ar gyfer yr ysgol uwchradd ac ystyried adleoli eu plant i ddalgylch arall yn y sector cynradd. | 1 | Nid yw’r Cyngor yn cytuno bod creu un ysgol ddilynol ddalgylchol yn rhoi plant dan anfantais wrth gyrraedd yr uwchradd. Un o’r ystyriaethau wrth greu’r ysgol yw cael effaith ar y lleihad mewn cyrhaeddiad yn dilyn trosglwyddo o CA2 i CA3 (trosglwyddo o’r cynradd i’r uwchradd) wrth greu gwell dilyniant. Pe bai’r ysgol yn gwneud defnydd gorau o’r adnoddau a’r staff ac yn cynnal sesiynau cynradd ar draws y dalgylch neu fynd â disgyblion hynaf y safleoedd cynradd i’r uwchradd i ddysgu ar adegau – mae’n bosib y bydd yn cryfhau’r cyswllt oedran cyrnadd/uwchradd ac yn gwneud i fwy o ddisgyblion fynychu safle’r uwchradd o gyrion y dalgylch. |
| 7.12 | Adran 15:14 tudalen 62 - ddim yn cyfeirio at fynediad disgyblion blwyddyn 7 o tu allan i’r dalgylch – 39% o fyfyrwyr Ysgol y Gader...nac yn cyfeirio at pa drefniadau ellid eu gweithredu er mwyn integreiddio’r myfyrwyr hynny a dreuliodd eu blynyddoedd cynradd mewn ysgolion y tu allan i’r dalgylch. | 1 | Cydnabod nad oes cyfeiriad penodol at ddisgyblion blwyddyn 7 sy’n mynychu o tu allan dalgylch Ysgol Y Gader yn y ddogfen ymgynghorol. Derbyniwyd y sylw yma yn ystod y cyfnod ymgynghori ac eglurwyd y bydd angen i’r disgyblion hyn wneud cais mynediad i’r Awdurdod yn unol â’r drefn bresennol. |
| 7.13 | Yn Friog, rydym yn ei chael yn anodd i gael niferoedd ar y Corff Llywodraethol. Achosa hyn gryn bryder i ni gan teimlwn y bydd yn gam mawr iawn i Lywodraethwr ddod yn aelod o’r Corff Llywodraethol cysgodol ac eto hyn yn | 1 | Mae’n wir bod enghreifftiau o waith da gan lywodraethwyr y dalgylch, ond mae problemau hefyd o ran prinder llywodraethwyr (fel a nodwyd yma yn un o’r gwrthwynebiadau). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hanfodol i sicrhau bod safle'r ysgol a'i ddisgyblion yn cael ei gynrychioli. | | Byddai creu un corff llywodraethol yn lleihau'r nifer o lywodraethwyr sydd eu hangen a bydd modd creu is-baneli o aelodau i edrych ar agweddau penodol. Bydd angen i'r corff roi sylw i bob safle yn yr ysgol a bydd y gwaith yma'n cael ei asesu fel rhan o arolygiadau Estyn yr Ysgol Ddilynol Dalgylchol. Bydd aelodau'r corff llywodraethol cysgodol yn cael eu dewis o aelodau'r cyrff llywodraethol presennol a bydd yr Ysgol Newydd angen cynrychiolaeth deg ar draws y dalgylch. |
| 7.14 | Mae llywodraethwyr yn rhoi eu hamser yn wirfoddol i gefnogi'r ysgolion, yr athrawon a'r disgyblion. Yn achos Ysgol Clogau, fe wnaeth Llywodraethwyr gael sgôr uchel iawn am eu hymwneud agos gyda'r ysgol yn ystod arolwg diwethaf ESTYN. Sut allwn ni sicrhau y bydd y 'safleoedd' hyn yn gweithredu heb ymwneud Llywodraethwyr? Un o ddyletswyddau Llywodraethwyr yw edrych yn rheolaidd a rhoi sylwadau gwrthrychol ar waith disgyblion yn eu llyfrau ac ar waith sydd wedi'i arddangos mewn dosbarthiadau. Sut all un corff llywodraethol gyflawni hyn ym mhob safle? Pa fath o arbediad ydy hwn? Nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn cydnabod nac yn nodi swmp y gwaith na'r effaith y mae Llywodraethwyr yn ei gael ar ysgolion rwan. Hyn yn gamgymeriad ac yn wallus. | 1 | |
| **8** | **Y Broses Statudol** | | |
| 8.1 | Eglurwyd inni nad oes modd i chi egluro ar ba sail y gallwn wneud apêl ac eto mae'r cyfnod apelio eisoes wedi cychwyn. Mae hyn yn swnio'n annheg ac yn sylfaenol annemocrataidd. A wnewch chi roi gwybod inni plîs pa bryd a lle bydd y wybodaeth hon ar gael? | 1 | Mae'r Cyngor wedi cwblhau'r prosesau statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.<br><br>Roedd gwybodaeth am y prosesau statudol yn y ddogfen ymgynghori statudol ac roedd y rhybuddion statudol yn cynnwys yr holl wybodaeth ar gyfer gwrthwynebu'r cynnig.<br><br>Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad i gynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol ar sail yr opsiwn ffafriedig. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori statudol, oedd yn cynnwys manylion y cynnig, ar 10 Hydref 2014. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori i dderbyn ymatebion hyd at 13:00 ar dydd Llun 24 Dachwedd 2014. Yn ystod yr ymgynghoriad gallai ymatebion gynnwys sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd ar y cynnig (e.e. y model, y safleoedd, categori ayyb.) neu gynnig opsiynau amgen.<br><br>Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 13 Ionawr 2015, lle penderfynwyd symud ymlaen â'r cynnig presennol. Yn yr adroddiad ymgynghori, crynhowyd materion a godwyd gan yr ymgynghorai a rhoddwyd ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Cyhoeddwyd yr adroddiad ymgynghori ar wefan y Cyngor ac mae copïau caled ar gael ar gais. Cafodd rhieni, gwarchodwyr, staff a llywodraethwyr y deg ysgol wybod bod yr adroddiad ymgynghori ar gael. Cafodd nifer o gynrychiolwyr asiantaethau eraill wybod pan oedd yr adroddiad ar gael hefyd e.e. Esgobaeth Bangor yr Eglwys yng Nghymru, Cyngor Powys, Estyn, Gweinidogion Cymru, Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad perthnasol ac ati.<br><br>Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet barhau |
| 8.2 | Allwch chi plîs ddweud wrthyf i a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud er mwyn cadw ein hysgol leol, wledig a llwyddiannus a hynod arbennig ar agor? | 1 | |
| 8.3 | Mae'r holl broses ymgynghori yn seiliedig ar anghysonderau mawr a diffyg bwriad. Felly rydym yn mynnu fod safle Brithdir yn cael ei ailystyried / Gofynnaf i chi ailystyried cau Brithdir yn ffurfiol, a'i chadw ar agor fel un o chwe safle yr ysgol newydd. | 2 | |
| 8.4 | Mynnwn fod y penderfyniad yn cael ei roi yn nwylo'r Cynulliad fel ein bod yn cael gwrandawiad teg / Gyda phob parch, dylai'r broses Apêl gael ei gweinyddu gan gorff 'annibynnol' er mwyn rhoi barn deg a diduedd. Trwy gyfeirio ein hapêl at Bennaeth Addysg Gwynedd, sef yr union gorff sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r cynnig hwn, nid oes cyfle i gael ystyriaeth teg i'n apêl / Rwy'n gobeithio'n arw y byddwch yn gofyn am gyngor allanol wrth ystyried y mater yma. Teimlaf fod angen llygaid ffres i oruchwylio'r broses /Rydym am i'r Apêl hwn gael ei ystyried gan 'Banel Apeliadau Annibynnol' gan y byddai hynny yn 'deg o ran trefniadaeth'. | 3 | |
| 8.5 | Pob lwc gyda'r ad-drefnu a gobeithio y cawn ni drafodaeth mwy a agored a gonest yn fuan. | 1 | |
| 8.6 | Mae'r broses ymgynghori hon wedi cael ei chychwyn oherwydd penderfyniad i atal y datblygiad arfaethedig yn y Brithdir yn 2011 (ardal ddwyreiniol dalgylch y Gader). Cafodd y datblygiad arfaethedig hwn ei ddiystyru oherwydd "craig" yn y | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cae lle'r oedd estyniad newydd i'w godi. | | gyda'r cynnig a chyhoeddi rhybuddion statudol i'r perwyl hwn. Cyhoeddwyd y rhybuddion ar 25 Chwefror 2015 gan gychwyn **"**cyfnod gwrthwynebu**"** o 28 diwrnod o ddiwrnod cyhoeddi'r cynnig, sef tan 25 Mawrth 2015. Roedd cyfle i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Rhoddwyd y rhybuddion ar wefan Cyngor Gwynedd ac yn nerbynfa'r 10 ysgol sydd ynghlwm â'r cynnig. Anfonwyd copïau i'r ysgolion, rhieni a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr. Roedd copïau caled ar gael ar gais gan y swyddfa trefniadaeth ysgolion.<br><br>Yn dilyn dirwyn y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 25 Mawrth 2015, dadansoddwyd y gwrthwynebiadau yn y tabl hwn a lluniwyd crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau i'w gyhoeddi ar ffurf 'adroddiad gwrthwynebu'. Bydd yr adroddiad gwrthwynebu hwn yn cael ei gyflwyno i sylw'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2015. Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei roi ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais o 11 Mai 2015 ymlaen. Bydd rhieni, gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y deg ysgol, yn ogystal â nifer o gynrychiolwyr asiantaethau eraill, yn cael gwybod pan fydd yr adroddiad gwrthwynebu ar gael.<br><br>Yn ei gyfarfod ar 19 Mai, bydd angen i'r Cabinet wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig. Pan fydd y Cabinet wedi gwneud ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi yn ysgrifenedig ac yn cynnwys y rhesymau dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd rhieni, gwarchodwyr, staff a llywodraethwyr y deg ysgol, yn ogystal â nifer o gynrychiolwyr asiantaethau eraill, yn cael gwybod am y penderfyniad.<br><br>Mewn rhai achosion – yn dilyn penderfyniad terfynol y Cabinet – mae'n bosib i'r canlynol gyfeirio'r cynnig i gael ei ystyried gan Weinidogion Cymru:<br>• Awdurdod Lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno<br>• Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni<br>• Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion<br>• Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion<br>• Sefydliad addysg bellach mae'r cynigion yn effeithio arno<br><br>Bydd angen i'r cyrff sy'n atgyfeirio nodi pam eu bod o'r farn bod y penderfyniad a wnaeth yr awdurdod lleol yn anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ydy'r cynigion yn effeithio ar y cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynigion. |
| 8.7 | Mae angen ymchwiliad annibynnol i'r mater neu atal y broses gyfan. | 1 | |
| 8.8 | Heb ailadrodd holl ffeithiau, mae'n amlwg fod y broses ymgynghori wedi bod yn ffars ac mae'r Cyngor yn ymddangos fel petaent wedi ymddwyn yn hynod o siomedig / Grŵp Rhieni Ysgol Brithdir yn teimlo, oherwydd y diffyg parch at ein pryderon cwbl ddiffuant a dilys, na fydd gennym ddewis ond mynd at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os na dderbyniwn ymateb boddhaol i'r pryderon uchod / Oherwydd bod nifer sylweddol o elfennau wedi cael eu gadael allan a diffyg gofal yn ystod y Broses Ymgynghori, rydym am i'r cynnig gael ei ail-ystyried a bod atebion ar gael i'w trafod yn agored. Mae'r risgiau o fwrw ymlaen gyda'r cynnig fel mae'n sefyll yn sylweddol ac nid yw'r holl oblygiadau wedi cael eu cyflwyno ac felly ni allwn ond dyfalu nad ydynt wedi cael eu hystyried yn llawn. All Gwynedd fforddio cymryd y risg hwn? Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion yn nodi,'*Dylai unrhyw achos dros gau ysgol fod yn gadarn ac er budd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.'* Nid yw'r broses Ymgynghori wedi dangos unrhyw un o'r rhain. Nid yw addysg wedi bod yn flaenoriaeth ar unrhyw adeg yn y broses hon. | 3 | |
| 8.9 | Rwyf wedi gofyn i'n haelod lleol ddod i'r ysgol i egluro'r cynigion yn fanwl wrth y rhieni ond efallai y byddai'n well gennych chi ddod eich hun? Rwyf yn sicr y byddai'r holl rieni yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddeall y rhesymeg yn fwy na'r hyn | 1 | Mae'r cynnig wedi'i egluro mewn dogfen ymgynghori statudol gynhwysfawr a 2 diwrnod agored wedi eu cynnal rhwng 11-7 ar 5 a 6 Tachwedd 2014 pan oedd cyfle i unrhyw un ddod i dderbyn gwybodaeth neu holi swyddogion y Cyngor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | maen nhw'n ei ddeall ar hyn o bryd. | | Croesawyd dros 100 o bobl i'r diwrnodau agored hyn. |
| 8.10 | Ddiolchgar i chi dderbyn y llythyr hwn fel gwrthwynebiad ysgrifenedig o'r Rhybudd o gynnig i gau Ysgol Brithdir. Gwrthwynebaf yn gryf fel rhiant y bwriad i gau Ysgol Brithdir a gweithredu penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd i sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 Y Gader ar 1 Medi, 2017 / Ysgrifennu'r llythyr hwn er mwyn mynegi fy ngwrthwynebiadau i gau Ysgol Brithdir – mae gennym blant yn yr ysgol, teimlo fod proses Cyngor Gwynedd wedi'n trin ni'n wael. | 2 | Mae'r Cyngor wedi derbyn pob ymateb ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu fel gwrthwynebiad. Derbyniwyd 53 o wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod. |
| 8.11 | Un pryder mawr yw nad oes unrhyw un yn y Cyngor yn lleisio ein barn ni gan fod y ddau gynghorydd o'r ardal yn gorfod eithrio oherwydd eu bod yn perthyn i Brifathrawes Brithdir a Rhydymain. Ni ddaeth neb o'r Swyddfa Drefniadaeth i drafod er iddynt gael y cynnig. Gwelwch ein rhwystredigaeth a'r teimlad ein bod yn cael ein anwybyddu. | 1 | Cyflwynwyd pob gohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn ei gyfanrwydd i sylw'r Aelodau Cabinet. Dadansoddwyd eu cynnwys gan roi ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Rhoddwyd sylw penodol i'r prif faterion yng nghorff yr adroddiad Cabinet a drafodwyd ar 13 Ionawr 2015.<br><br>Bydd pob gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn cael eu cyflwyno i Aelodau'r Cabinet. Yn y tabl hwn, dadansoddwyd y materion o fewn y gwrthwynebiadau ac ymatebwyd iddynt. Bydd y tabl hwn yn cael ei gyflwyno i sylw'r Aelodau Cabinet ynghyd ag adroddiad ffurfiol. |
| 8.12 | Ni wnaethon ni weld unrhyw gynghorydd Plaid Cymru o Wynedd yn ein cyfarfod protest, sy'n gwneud inni feddwl fod yna agenda gudd i gynlluniau Gwynedd. | 1 | Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod unrhyw gynnig i newid unrhyw ddarpariaeth yn achosi pryder a bod cynnig i newid darpariaeth addysgol yn gallu creu ansicrwydd. Dyna pam bod y broses statudol wedi'i dilyn, fel bod modd i bobl lleol gael rhoi eu sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu os dymunir. |
| 8.13 | Welsoch chi'r gymuned yn protestio yn erbyn cau Ysgol Brithdir? Cymdogion yr ysgol, sy'n byw yn y 4 tŷ agosaf, yno ar y noson yn cefnogi cadw'r ysgol ar agor. | 1 | |
| 8.14 | Rwy'n ysgrifennu i fynegi pryderon mawr am gau ysgol Brithdir. Mae yna lawer o anghysonderau, gan gynnwys stori'r graig, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ystadegau parthed nifer disgyblion ac ati. | 1 | Wrth gwblhau ymchwil cyn cychwyn y broses rhoddwyd cyfle i benaethiaid ysgolion y dalgylch wirio ystadegau'r pecyn ystadegol. Gan fod y broses statudol yn cymryd amser, cymerwyd ciplun o ddata am un flwyddyn academaidd ac yna defnyddiwyd y rhain yn gyson, i osgoi unrhyw ddryswch.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod fod yna rwystredigaeth ar lawr daear gan fod cynnig blaenorol heb ei wireddu.<br><br>Mae'n wir fod nifer o resymau o blaid datblygu safle'r Brithdir a phenderfynodd y Cyngor ei gynnwys fel rhan o'r cynnig gwreiddiol. Yn anffodus, darganfuwyd cyfyngiadau a phroblemau sylweddol a olygai gynnydd sylweddol yng nghost datblygu'r safle a phenderfynwyd peidio â pharhau â'r cynnig i sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle yn y Brithdir a Dinas Mawddwy.<br><br>Bwriedir sicrhau buddsoddiad cyfalaf o £4.34miliwn ar safleoedd addysgol yn nalgylch Y Gader ac mae'r hyn a glustnodwyd fel rhan o'r cynllun blaenorol bellach yn rhan o'r swm yma. Gan ystyried y sefyllfa economaidd mae'r Cyngor yn ei hwynebu, ystyrir hyn yn ymrwymiad ariannol sylweddol. |
| 8.15 | Annilysrwydd yr ail broses ymgynghori oherwydd eich bod wedi rhoi'r cynnig gwreiddiol o'r neilltu heb ddihysbyddu a gwneud pob ymdrech. Rydym wedi ein siomi i'r byw gyda'r diffyg parch a'r diffyg bwriad ac ymdrech i symud ymlaen gyda'r cynnig gwreiddiol i ddatblygu Ysgol Brithdir fel y safle amlwg a chynaliadwy i gynnal addysg wledig yn nwyrain dalgylch y Gader | 2 | |
| 8.16 | Ysgol Brithdir wedi cael ei ddewis fel y safle mwyaf cynhaliadwy o ganlyniad y Panel Adolygu Dalgylch diwethaf. Rwyf yn gyn riant lywodraethwr oedd yn aelod o'r panel ac felly yn gyfarwydd a'r broses a ddilynwyd, ynghyd a'r gwaith ymchwil a gafodd ei wneud cyn cyrraedd y penderfyniad hwn. Ar 15 Ragfyr 2011 bu i'r Cyngor Llawn cymeradwyo'r argymhelliad o ddefnyddio Ysgol Brithdir fel y safle ochr Ddwyreiniol y Gader / Oherwydd gwrthwynebiadau yn ystod y Cyfnod Rhybudd Statudol o 5 Mawrth 2012, bu rhaid cyfeirio y penderfyniad terfynol at y Gweinidog Addysg a Sgiliau sef Leighton Andrews. Yn Tachwedd 2012 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad o gadw'r Ysgol ym Mrithdir | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (gyda addasiadau) er mwyn sicrhau addysg wledig i'r dyfodol / Yn dilyn y penderfyniad daeth swyddogion y Cyngor i ddangos y cynlluniau i'r plant a oedd wedi gwirioni yn lân. Cafwyd cyfarfod gyda rhieni - oedd yn falch fod dyfodol ddisglair i addysg wledig yr ardal / Arian ar gyfer datblygu y safle wedi cael ei glustnodi gan y Cyngor, ac nid oedd angen gwneud cais am arian pellach gan y llywodraeth. Felly ble mae'r arian yma wedi mynd?<br>Ar 3 Mai 2012, cafodd Plaid Cymru eu seddi yn ôl yn yr etholiad Cyngor lleol - anodd iawn gennyf gredu byddai penderfyniad Llywodraeth Cymru wedi cael ei droi ar ei ben, os na fyddai hyn wedi digwydd. Disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned wedi cael cam enfawr. Teimlo ein bod wedi cael ein twyllo - fel hyn dylai cynghorwyr drin trigolion yr ardal? | | |
| 8.17 | Siomedig iawn dysgu bod cynllun gwreiddiol 2010 wedi'i ddiddymu. Dylai plant heddiw fod wrthi'n gweithio a chwarae'n hapus yn eu hysgol 21ain ganrif. Sut mae ffasiwn 'u turn' yn gallu bodoli, pan mae hi wedi ei basio mewn ffordd democratic gan lywodraeth genedlaethol? Pam does yna ddim rhesymau cadarn dros hyn? Pwy benderfynodd beidio bwrw mlaen efo'r cynllun? Pwy sydd yn mynd i gyfaddef mai pres yw'r prif reswm? Nid craig na chynlluniau / Cafodd penderfyniad 2010 ei gadarnhau gan y Gweinidog Addysg, Leighton Andrews. Yn dilyn hynny, aethoch ati ar gryn frys i ddatblygu model dalgylch cyfan, gan ruthro proses mor bwysig er mwyn cael ateb sydyn yn lle'r un blaenorol. | 2 | |
| 8.18 | Cyngor Gwynedd wedi mynd yn groes i ddymuniadau lleol wrth ein gorfodi i ymgymryd â'r model o Ysgol Ddilynol. Yn ôl ar ddechrau'r broses hirfaith hon, deng mlynedd bellach, roedd ysgolion, llywodraethwyr a rhieni yn dalgylch yn bendant nad oeddent yn dymuno gweld ysgol gydol oes / ddilynol yn yr ardal hon ac eto trodd y Cyngor glust fyddar ac anwybyddu'r farn leol. Mae'n amlwg nad yw Cyngor Gwynedd yn gweithredu yn ddemocrataidd. | 1 | Mae ad-drefnu addysg o fewn dalgylch y Gader wedi cychwyn ers peth amser. Yn sgil yr holl drafodaethau, mae gweledigaeth ar gyfer y dalgylch wedi dod i'r amlwg. Mae'r weledigaeth yn nodi beth mae'r Cyngor yn anelu i'w gyflawni yn yr ardal.<br><br>Nod y Cyngor yw creu darpariaeth addysgol chadarn a chynaliadwy i'r dyfodol gan ystyried bod consensws wedi ei gyrraedd ers cryn amser nad yw'r ddarpariaeth gyfredol yn gynaliadwy yn ei ffurf bresennol. |
| 8.19 | Broses ddiweddaraf i ddod i'r canlyniad yma, wedi bod yn un dan-din sydd wedi cymeryd lle tu ôl i ddrysau wedi cau. Does dim un o gynghorwyr lleol Plaid Cymru wedi dangos cwrteisi nag asgwrn cefn, drwy ddod allan i'r gymuned i esbonio yr hyn sydd yn digwydd. Dylai fod y Cyngor llawn yn cael pleidleisio ar fater mor bwysig â hyn. | 1 | Mae'r Cyngor wedi dilyn y drefn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Yn unol â hyn, mae'r penderfyniad wedi'i wneud bod y Cabinet yn gwneud y penderfyniad terfynol. |
| 8.20 | Dylai'r ysgol gael ei newid dim ond pan fydd pob plentyn yn yr ysgol wedi cael eu cofrestru i gael addysg a bod y rhieni yn gwbl ymwybodol o'r amharu posibl ar addysg eu plant. Mewn geiriau eraill, ymhen o leiaf 2 flynedd. | 1 | Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cadarnhau'r cynnig ar 19 Mai 2015, mae 2 flwyddyn academaidd lawn rhwng y penderfyniad a chau ysgolion y dalgylch ar 31 Awst 2017, sydd yn rhoi digon o amser i rieni fod yn ymwybodol o'r newid. |
| 8.21 | Ad-drefnu ysgolion wedi bod yn hynod niweidiol, i'r plant, rhieni, cymunedau ac | 1 | Roedd rhagamcanion rhan fwyaf ysgolion y dalgylch yn dangos bod niferoedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i’r berthynas rhwng ysgolion. Niferoedd disgyblion wedi gostwng oherwydd bygythiad o gau. Ai dyma oedd y bwriad yn y man cyntaf? | | ysgolion am ostwng, a dyna un o’r rhesymau pam y penderfynwyd bod angen ad-drefnu ysgolion y dalgylch. Bwriad y Cyngor yw cynnig cynllun bydd yn creu darpariaeth gadarn a chynaliadwy i’r dyfodol.<br><br>Mae’r Cyngor yn cydnabod fod yna rwystredigaeth ar lawr daear gan fod ymgynghoriad blaenorol heb ei wireddu a bod trafodaethau ad-drefnu ysgolion wedi eu cynnal ers cryn amser bellach. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnal cyfarfodydd a thrafodaethau agored, rhyddhau newyddlenni ac anfon negeseuon e-bost i ddiweddaru wrth i’r broses fynd yn ei blaen er mwyn ceisio osgoi unrhyw bryder neu dryswch di-angen. |
| 8.22 | Teimlaf yn gryf ei bod hi’n hollbwysig fod y proses ad-drefnu ddim yn hollti cymdeithasau agos. Ffordd mae’r proses wedi’i dilyn yn achosi drwg deimlad a theimladau annifyr. Rwy’n gobeithio y bydd y Cyngor yn ystyried ein cymdeithasau wrth ymwneud â gwaith ad-drefnu yn y dyfodol. | 1 | |
| 8.23 | Gobeithio gwnewch ystyried sylwadau ac na wnewch gadarnhau fy mhryder mai esgusodion a gawn fel ateb a bod y penderfyniad wedi ei wneud ers misoedd, hyd yn oed flynyddoedd, ac nad yw barn y plant, y rhieni, y llywodraethwyr a’r gymuned yn cyfrif am ddim. | 1 | Nid yw’r penderfyniad terfynol wedi ei wneud. Bydd y Cabinet yn ystyried holl sylwadau’r gwrthwynebiadau ar 19 Mai 2015 cyn y penderfyniad terfynol. |
| 8.24 | Os oes rhesymau penodol dros beidio â chydnabod rhagoriaeth perfformiad cyfredol Ysgol Brithdir, mae’n rhaid nodi ac egluro rhain. Os na cheir esboniad o’r fath, yna fe fydd gan rhieni a’r gymuned leol hawl i ystyried nad yw’r mater wedi’i drin mewn modd teg, cytbwys a chyfiawn / Er mwyn cyflawni’r amcanion a nodir yn yr adroddiad, mae’n rhaid i’r Cyngor ail-feddwl y penderfyniad di-synnwyr hwn / Hynod siomedig fod yr ysgol yn mynd i gau – mae gennym atgofion hapus iawn o’r ysgol - gobeithio bydd y penderfyniad yn cael ei wyrdroi. | 2 | Mae ansawdd addysg yn un o’r prif ystyriaethau wrth benderfynu ar gynigion ad-drefnu ysgolion. Mae ansawdd addysgol yr ysgolion presennol yn cael ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghorol statudol - nodwyd bod Ysgol Brithdir yn ei harolwg diwethaf yn 2008 wedi cael 3 Gradd 1 a 4 Gradd 2. Mae graddau arolygol yr ysgolion eraill hefyd wedi eu cynnwys yn y ddogfen. |
| 8.25 | Ysgrifennu’r llythyr hwn fel Apêl Llywodraethwyr Ysgol Clogau yn Bontddu, Gwynedd. Mae ein hysgol yn un o bedair ysgol yn y dalgylch fydd o bosibl yn cau ar 31 Awst 2017. Credwn byddai cau’r ysgol hon yn gamgymeriad mawr, yn enwedig oherwydd ei llwyddiant cydnabyddedig fel un o 25% o ysgolion gorau Cymru ond hefyd fel colled anferthol i’r gymuned leol, i’r rhieni a’r disgyblion. Fe fyddai hon yn golled na ellid ei mesur mewn termau economaidd yn unig. | 1 | Mae’r cynnig yn cynnwys cau’r 10 ysgol yn nalgylch Y Gader, tra bod chwech o’r safleoedd addysgol yma’n ail agor fel safleoedd yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol. Mae’n wir na fydd 4 safle ysgol yn parhau i gynnig addysg – y 4 yw safleoedd ysgolion Brithdir, Clogau (Bontddu), Ganllwyd a Machreth (Llanfachreth). Trwy gydol y broses ad-drefnu mae gwybodaeth am safon addysgol presennol yr ysgolion wedi’i hystyried a’i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori statudol. Mae ansawdd addysg yn un o’r ystyriaethau wrth gloriannu opsiynau, nid hyn yw’r unig ystyriaeth. |
| 8.26 | Dim ond un model o’r 8 a gyflwynwyd oedd yn cynnwys cadw Ysgol Clogau ar agor ac hynny ar sail gwybodaeth anghywir. Nid oedd unrhyw fodel yn cyfeirio at fodelau Cymraeg neu Dwyieithog ac felly ni chafwyd cyfle i gael trafodaeth. Yn y cyfarfod ar 21 Mai 2014, cyflwynwyd yr 8 model ond ni chafwyd unrhyw ddata pellach. Cyfeiriwyd at hyn ar y pryd ac ni chafwyd unrhyw ddata pellach. Anfonwyd llythyr at 6 aelod cynulliad: William Powell, Simon Thomas, Yr Arglwydd Elis-Thomas, Joyce Watson a Rebecca Evans. Ni chafwyd unrhyw ymateb i’r cais am ddata ond mewn un achos, fe gawsom ein cyfeirio at wefan y Llywodraeth. Nid oedd hyn yn gymwynasgar, yn proactif nac yn gyfrifol. | 1 | Mae’r broses ad-drefnu yn nalgylch Y Gader wedi cychwyn ers peth amser ac roedd cryn drafodaeth wedi bod cyn cyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch (PAD) ar 21 Mai 2014. Y cyfarfod yma oedd yn rhoi’r 8 model posib fyddai’n cael ei gloriannu gan y Cabinet cyn cychwyn y broses ymgynghori.<br><br>Gan fod y broses ad-drefnu ysgolion yn cymryd misoedd, mae pob ymdrech wedi’i gwneud i gadw’r ymgynghorai yn ymwybodol o bob cam o’r daith, dyma grynhoi’r prif wybodaeth a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn diwethaf:<br>**21 Mai 2014** – cyfarfod PAD (lle roedd gwahoddiad i Aelodau Lleol, penaethiaid, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pan wnaethon ni anfon yr un cwestiynau yn ôl i Gyngor Gwynedd fel rhan o'r ymateb i'r Ddogfen Ymgynghorol, ni chafwyd unrhyw ymateb.<br>Os ystyrir fod y broses ymgynghorol hon yn deg a thrwyadl, mae'r ffaith nad ydym wedi cael unrhyw ohebiaeth mewn ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth yn dangos y gwrthwyneb. | | cadeiryddion llywodraethwyr a rhiant lywodraethwyr yr ysgolion ac i gynrychiolydd yr Eglwys) i ddiweddaru a rhannu gwybodaeth. Rhoddwyd cyflwyniad Powerpoint yn egluro peth o'r gwaith ymchwil a'r cyfeiriad ar y pryd o ran 8 model posib. Rhyddhawyd y cyflwyniad Powerpoint yma i benaethiaid yn dilyn cais.<br>**9 Medi 2014** – anfonwyd neges e-bost at aelodau'r PAD bod adroddiad yn gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion y dalgylch yn mynd gerbron y Cabinet ar 16 Medi 2014. Rhoddwyd linc i'r adroddiad a'r ddogfennaeth berthnasol.<br>**18 Medi 2014** - anfonwyd neges e-bost at aelodau'r PAD yn nodi penderfyniad y Cabinet a'r camau nesaf yn y broses.<br>**8 Hydref 2014** – anfonwyd neges e-bost at aelodau'r PAD yn eu rhagrybuddio bod bwriad i gychwyn cyfnod ymgynghori statudol ar 10 Hydref 2014.<br>**10 Hydref 2014** – rhyddhawyd y ddogfen ymgynghorol statudol a'r pecyn cefndirol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).<br>**18 Tachwedd 2014** – anfonwyd neges atgoffa at yr holl ymgynghorai yn nodi bod cyfnod ymgynghori statudol yn dod i ben ar 18 Tachwedd 2014.<br>**5 Ionawr 2015** - anfonwyd neges e-bost at aelodau'r PAD bod adroddiad yn gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion y dalgylch yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol yn mynd gerbron y Cabinet ar 13 Ionawr 2015.<br>**2 Chwefror 2015** - anfonwyd neges e-bost at aelodau'r PAD yn nodi penderfyniad y Cabinet a'r camau nesaf yn y broses.<br>**19 Chwefror 2015** - anfonwyd neges e-bost at aelodau'r PAD yn eu rhagrybuddio bod bwriad i gyhoeddi rhybuddion statudol a chychwyn y cyfnod gwrthwynebu ar 25 Chwefror 2015.<br>**25 Chwefror 2015** – cyhoeddwyd y rhybuddion statudol a dechreuwyd ar y cyfnod gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).<br><br>Mae'r Swyddfa Trefniadaeth Ysgolion yn ymateb i bob ymholiad a dderbyniwyd yn unol â pholisi'r Cyngor. |
| 8.27 | Nid yw'r broses ymgynghori hon wedi golygu trafodaeth lawn a chywir. Wedi gwneud popeth sydd raid ei wneud o gynnal cyfarfodydd a gofyn am 'Ffurflenni Ymateb' ond nid oes ymdrech wedi bod i ymdrechu i ateb cwestiynau. Efallai bod hynny'n dangos nad oes atebion ar gael neu fod Llywodraethwyr, rhieni ac aelodau'r gymuned ddim yn cael bod yn rhan ohonynt. | 1 | |
| 8.28 | Yn y cyfnod byr a gafwyd i greu'r Apêl hwn, rydym wedi sefydlu tudalen Facebook: cwtchclogau er mwyn dangos cefnogaeth i'n hathrawon ar yr amser anodd hwn a hefyd i rannu gwybodaeth am yr ad-drefnu. Trwy hyn rydym hefyd wedi creu deiseb ar-lein ac ar bapur. Rydym yn amgáu copïau. Mae amser wedi bod yn brin, ac felly mae wedi bod yn anodd cael darlun teg o'r farn o ran niferoedd ond mae yna lawer o sylwadau ar Facebook ac mewn deisebau y byddai'n ddiddorol eu hystyried. | 1 | |
| 8.29 | Mae'r model cwbl wallus hwn wedi'i seilio ar broses a gymrodd gyn lleied o amser â phosibl i'w phenderfynu ac nad yw wedi ystyried pryderon cwbl ddilys rhieni a thrigolion Brithdir. | 1 | |
| 8.30 | Rydych wedi rhuthro model newydd trwodd ar ôl penderfynu ar ddechrau 2013 na allech symud ymlaen â'r model blaenorol. Mae'r model cwbl wallus hwn wedi'i seilio ar broses a gymrodd gyn lleied o amser â phosibl i'w phenderfynu. | 1 | |
| 8.31 | Rydych wedi anfon taflen i'r plant yn egluro'r ymgynghori a pham fod angen y cynnig newydd hwn. Ynddi, o dan bwynt 1 – Pwrpas Newid? – Rydych yn rhoi'r rhesymau hyn:<br>• Gwella ansawdd addysg – dim mantais i Brithdir<br>• Gwella ansawdd adeiladau e.e. paentio – mantais heb ei phrofi<br>• Gwneud gwell defnydd o adnoddau e.e. offer TG – mantais heb ei phrofi<br>• Sicrhau trefn addysgol dda i'r dyfodol – nid yw'r drefn addysgol yn argoeli'n dda<br>• Lleihau nifer llefydd gwag mewn ysgolion – nid oes lle gwag yn Brithdir, | 2 | Rhyddhawyd dogfen ymgynghori i blant oedd yn ceisio symleiddio'r cynnig fel bod modd iddynt roi eu sylwadau arno, wrth reswm nid yw manylion llawn y cynnig yn y ddogfen yma, ond yn y ddogfen ymgynghorol statudol gyflawn. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd sesiynau gyda disgyblion cyfnod allweddol 2 bob ysgol gynradd a Chyngor Ysgol Y Gader gan hwylusydd arbenigol plant a phobl ifanc i ganfod eu barn.<br><br>O ran y pwyntiau sy'n cael eu codi yma, bydd £4.34miliwn o arian cyfalaf i uwchraddio safleoedd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau ansawdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bydd Ysgol Ieuan Gwynedd yn sicr gyda llefydd gwag yn y dyfodol<br>• Darparu ysgolion sy'n bwysig i'r gymuned – pa gymuned fydd ar ôl?<br>• Cryfhau'r Iaith Gymraeg – bydd y cynnig yn gwanhau'r iaith Gymraeg<br>• Dosbarthiadau addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel – ni fydd gan Ysgol Ieuan Gwynedd ddigon o ddosbarthiadau a gobaith yn unig yw gallu denu pennaeth o'r ansawdd sy'n ofynnol, nid oes sicrwydd | | amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf. Yn ogystal â'r gwaith yma mae safleoedd Friog, Gader a Dinas Mawddwy yn derbyn gwariant ôl-groniad cynnal a chadw i'w gwella. Mae cyfanswm y gwariant ôl-ddefnydd cynnal a chadw yn £491,000. Golyga hyn bod y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddi £4,831,000 erbyn Medi 2017 i sicrhau yr ansawdd dysgu gorau posib pe byddai'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol yn cael ei sefydlu.<br><br>Bydd mantais i ddisgyblion presennol Ysgol Brithdir, gan y byddant yn cael mynediad dyddiol at gae chwarae ac amgylchedd dysgu fwy modern, addas i addysgu yn y 21ain ganrif. Bydd maint ac amrediad oedran dosbarthiadau yn safle Rhydymain o gymharu â'r sefyllfa bresennol yn ysgolion Brithdir, Machreth a Ieuan Gwynedd. Mae'r cynnig, yn dilyn asesiad effaith ieithyddol gan gwmni allanol, Gweriniaith a chasgliad yr adroddiad yn gysylltiedig â'r model arfaethedig yn nodi bod y cynnig yn "***cynllunio'r ddarpariaeth ar sail un weledigaeth sefydliadol yw'r ffordd orau** i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio a dysgu mwy fyddai gan un sefydliad i'r **defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch**."*<br><br>Mae recriwtio penaethiaid ym Meirionnydd yn her ar hyn o bryd, a gall bod hyn oherwydd poblogaeth a'r elfen wledig, ond gall fod am nifer o resymau eraill. Deallir ar hyn o bryd na fydd gan ysgolion Brithdir a Ieuan Gwynedd bennaeth o mis Medi ymlaen fel mae'n sefyll. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod penodi pennaeth i'r ysgol arfaethedig am fod yn her ond yn cynllunio ar gyfer hynny. |
| 8.32 | Effaith emosiynol ar y plant wrth orfod newid ysgol a'r ansicrwydd (mae'r plant yn poeni yn barod am y sefyllfa). | 1 | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod unrhyw gyfnod o newid yn creu ansicrwydd a byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i leihau pryderon plant pe byddai'r cynnig yn cael ei gadarnhau. |
| 8.33 | A fydd pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan a chynrychioli'r ysgol? | 1 | |
| 8.34 | Manteision yn y grid ar dudalen 62 yn y ddogfen ymgynghori yr un peth â'r manteision ddisgwylir o addysg dda mewn unrhyw ysgol. Nid yw'r manteision yn benodol i'r math o ysgol ddalgylch awgrymir – ysgolion ledled Cymru, cynradd ac uwchradd, sydd yn llwyddiannus wrth ddiwallu gofynion cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant. | 1 | Cytunir bod rhain yn fanteision disgwyliedig mewn unrhyw ysgol a bydd yr un disgwyliadau o'r ysgol ddilynol ddalgylchol pe byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud i wireddu'r cynllun. |
| 8.35 | Ni chafodd y ddogfen "Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch y Gader 2014 – Beth mae hyn yn ei olygu? Ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc (Cynradd)" ei dosbarthu yn Ysgol Clogau. Ni chofnodwyd ymatebion y plant i'r holiadur yn gywir. Fe wnaeth bob plentyn gymryd rhan ac ni chafodd eu hymatebion eu cyfrif na'u dyfynnu yn llawn. Mae'n ymddangos fel proses ddethol iawn. | 1 | Danfonwyd e-bost i'r holl ran-ddeiliaid perthnasol (gan gynnwys pob Pennaeth) ar 10 Hydref 2014 yn nodi bod cyfnod Ymgynghori Statudol yn cael ei gynnal rhwng 10 Hydref 2014 a 24 Tachwedd 2014 a rhoddwyd linc i'r holl ddogfennaeth berthnasol ar wefan y Cyngor. Roedd dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc ynghyd â Holiadur Plant a Phobl Ifanc yn gynwysedig yn y ddogfennaeth. Anfonwyd neges e-bost pellach i'r holl Benaethiaid ar 20 Hydref 2014 yn datgan bod hwylusydd yn dod i bob ysgol i gynnal sesiwn gyda disgyblion a gofynnwyd i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | bob Pennaeth gyd-weithio gyda'r hwylusydd arbenigol plant a phobl ifanc yn ôl yr angen. Nodwyd bod Canllawiau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn datgan ei fod yn ofynnol i Awdurdodau ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc wrth gynnal proses ad-drefnu. Dosbarthwyd copïau o'r Holiadur a'r Ddogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc gan yr hwylusydd a nodwyd yn glir bod copïau ar wefan y Cyngor yn ogystal. Yn ystod y sesiwn roedd yr hwylusydd yn nodi ymatebion y disgyblion drwy gynnal gweithgareddau. Amlygwyd pob ymateb mewn adroddiad gan yr hwylusydd. Roedd croeso i unrhyw ddisgybl gwblhau holiadur yn ogystal â'i anfon i'r Cyngor petaent un ai wedi methu'r sesiwn gyda'r hwylusydd neu os yn awyddus i ddatgan barn bellach. Cynhaliwyd sesiwn gyda disgyblion cyfnod allweddol 2 Ysgol Clogau ar 5 Tachwedd 2014. |
| 8.36 | Ni roddwyd gwybodaeth yngylch 'sut i apelio' gyda'r llythyr yn cyhoeddi'r cau heblaw am gyfeiriadau a manylion e-bost ar gyfer anfon apeliadau. Mae hyn yn llai na'r hyn a ddisgwyliad gan amlaf gan corff proffesiynol neu mae'n wall difrifol. | 1 | Eglurwyd yn glir yn y rhybuddion statudol bod modd i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad ysgrifenedig i trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk neu anfon gwrthwynebiad at y Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.<br><br>Pan oedd unrhyw ymholiad naill ar y ffôn neu mewn e-bost ynghylch cyflwyno gwrthwynebiad a'r broses wrthwynebu yn cael ei dderbyn, roedd swyddogion y Cyngor yn ymateb yn syth ac yn egluro'r drefn gan nodi sut oedd modd cyflwyno gwrthwynebiad, lle'r oedd modd cael gwybodaeth gefndirol ac estyn gwahoddiad i unrhyw un gysylltu â'r Swyddfa Trefniadaeth Ysgolion os byddai angen gwybodaeth bellach. |
| 8.37 | Cywilydd arnoch i gyd, ac yn enwedig ar ein cynghorwyr lleol. Byddwn wedi disgwyl iddyn nhw wrando ar y farn leol ac ymladd ein hachos ond ymddengys nad yw achub ysgolion gwledig Cymraeg llwyddiannus, a chael cydwybod clir, yn golygu unrhyw beth beth iddyn nhw nac i'r Awdurdod Addysg. | 1 | Mater i'w drafod gyda'r Aelodau Lleol yw hyn. |
| **9** | **Cyllid** | | |
| 9.1 | Dim yn deall rhesymeg eich cynnig o gwbl. Nid wyf yn gallu gweld sut mae'n arbed arian. Mae'n siŵr eich bod wedi gwneud llawer o ymchwil a bod gennych resymau dilys ond hoffwn eu clywed gan aelod o'r Cyngor. | 1 | Mae'r Cyngor o'r farn bod yr arbedion disgwyliedig o £255,625 yn sylweddol ond rhaid cofio mai un ystyriaeth yn unig yw ffactorau ariannol (gan gynnwys arbedion) wrth ad-drefnu ysgolion. Crêd y Cyngor bod y model arfaethedig yn cynnig gwell defnydd o adnoddau (staff ac offer, adeiladau ayyb) ac yn cynnyddu effeithlonrwydd.<br><br>Nid gwariant bach sydd yn digwydd, mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud yn y dalgylch. Bydd safleoedd Cynradd Dolgellau, Llanelltyd a Rhydymain yn derbyn buddsoddiad i'w huwchraddio fel bod plant yr ardal yn derbyn eu haddysg mewn sefydliad addysgol addas i'r 21ain ganrif. Bydd anghenion ôl- |
| 9.2 | A fyddech cystal ag ailystyried y cynnig hwn cyn i chi ddifetha cyfleoedd pobl ifanc Meirionnydd rhag cael dyfodol llawn posibliadau trwy i chi geisio gweithredu cynlluniau arbed arian. | 1 | |
| 9.3 | Gwariwch ein arian prin yn y lle iawn. | 1 | |
| 9.4 | Nid yw rhieni ardal Brithdir am fynd â'u plant i ysgol newydd Rhydymain felly gwastraff arian. | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | groniad cynnal a chadw safleoedd ysgolion Friog, Dinas Mawddwy ac Y Gader hefyd yn cael eu cwblhau. |
| 9.5 | O'r hyn a ddeallaf, prif bwrpas yr ad-drefnu hyn ydy arbed arian. Ond rwyf hefyd o dan yr argraff fod Ysgol Clogau yn gwneud yn dda iawn yn ariannol, er bod rhan fwyaf costau rhedeg yr ysgol yn cael eu rheoli gan Gyngor Gwynedd. | 1 | Un ystyriaeth yn unig yw ffactorau ariannol wrth gymharu a gwerthuso gwahanol opsiynau yn gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion. |
| 9.6 | Yn amlwg, y prif fater sy'n eich poeni yw cael ateb sy'n gwneud arbedion ac fel na chollwch allan ar Grant Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif, ac ni dderbyniwn fod eich model yn cyd-fynd â gofynion y grant beth bynnag o ran "darparu addysg o'r radd flaenaf bosib". | 1 | Yn y flwyddyn ariannol 2013/2014 derbyniodd Ysgol Clogau £19,799 o warchodaeth lleiafswm staff dysgu ar ben eu dyraniad er mwyn cyflogi pennaeth ac athro. Cost y disgybl oedd £6,143 tra bod y cyfartaledd Sirol yn £3,910 am yr un cyfnod. Erbyn y flwyddyn ariannol 2014/15 mae Ysgol Clogau wedi derbyn £34,561 o ddyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staff dysgu, gyda chost y disgybl wedi codi i £7,772, sydd dros ddwbl y cyfartaledd Sirol o £3,856.<br><br>Bydd angen cyflwyno achosion busnes i sicrhau'r buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig arfaethedig yn cynnig yr opsiwn gorau posib i allu darparu addysg o'r radd flaenaf posib yn nalgylch Y Gader. |
| 9.7 | Llywodraethwyr Ysgol Brithdir yn gwerthfawrogi bod y sefyllfa ariannol addysg yn fregus ac anodd ar hyn o bryd. Er hyn, rhaid sicrhau fod unrhyw wariant sy'n cael ei wneud yn y cynllun hwn yn fuddsoddiad hirdymor doeth. Hyderwn y bydd synnwyr cyffredin yn cael goruchafiaeth ac y bydd ystyriaeth i safle Brithdir eto / Hyderwn fod yna synnwyr cyffredin ac asgwrn cefn o fewn y Cyngor i ail-edrych ar sefyllfa ad-drefnu ysgolion y Gader. | 5 | Mae'r Cyngor wedi ystyried ffactorau ariannol ac wedi ystyried dyfodol darpariaeth addysgol fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau cyn cynnal yr ymgynghoriad statudol.<br><br>Mae'n wir fod nifer o resymau o blaid datblygu safle Brithdir a phenderfynodd y Cyngor ei gynnwys fel rhan o'r cynnig gwreiddiol. Yn anffodus, darganfuwyd cyfyngiadau a phroblemau sylweddol a olygai gynnydd sylweddol yng nghost datblygu'r safle a phenderfynwyd peidio â pharhau â'r cynnig i sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle yn y Brithdir a Dinas Mawddwy.<br><br>Mae nifer o wahanol ffactorau wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r opsiwn arfaethedig a ffafrir. Yn wir mae nifer o'r rhesymau a restrwyd yn rhai o'r rhesymau dros ddewis safle Brithdir fel rhan o'r cynnig blaenorol. Yn anffodus, nid yw datblygu safle ysgol Brithdir yn opsiwn posib bellach am nifer o resymau a eglurwyd uchod. |
| 9.8 | A yw'r pres a glustnodwyd ar gyfer uwchraddio safle Brithdir i blant Llanfachreth, Brithdir a Rhydymain, mewn gwirionedd wedi'i glustnodi ar gyfer y dalgylch yn ei gyfanrwydd? A fydd rhan helaeth ohono yn cael ei wario ar yr ysgolion yn y dref? Nid ar adnoddau addysgiadol ond y rhan helaeth ar barcio? Ni fydd ein plant yn derbyn buddsoddiad sylweddol yn eu haddysg fel y derbyniodd plant cylch | 1 | Bwriedir sicrhau buddsoddiad cyfalaf o £4.34miliwn ar safleoedd addysgol yn nalgylch Y Gader ac mae'r hyn a glustnodwyd fel rhan o'r cynllun blaenorol bellach yn rhan o'r swm yma. Gan ystyried yr hinsawdd economaidd, mae'r Cyngor yn ystyried hyn yn ymrwymiad ariannol sylweddol. |

<table>
<tr><td></td><td>Dysynni a phlant Llanuwchllyn a’r Parc.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>9.9</td><td>O ran costau ‘ychwanegol’ ysgolion gwledig, cyhoeddodd y SRSN (Rhwydwaith Ysgolion Gwledig yr Alban) adroddiad yn edrych ar y ffeithiau gwirioneddol am gostau a daethant i’r casgliadau canlynol:
<table>
<tr><th>Cyfanswm Disgyblion</th><th>Cyllideb ar ôl Cefnogaeth</th><th>Cyllideb Fesul Disgybl ar ôl Cefnogaeth</th></tr>
<tr><td>Gwledig Bach (<70) = 1,022</td><td>1,544,831</td><td>1,512</td></tr>
<tr><td>Eraill = 7,169</td><td>24,587,502</td><td>3,430</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm = 8,191</td><td>26,132,333</td><td>3,190</td></tr>
</table>
O’r ffigurau hyn, mae’n amlwg, yn hytrach na bod yna gost ychwanegol i’r cyngor gynnal ei ysgolion gwledig, mae yna mewn gwirionedd fantais ariannol sylweddol i’r gyllideb addysg yn gyffredinol. Pe byddai plant yn cael eu dysgu mewn ysgolion mwy (annhebygol o ystyried y costau cludiant ychwanegol), gellid addysg pob plentyn mewn ysgol wledig am yr un cost â’r cyfartaledd ar gyfer disgyblion eraill, y golled net i gyllideb addysg y cyngor yn y dyfodol fyddai oddeutu £1.96m – y swm ychwanegol yn setliad GAE 2012/13 Cyngor Scottish Borders oedd £1.58m. Pwysig yw nodi fod canol dinasoedd a rhai trefi yn derbyn grantiau ac nid yw’r rhain yn cael eu cynnwys yn y cost fesul disgybl.”</td><td>1</td><td>Mae cyfundrefn ariannu Cymru yn dra gwahanol i gyfundrefn yr Alban. Yn yr Alban mae’r fformiwla ar gyfer cyfrifo’r grant cyffredinol dderbynnir gan awdurdodau yn ystyried gwir nifer a maint yr ysgolion sydd ganddynt, tra yng Nghymru nid yw penderfyniadau ynglŷn ag agor / cau ysgolion unigol yn cael unrhyw effaith ar gyllid grant. Nid yw’r un ystyriaethau ariannol yn berthnasol felly.</td></tr>
<tr><td>9.10</td><td>Ydy cost yr ‘Ad-drefnu’ cyffredinol wedi cael ei gyfrif yng ngoleuni’r arbedion? O ystyried mai dyma fydd yr agenda dros y 10 mlynedd nesaf, y nifer o bobl a gyflogir yn llawn amser ac yn rhan amser i wneud y gwaith a’r amser ychwanegol mae wedi cymryd athrawon a phenaethiaid i fynychu cyfarfodydd a gwaith dilynol – lle mae’r costau hyn wedi’u nodi?</td><td>1</td><td>Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido’r broses trefniadaeth ysgolion fel bod modd sicrhau cyfundrefn addysgol gynaliadwy i’r dyfodol yn unol ag amcanion y strategaeth ad-drefnu. Gan ystyried yr hinsawdd economaidd, mae’r arbedion sydd yn cael eu creu yn golygu bod y toriadau a fydd yn effeithio gweddill ysgolion y Sir yn is o gymharu â’r toriadau byddai’n cael eu gwneud pe byddai ad-drefnu ysgolion heb ddigwydd o gwbl.</td></tr>
<tr><td>9.11</td><td>A fyddai’r ysgol newydd yn gallu fforddio colli’r cyllid sylweddol sy’n dod ar hyn o bryd o ardal y Bermo, os bydd teuluoedd y Bermo yn dewis darpariaeth addysg mewn man arall pe byddai’r cynnig hwn yn cael ei wireddu?</td><td>1</td><td>Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei phenderfynu yn seiliedig ar niferoedd disgyblion sydd yn mynychu. Bydd angen i’r pennaeth a’r corff llywodraethol sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu o fewn y cyllid sydd yn cael ei ddyrannu. Natur niferoedd disgyblion yw eu bod yn anwadal ac mae’n ofynnol i’r Pennaeth a’r corff gadw hyn mewn cof a blaengynllunio.</td></tr>
<tr><td>9.12</td><td>O ran arbedion a chyllidebau, mae dyfyniad diweddar gan y Cyng. Peredur Jenkins wrth gyflwyno Cyllideb 2014/15 y Cyngor fel a ganlyn: “1.4 Yn unol â threfniadau rheolaeth ariannol cadarn, rydym wedi bod wrthi yn paratoi am gyfnod estynedig o gyfyngiadau ariannol ac o’r herwydd rydym mewn sefyllfa yn 2014/15 o beidio  â gorfod rhuthro i ganfod arbedion. Golyga hyn na fydd raid i ni wneud penderfyniadau ar frys, ac o ganlyniad, gael ein hunain yn y sefyllfa o orfod gwneud toriadau yn y mannau hynny a fyddai’n cael effaith ddifäol ar drigolion Gwynedd.</td><td>1</td><td>Nid yw’r penderfyniad yma wedi’i wneud ar frys, yn wir mae trafodaethau ad-drefnu ysgolion nalgylch Y Gader wedi cychwyn ers cryn amser. Mae’r Cyngor wedi dilyn y camau priodol a’r amserlen berthnasol yn gysylltiedig â’r prosesau statudol yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a’r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.</td></tr>
</table>

| 10 | Ystadegau |
|---|---|

10.1 Clogau wedi cynnal cyfarfod i rieni, wedi synnu gweld faint o blant cyn oedran ysgol yno - fe fyddai rhain yn mynychu Ysgol Clogau pe byddai'n parhau ar agor. Rhain yn blant yr ardal - felly niferoedd yn gynaliadwy / Derbyniodd Ysgol Clogau ddogfen gan Gyngor Gwynedd ar 22/11/2007 ynghylch y ffaith mai ffigurau capasiti newydd Ysgol Clogau oedd 32 ac nid 36 fel y nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghorol. 7 disgybl ychwanegol yn byw yn Bontddu wedi cofrestru i fynychu Ysgol Clogau dros y 3 blynedd nesaf, 2 ddisgybl o Ddolgellau sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol, mae 2 fabi wedi cael eu geni yn ddiweddar ac yn byw yn Bontddu (nid yw'r rhain yn y ffigurau yn y ddogfen ond mae'n ddefnyddiol eu nodi).

| Safle | Capasiti Llawn (M-Bl6) | Nifer Llefydd Gweigion | % Llefydd Gweigion |
|---|---|---|---|
| Ysgol Clogau 2014/15 | 32 | 4 | 12.5% |
| Ysgol Clogau Rhagolygon 2015/16 | 32 | 4 | 12.5% |
| Noder 2009/10 | 32 | 0 | 0% 39 disgybl |
| 2016/17 | 32 | 2 | 6% |
| 2017/18 | 32 | 0 | 0% 34 disgybl |

Gyda ffigurau cywir cyfredol, Ysgol Clogau yn ysgol lawn yn y flwyddyn academaidd nesaf, y duedd yw bydd mwy na'r capasiti oherwydd teuluoedd newydd sy'n byw yn y Bontddu. Yn hanesyddol, mae niferoedd yn amrywio ac mae un neu ddau o deuluoedd yn symud i mewn i'r ardal neu allan o'r ardal yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr - rhaid cofio hyn / Gallai Ysgol Clogau gael dyfodol cynaliadwy. Mae brodyr a chwiorydd iau disgyblion cyfredol yn gobeithio mynychu'r ysgol / Nifer o deuluoedd wedi symud yn ddiweddar i'r Bontddu - effeithio'n fawr ar ffigurau o ran canrannau cyfredol a rhagolygon i'r dyfodol. Fe fu'r aelod lleol yn hyrwyddo rhagoriaeth Ysgol Clogau i deulu oedd yn ystyried symud i'r ardal o Fanceinion, gan wybod yn iawn ei bod yn mynd i gau. Fe wnaeth y teulu symud yn ddiweddarach ac yna cael gwybod fod yr ysgol yn mynd i gau ond maent wedi gweld ei bod yn ysgol ragorol ac maent yn benderfynol o'i chadw ar agor / Ar ddechrau'r flwyddyn 2014/15 gadawodd 6 disgybl Ysgol Clogau oherwydd eu bod wedi clywed bod yr ysgol yn cau. Mae cwmwl du y cau dros lawer o flynyddoedd wedi golygu straen diangen ac mae llawer o rieni lleol wedi cael eu hargymell i beidio â mynychu gan fod yr ysgol yn cau.



4

Wrth gwblhau ymchwil cyn cychwyn y broses, rhoddwyd cyfle i benaethiaid ysgolion y dalgylch wirio ystadegau'r pecyn ystadegol. Gan fod y broses statudol yn cymryd amser, cymerwyd ciplun o ddata am un flwyddyn academaidd ac yna defnyddiwyd y rhain yn gyson, i osgoi unrhyw ddryswch.

Fel y nodwyd yn y pecyn ystadegol ac yn y ddogfen ymgynghorol, capasiti Ysgol Clogau yw **32** o flwyddyn derbyn i flwyddyn 6 a **4** yn y meithrin sydd yn rhoi cyfanswm o **36**. Mae hyn yn cael ei adrodd yn flynyddol i'r pennaeth.

Nid yw'n bosibl casglu data darpar blant yn fanwl gywir ond mae penaethiaid yn darparu rhagolygon yn flynyddol. Yn seiliedig ar ddata Medi 2013 roedd pennaeth Ysgol Clogau wedi nodi'r rhagamcanion tair blynedd isod:

| Blwyddyn | Rhagamcanion | Nifer Lle Gwag | Canran Lle Gwag |
|---|---|---|---|
| Medi 2014 | 26 | 10 | 28% |
| Medi 2015 | 27 | 9 | 25% |
| Medi 2016 | 26 | 10 | 28% |

Derbyniwyd data mwy diweddar ym mis Medi 2014 ond nid oedd yn bosib ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghorol statudol gan nad oedd y data wedi'i wirio mewn amser. Dyma ragamcanion tair blynedd y pennaeth ym mis Medi 2014:

| Blwyddyn | Rhagamcanion | Nifer Lle Gwag | Canran Lle Gwag |
|---|---|---|---|
| Medi 2015 | 29 | 7 | 19% |
| Medi 2016 | 31 | 6 | 17% |
| Medi 2017 | 32 | 4 | 11% |

Felly, mae'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y pennaeth yn dangos ychydig o gynnydd yn y rhagamcanion ond nid yw'n golygu nad oes llefydd gweigion fel yr awgrymir yn y gwrthwynebiad.

Mae'r Cyngor yn derbyn bod niferoedd yn gallu newid a bod effaith un teulu, fel y nodwyd yn y gwrthwynebiadau, yn gallu cael effaith mawr ar niferoedd. Dyma un o'r rhesymau pam fod y Cyngor yn credu bod y cynnig gerbron am sefydlogi darpariaeth addysgol yr ardal. Wrth ddod â disgyblion tair ysgol at ei gilydd ar safle Llanelltyd, ni fydd unrhyw deulu yn cael cymaint o effaith ar niferoedd a phrofiadau disgyblion.

O ran cynaladwyedd Ysgol Clogau ar ei phen ei hun, nid yw'r Cyngor yn credu bod yr ysgol yn gynaliadwy i'r dyfodol. Hyd yn oed pe byddai'r ysgol yn llawn gyda 36 disgybl, byddai hyn dal yn golygu bod yr ysgol yn ddibynnol yn ariannol ar dderbyn arian ychwanegol trwy'r rhwyd diogelu staffio i sicrhau cyflogi

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | pennaeth ac athro/athrawes. Felly, heb gymorth ychwanegol parhaol, nid yw'r ysgol yn gallu parhau.<br><br>Nid yw'r Awdurdod yn ymwybodol o dderbyn unrhyw gais i drosglwyddo o Ysgol Clogau i ysgol arall o fewn Gwynedd yn y cyfnod Chwefror 2014 i Ebrill 2015. |
| 10.2 | Pam eu gyrru i Ysgol Rhydymain sydd ag ychydig o blant ynddi ac ar gyrion pellaf y dalgylch? / Cydweithio wedi bod yn ardderchog rhwng ysgolion Brithdir ac Ieuan Gwynedd - plant ac athrawon wedi elwa, ond nid yw yn gwneud synnwyr I symud 44 o blant i ysgol efo 16 gan fod y rhan fwyaf yn byw yn agosach at Brithdir. / Bron yn sicr bydd nifer plant, er gwaetha'r ad-drefnu, yn parhau i ostwng yn Ysgol Ieuan Gwynedd, ac y bydd o leiaf 3 allan o'r 4 ysgol gynradd wledig (Ysgolion Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy a Friog) gyda llefydd gweigion. Gyda model mor gyfyng a gwasgarog, sut gall y Cyngor ddisgwyl iddo lwyddo, a sut y bydd yn egluro i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau?/ Niferoedd a chynaladwyedd wedi bod yn flaenllaw yn eich penderfyniadau. Sut felly dewisoch safle nad yw o ran niferoedd presennol na gorffennol yn gynaliadwy? Rhwng 1975 a 2013 -42% yw niferoedd safle Rhydymain. Nid yw'r safle hwn yn ddewis naturiol i rieni ers blynyddoedd. Dyma safle oni bai am yr ad-drefnu a fyddai wedi cau gan fod y niferoedd mor isel. Nid yw'n safle hygyrch i rieni ac felly nid yw'n safle hyfyw. Ysgol Brithdir yn llawn, dim llefydd gweigion. Nid oes galw am ysgol ar gyrion y dalgylch. Gwario ar safle mae ystadegau yn dangos yn glir nad yw'n gynaliadwy – cost y disgybl yn Ysgol Rhydymain yw £10,616, ond ar y llaw arall cost y disgybl yn ysgol Brithdir yw £4,142. Sut gellir cyfiawnhau gwario fel hyn ar gynllun nad yw'n gynaliadwy a byd addysg yn wynebu toriadau enbyd ac yn crafu am bob ceiniog? | 4 | Mae nifer o wahanol ffactorau wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r opsiwn arfaethedig a ffafrir. Credir bod yr opsiwn arfaethedig yn cynnig y ffordd orau ymlaen i sicrhau hyfywedd darpariaeth addysgol dalgylch y Gader.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal addysg wledig ac yn gwneud hyn wrth gynnwys safle Rhydymain yn rhan o'r model a ffafrir. Golyga hyn bod opsiwn addysg wledig i ardal Dwyrain y dalgylch. Bydd safle Rhydymain yn fwy hyfyw yn dilyn y buddsoddiad arfaethedig. Y neges sydd wedi ei derbyn yn ystod trafodaethau yw bod angen parhau i gynnig addysg wledig. Os oes dyhead yn lleol i gadw addysg wledig, y gobaith yw y bydd rhieni yn cefnogi safle addysgol Rhydymain. Drwy ddod â phlant yr ardaloedd lleol (Machreth, Brithdir a Rhydymain) at ei gilydd mewn un safle, y nod yw sicrhau ysgol ffyniannus. Os yw rhieni'r dref yn parhau i ddewis addysg wledig i'w plant, serch y pellter, bydd hyn yn cyfrannu ymhellach tuag at gynaladwyedd y safle.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i weld pob plentyn o fewn y Sir yn cael cynnig yr un ddarpariaeth o ran addysg a chyfleoedd. Oherwydd hynny, mae'r cynnig hwn i ddarparu addysg gynradd ar 5 safle yn hytrach na 9 safle yn mynd i olygu gwell adnoddau, man storio adnoddau, llyfrgell, technoleg gwybodaeth, neuadd a chae chwarae. |
| 10.3 | Byddwch yn onest am eich gweledigaeth a'ch blaenoriaethau. Os mai addysg wledig, cyfleoedd cyfartal, gwarchod yr iaith sy'n bwysig i chi yna mae'n rhaid ailedrych ar safle wledig ysgol dwyrain y dalgylch a'i lleoli yn y Brithdir. Hyderwn byddwch yn gweld synnwyr ac yn sylweddoli mai Brithdir ddylai'r safle gwledig fod - safle cynaliadwy, safle sydd ag ysgol lawn yn barod, safle sy'n hygyrch, safle fydd yn gwarchod yr iaith. / Niferoedd Ysgol Brithdir yn gynaliadwy, ac wedi bod yn gyson ers blynyddoedd. Ysgol Brithdir yw'r unig safle yn nalgylch y Gader heb lefydd gweigion. Ffactor pwysicaf i gynnal addysg gwledig, gynaliadwy i'r dyfodol. Os na fydd Cynghorwyr yn ail feddwl a dewis yr hyn a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2012, mae'n amlwg nad yw'r Cyngor yn bwriadu cynnal addysg gwledig Gymreig / 44 o blant yn Ysgol Brithdir 2014-15 a 46 yn 2013-14. Gan Ysgol Ieuan Gwynedd mae'r ail nifer | 8 | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhwystredigaeth ar lawr daear gan fod ymgynghoriad blaenorol heb ei wireddu. Dyma yw natur y broses ad-drefnu ysgolion, mae modd addasu ac ail-ymgynghori ar opsiynau gwahanol wrth ddatblygu'r cynnig. Dyna pam bod y Cyngor yn glir mai opsiwn a ffafrir yw'r cynnig ar hyn o bryd. Nid yw'r penderfyniad terfynol wedi ei wneud eto.<br><br>Mae nifer o wahanol ffactorau wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r opsiwn arfaethedig a ffafrir.Rhai o'r ffactorau oedd niferoedd disgyblion, llefydd gweigion a rhagamcanion disgyblion.<br><br>Mae'n wir fod nifer o resymau o blaid datblygu safle'r Brithdir a phenderfynodd y Cyngor ei gynnwys fel rhan o'r cynnig gwreiddiol. Yn anffodus, darganfuwyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mwyaf o lefydd gweigion yn y dalgylch – 60% erbyn heddiw (capasiti’r ysgol 45, 15 ar y gofrestr yn 2013, a dim ond chwech yn 3-7 oed) rhagolygon yn dangos 71% erbyn 2017. 18 o blant yn 2014-15 / Pam cau ysgol llawn i’r eithaf, llwyddiannus gyda phresenoldeb da sydd â 44 o ddisgyblion a rhestr aros, a meithrinfa ‘Seren Fach’ gan llath i ffwrdd, lle mae babanod yn barod i fynychu Ysgol Brithdir? Nid yw’n gwneud synnwyr / Gwrthwynebu cau safle Ysgol Brithdir, yr unig ysgol yn nalgylch y Gader heb lefydd gweigion rŵan ac yn ôl eich ffigurau, dim llefydd gweigion erbyn 2017 / Ysgol Brithdir yn hyfyw a chynaliadwy i’r dyfodol. Gwelwyd cynnydd o 119% yn nifer disgyblion Brithdir rhwng 1975 a 2013. Rhydymain, y safle a ffafrir yn y model, wedi wynebu gostyngiad o 42% dros yr un cyfnod. | | cyfyngiadau a phroblemau sylweddol a olygai gynnydd sylweddol yng nghost datblygu’r safle a phenderfynwyd peidio â pharhau â’r cynnig i sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle yn y Brithdir a Dinas Mawddwy. |
| 10.4 | Camgymeriad ffigurau gwaelod tudalen 37, adran 5.3 - noder mai poblogaeth Ysgol Y Gader yn 2013 oedd 402. Ffigwr wedyn wedi cael ei ychwanegu at gyfanswm poblogaeth ysgolion cynradd, disgrifir y cyfanswm fel Cyfanswm y Dalgylch. Mae hyn yn anghywir gan fod tua 102 o fyfyrwyr allan o’r 402 yn Ysgol Y Gader yn dod o tu hwnt i’r dalgylch – 80 o Abermaw ei hun | 1 | Nid yw’r ystadegau’n anghywir ond derbynnir y dylai llinell olaf y tabl ddarllen ‘nifer disgyblion sy’n mynychu ysgolion yn y dalgylch’ yn hytrach na ‘cyfanswm y dalgylch’ sydd yn rhoi’r argraff mai disgyblion sy’n byw yn nalgylch Y Gader sydd dan sylw. |
| 10.5 | Mae cynnydd mawr mewn genedigaethau yn Nolgellau ar hyn o bryd, onid yw’r babanod bach hyn yn haeddu’r cychwyn gorau posibl? | 1 | Er bod rhagamcanion yn dangos lleihad yn niferoedd y disgyblion cynradd dros y blynyddoedd nesaf, mae’r Cyngor yn falch o glywed gan bobl leol bod cynnydd yng ngenedigaethau'r dalgylch. Bydd unrhyw blentyn a anwyd eleni, yn unol â pholisi mynediad y Sir, yn gallu cychwyn yn y Meithrin ym Medi 2018 (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni). Mae’r Cyngor yn ceisio *“cynnig addysg o’r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi’r profiadau, y sgiliau a’r hyder i blant y Sir a’u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn”,* a dyna obeithir bydd y model arfaethedig yn ei gyflawni ac yn ei gynnig i bob plentyn yn y dalgylch i’r dyfodol. |
| 10.6 | Ymddengys mai’r rheswm dros nifer fawr o lefydd gweigion yn Nolgellau, yn yr Ysgol Gynradd ac yn Ysgol Y Gader yw dewis rhieni a’r ffaith eu bod yn ffafrio’r addysg a ddarperir mewn ysgolion bach ac mewn ysgolion uwchradd y tu allan i’r dalgylch lle mae’r canlyniadau a’r profiad addysgol yn llawer gwell. | 1 | Mae nifer uchel o ddisgyblion all-ddalgylch yn mynychu Ysgol Y Gader, yn wir mae dros 100 yn teithio i mewn i’r dalgylch i dderbyn eu haddysg uwchradd. Mae’n wir fod nifer o ddisgyblion cynradd yn teithio allan o’r dref i’r wlad ond mae Y Gader yn ddalgylch anghyffredin wrth ystyried y nifer uchel o symudiadau all-ddalgylch sydd yn digwydd yn y sector cynradd. Mae rhai disgyblion sy’n byw yn nalgylch ysgol wledig fychan yn teithio i ysgol wledig arall a rhai yn dod o du allan i ddalgylch Y Gader. Gall rhieni a disgyblion ddewis ysgol am nifer o resymau gwahanol, a gall y rheswm hwn newid dros gyfnod o amser. |
| **11** | **Opsiynau Amgen** | | |
| 11.1 | Yn gynnar yn y broses Ymgynghori yn 2010, fe wnaeth grŵp o Ysgol Clogau gyflwyno datrysiad amgen i Gyngor Gwynedd. Roedd y materion a ystyriwyd ac | 1 | Deallwn mai rhwydwaith cydweithio rhwng ysgolion Clogau, Friog, Ganllwyd, Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy, Cynradd Dolgellau ac Y Gader yw’r model |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a ddadansoddwyd yn gefndir i ddatrysiad arloesol Addysg yn y Dalgylch. Ni chafwyd rhesymau pam na chafodd y cynnig hwn ei ystyried a pham na allai fod yn un o'r modelau i'w hystyried yn ystod y broses ymgynghorol. Pam ddim?<br>Fel y dywed yr Arglwydd Woolf MR in Rv Awdurdod Iechyd Gogledd a Dwyrain Dyfnaint, "*Mae'n wybodaeth gyffredin, os yw ymgynghori gyda phartïon â diddordeb a'r cyhoedd yn ofyn cyfreithiol neu beidio, os bydd ymgynghori yn digwydd bod yn rhaid ei wneud yn gywir. Er mwyn bod yn gywir, mae'n rhaid ymgynghori ar adeg pan fydd y cynigion yn y cyfnod ffurfiannol; mae'n rhaid cynnwys rhesymau digonol ar gyfer cynigion penodol er mwyn rhoi cyfle i'r rhai yr ymgynghorir â hwy i roi ystyriaeth ac ymateb llawn a deallus; mae angen rhoi amser digonol ar gyfer y diben hyn; ac mae'n rhaid i gynnyrch yr ymgynghoriad gael ei ystyried yn llawn pan fydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud.*" | | yma. Byddai'n golygu cau ysgolion Brithdir, Llanelltyd a Machreth a sefydlu cydweithio anffurfiol rhwng yr ysgolion eraill a fyddai'n golygu cyd-amserlennu cwricwlwm cynradd. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r opsiwn amgen yma gan gynrychiolwyr Ysgol Clogau, yn wir, cafodd y model ei gynnwys fel rhan o'r 8 yn y gwerthusiad opsiynau. Roedd y model wedi'i werthuso cyn i'r Cabinet benderfynu ar yr opsiwn i ymgynghori arno ym Medi 2014 ac wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghorol statudol. Gwerthuswyd y model yn unol â'r ystyriaethau penodol ac roedd nifer o ffactorau pam nad oedd yn cael ei ystyried fel yr opsiwn ffafriedig. |
| 11.2 | Nid yw cynnig y dalgylch yn cynnig ysgol 3-19 oed, fel a geir yn Llanbedr Pont Steffan ond yn hytrach, dim ond hyd at 16. Pam nad yw'r Coleg yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau? Ydy Gwynedd yn hapus gyda llwyddiant y Coleg? Mae llawer o gyfleoedd i fyfyrwyr 6ed dosbarth ymwneud â chlybiau a dysgu disgyblion iau. Pam nad yw'r syniadau hyn yn cael eu trafod? Wrth geisio codi safonau addysg yng Ngwynedd, ai dim ond hyd at 16 oed yr ydym yn sôn? Pam nad yw'r cynnig yn cynnwys hyd at 19 oed? | 1 | Mae trefn wedi ei sefydlu ers cryn amser mai'r Coleg sydd yn darparu addysg ôl-16 yn nalgylch Y Gader. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Coleg ac maent yn llwyr ymwybodol o'r cynnig dan ystyriaeth. Derbyniwyd sylwadau ganddynt yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol pan nodwyd bod:<br>*"Grŵp Llandrillo Menai yn falch iawn o'n cydweithrediad agos gyda Cyngor Sir Gwynedd yng nghyd-destun trefniadau addysg a datblygu busnes. Yn arbennig mae gwaith y Consortiwm Ôl-16 yn strategol bwysig i ni. Credwn fod y cynlluniau ynglŷn â sefydlu un ysgol 3-16 o dan adain Ysgol Y Gader yn Nolgellau yn synhwyrol ac yn gynaliadwy. Rwyf felly yn cadarnhau ein cefnogaeth swyddogol i'r datblygiad sydd ar gynnig."*<br>Byddai'r Cyngor yn croesawu unrhyw drefniant cydweithio rhwng y Coleg a'r Ysgol Ddilynol Dalgylchol a fyddai'n creu profiadau a chyfleoedd newydd i ddisgyblion a myfyrwyr y dalgylch. Pe byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud bydd hyn yn drafodaeth bydd angen i'r Pennaeth a'r Coleg ei gynnal i ddarganfod y posibiliadau. |
| **12** | **Cyffredinol** | | |
| 12.1 | Y broses yn wastraff amser ac arian, cau ysgolion gwych ac anfon plant i ysgolion sy'n methu. Wedi dweud hyn o'r blaen a dywedaf yr un peth eto. Nid oes gan y Cyngor 'Synnwyr cyffredin'. Llongyfarchiadau am ddinistrio cenhedlaeth gyfan o addysg plant, a'r cyfan er mwyn arbed ychydig o arian... gwarthus... | 1 | Mae'r Cyngor o'r farn mai Ysgol Ddilynol Ddalgylchol sydd yn cynnig yr ymateb gorau posib o ran sicrhau addysg gadarn a chynaliadwy i'r dyfodol. Nid yw'n credu fod y sefyllfa gyfredol yn gynaliadwy. I gyflawni hyn bydd pob ysgol yn y dalgylch yn cau a bydd Ysgol hollol newydd yn cael ei sefydlu. Golyga hyn gorff llywodraethol newydd, pennaeth a strwythur staffio hollol newydd, gyda'r modd o ddatblygu ar arferion addysgol da sydd yn y dalgylch eisoes i sicrhau bod disgyblion yr ardal yn cael y ddarpariaeth addysgol orau posib. Er bod materion cyllidol, gan gynnwys arbedion posib, yn un o'r ystyriaethau wrth werthuso opsiynau posib, nid hyn yw'r unig ffactor. |
| 12.2 | Ers pryd mae arian yn tra arglwyddiaethu ar addysg plant? Bydd eich penderfyniad yn effeithio ar addysg plant o 3 oed hyd at 16 oed. Mae'n ddyletswydd arnoch i wneud y penderfyniadau cywir a doeth ac nid gwneud penderfyniadau o ran yr opsiwn rhataf. Ni allwch ymddiheuro ar ôl gwneud penderfyniad byrbwyll a chau ysgol lawn a llwyddiannus yn y Brithdir. Ysgol sy'n | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | llwyddo i roi addysg ragorol ac i roi cynigion allgyrsiol di ben draw i'r plant. | | |
| 12.3 | Newydd fynychu cyfarfod gyda Llywodraethwyr ysgol fy mhlant (Ysgol Clogau), cynnig i gau'r ysgol yn 2017 yn peri pryder mawr imi. Symudais fy nheulu i'r Bontddu am sawl rheswm – un rheswm oedd er mwyn dewis bywyd ac addysg gwahanol i'm plant. Am resymau personol, mae hyn yn newyddion drwg iawn i mi, ond rwy'n credu bod eich cynigion yn gofyn am fwy na dim ond ymateb emosiynol. | 1 | Mae'r Cyngor yn derbyn bod cyfnod o newid a cynnig trefn newydd yn mynd i beri pryder i bawb sy'n gysylltiedig a'r cynnig, gan gynnwys rhieni disgyblion yr ysgolion dan sylw. Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i geisio lleihau pryderon gymaint â bo modd trwy gyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn gyson.<br><br>Pe byddai penderfyniad terfynol gan y Cabinet i weithredu'r cynnig bydd pecyn gwaith newydd i sefydlu'r Ysgol Ddilynol yn cychwyn sydd yn cynnwys agweddau fel sefydlu corff llywodraethol cysgodol, trefniadau penodi pennaeth a gweddill y strwythur staffio, cymorth ac arweiniad i staff yr ysgolion presennol gan adran adnoddau dynol y Cyngor, cynllun cyfathrebu ayyb. |
| 12.4 | Fel rhiant sydd newydd symud i bentref Bontddu, rwyf yn bryderus iawn am y bwriad i gau Ysgol Clogau. Nid yw fy mhlant wedi cyrraedd oedran ysgol hyd yn hyn ac felly efallai na chânt gyfle i fynychu'r ysgol sydd yn ôl pob ymddangosiad yn ysgol hapus iawn sy'n darparu addysg dda. | 1 | |
| 12.5 | Erfyniaf arnoch i ystyried y sylwadau a gyflwynwyd er sicrhau y modd mwyaf priodol o gyflwyno tystiolaeth gwelliant heb wanhau y gyfundrefn bresennol. | 1 | Bydd copi cyflawn o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor iddynt yn cael ei rannu gyda'r Aelodau Cabinet cyn iddynt wneud y penderfyniad terfynol. Bydd adroddiad gyda'r tabl hwn, sydd yn cynnwys sylwadau'r gwrthwynebiadau, yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Cabinet ar 19 Mai 2015 ac yn dilyn ystyried y gwrthwynebiadau hyn ac ymateb y Cyngor iddynt bydd y Cabinet yn penderfynu parhau neu beidio gyda'r cynnig i sefydlu Ysgol Ddilynol Ddalgylchol. |
| 12.6 | Oes yna unrhyw synnwyr cyffredin o gwbl yn yr Adran Addysg yng Nghaernarfon neu a ydym ni yn rhy bell i'r de yng Ngwynedd i fod o unrhyw bwys? | 1 | |
| 12.7 | Grŵp Rhieni Ysgol Brithdir yn gwrthwynebu'n chwyrn cynnig Cyngor Gwynedd i sefydlu ysgol ddilynol aml-safle yn nalgylch y Gader, Dolgellau ac yn benodol o leoli safle dwyrain y dalgylch yn Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain. | 1 | Bydd y gwrthwynebiadau i gyd, cyfanswm o 53, ac ymateb y Cyngor iddynt, yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau Cabinet cyn iddynt wneud eu penderfyniad terfynol ar y cynnig. |
| 12.8 | Rwyf am ddatgan fy ngwrthwynebiad ffurfiol i ad-drefnu Ysgol y Gader, cau'r ysgol a'i ail-agor fel ysgol newydd yn 2017. | 1 | |
| 12.9 | Cyn ddeilydd portfolio Liz Saville Roberts bellach ddim o blaid y penderfyniad wnaed ganddi yn y swydd, am ddatblygu safle Brithdir. Hollol anghredadwy i gysidro yr holl waith ymchwil cyn cyrraedd yr argymhelliad hwnnw. Does dim posib cael ffydd mewn unigolion os mai hyn sydd i'w ddisgwyl. | 1 | Nid oes bwriad bellach i ddatblygu safle Brithdir. Y cynnig gerbron yw sefydlu Ysgol Ddilynol Ddalgylchol ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Friog, Dinas Mawddwy, Llanelltyd ac Ieuan Gwynedd (yn Rhydymain). |
| 12.10 | Cymuned Brithdir yn teimlo bod y Cyngor yn cau ysgol Brithdir ar sail celwydd a thwyll. | 1 | Mae'r Cyngor o'r farn mai sefydlu ysgol ddilynol ddalgylchol yw'r opsiwn gorau i'r dyfodol. Wrth ddewis safleoedd ar gyfer ysgol ddilynol ddalgylchol rhoddwyd ystyriaeth i safle Brithdir yn yr un modd ag y rhoddwyd ystyriaeth i safle presennol pob un o'r ysgolion. |
| 12.11 | Gobeithiaf yn arw y cymerwch sylw o'r gwrthwynebiad yma ac y byddwch yn cyrraedd y canlyniad cywir, sef dim cau ysgol llawn o blant! Dim cau Ysgol Brithdir! / Rhowch degwch i blant a rhieni sydd wedi dewis y Brithdir ers blynyddoedd / Gwelwch synnwyr peidio â chau safle llawn Ysgol Brithdir | 3 | |
| 12.12 | Dwi'n mawr obeithio y gwnewch chi edrych ar y darlun mawr mewn ffordd gadarnhaol e.e. lleoliad da'r ysgol, athrawon a rhieni hynod o bro-actif, Seren fach yn bwydo plant i'r ysgol. | 1 | |
| 12.13 | Annog i ailfeddwl eich penderfyniad i gau ysgol Brithdir - prif bryder Cyngor | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwynedd ydy llefydd gweigion, ond nid oes unrhyw lefydd gwag yn y Brithdir. | | |
| 12.14 | Gobeithio byddwch yn ailystyried eich cynlluniau yn ofalus gan fy mod yn credu mewn democratiaeth a hawl dewis ac rwy’n credu eich bod yn ceisio cymryd hyn oddi arnon ni. | 2 | Bydd angen i’r Cabinet ystyried yn ofalus, yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2015, yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ogystal ag ymateb y Cyngor iddynt cyn penderfynu’n derfynol a fydd y cynnig yn parhau neu beidio. |
| 12.15 | Cywilydd ar Gyngor Gwynedd, enwedig ar y cynghorwyr Plaid Cymru comiwnyddol sydd wedi bod yn gelwyddog yn twyllo plant, rhieni a thrigolion Brithdir a’r cylch trwy ddweud bod craig yn lle’r oedd estyniad i fod a hefyd beio’r Parc am wrthod eu brasluniau. Mae 44 o blant yn cael eu chwalu o ysgol wledig hapus. Cywilydd arnoch. | 1 | Bydd angen i Aelodau’r Cabinet ystyried y sylwad yma, ynghyd â’r 53 gwrthwynebiad llawn cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig. |
| 12.16 | Meddwl blaenllaw Ysgol Brithdir sydd wedi cadw Ysgol Rhydymain yn agored drwy rannu pennaeth a staff. Gwnaethpwyd y penderfyniadau hyn pan basiwyd yn y Cynulliad mai yn y Brithdir byddai safle yr ysgol wledig. Beth fyddai tynged ysgol Rhydymain wedi bod oni bai am hyn? | 1 | Mae’r Cyngor yn falch bod ysgolion Brithdir ac Ieuan Gwynedd wedi bod yn cydweithio’n agos wrth rannu pennaeth ers i gyn bennaeth Ysgol Brithdir ymddeol. |
| 12.17 | Yn naturiol, rydym eisiau gweld Ysgol Clogau yn parhau ar agor gyda’r un strwythur dysgu mewn lle. | 1 | Bydd angen i’r Cabinet ystyried yn ofalus, yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2015, yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor iddynt a phenderfynu’n derfynol a fydd y cynnig yn parhau neu beidio. |
| 12.18 | Yr ateb a dderbyniwyd gan swyddogion yw, mi fydd y penderfyniadau hyn yn waith i’r corff llywodraethol cysgodol. Dydi hyn ddim digon da. Manylion y model yma yn holl bwysig i bawb wrth i ni geisio symud ymlaen a derbyn newid. Sut mae plant, athrawon a’r gymuned ehangach i fod i dderbyn newid mewn ffordd bositif, heb wybod sut fydd y cynllun yn effeithio arnyn nhw? | 1 | Mae pob ymdrech wedi’i wneud i egluro sut fydd y cynnig yn effeithio ar ddisgyblion, staff a’r gymuned ehangach. Gan nad yw’r penderfyniad terfynol wedi ei wneud, mae’n anodd iawn manylu ar rai agweddau o’r cynnig, bydd y manylion yn dod yn glir wrth i amser fynd rhagddo a chamau penodol gael eu cwblhau. Mae adrannau penodol o fewn y tabl hwn yn ehangu ar faterion staffio, cymunedol ac effaith ar ansawdd yr addysg.<br><br>Mae’r cynnig am gael effaith wahanol ar ddisgyblion gwahanol yn ddibynnol ar eu hysgol presennol a’u hoedran. Yn ystod y cyfnod ymgynghorol rhyddhawyd dogfen ymgynghorol syml i’r oedran uwchradd a chynradd, yn ogystal â chynnal sesiynau ymgynghori gan hwylusydd plant a phobl ifanc arbenigol. Roedd y sesiynau yma yn egluro’r cynnig, a’r effaith arnynt, gan gofyn am eu barn o ran pethau da a pryderon. |

**Dadansoddi'r Ddeiseb**

Fel rhan o'r gwrthwynebiadau, derbyniwyd deiseb oedd yn cynnwys llofnod 179 o bobl oedd yn cytuno â'r gosodiad: *"Rydym ni, y rhai sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau yng Nghymru a Phennaeth Addysg Gwynedd i achub Ysgol Clogau, Bontddu, Gwynedd rhag cael ei chau."*

O fewn y ddeiseb yma, rhoddwyd sylwadau yn gysylltiedig â rhai o'r llofnodion, dyma ddadansoddiad o'r sylwadau hynny:

| Côd Sylwad | Sylwadau | Nifer deisebwyr yn nodi'r pwynt | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **1** | Wedi gweld â'm llygaid fy hun waith caled grŵp o athrawon yn cael eu harwain a'r hysbrydoli gan Pennaeth. Tîm llwyddiannus sy'n gweithio'n effeithiol ac effeithlon gyda llawer o gefnogaeth gan y rhieni / Wedi gweithio yma / Athrawon yn wych / Ysgol wych gydag athrawon rhagorol / Ysgol wych, wedi galluogi mhlentyn flodeuo - heb yr ysgol hon fyddai fy mhlentyn ddim yn cael y graddau mae'n disgwyl rŵan /Aeth fy mhlentyn i Ysgol Clogau. Ysgol wych gydag athrawon gwych / Ysgol yn gwneud gwaith caled i paratoi plant i'r ysgol uwchradd a plant yn mynd ymlaen i'r Coleg / Diolch am gwaith rhagorol./ Ysgol Clogau yn ymgorfffori nodweddion cadarnhaol amgylchedd addysgol creadigol, cynnes, iach byddai unrhyw un yn ei ddymuno / Ysgol ffantastig/Mae Ysgol Bontddu yn wastad wedi bod ag enw da a safonau uchel./Plis cadwch yr ysgol wych hon ar agor./Mae'r ysgol yn hanfodol ar gyfer y plant sydd yno ac maent yn elwa yn fawr./Os bydd yr ysgol fach hon yn cau, fe fydd yn niweidiol i gymaint o blant, ac i'r gymuned. Yn yr ysgol fach hon, ac mewn ysgolion bach tebyg nid rhif yn unig ydach chi ond gwir unigolyn…mae'n rhaid i'r ysgol hon aros ar agor./Mae fy mhlant newydd symud i'r pentref ac i'r ysgol. Mae'n wych – perl o ysgol gyda naws cymunedol. Gresyn o beth ydy fod y syniad o gael ysgol fawr yn well nag ysgol fach./Aeth fy nau blentyn i'r ysgol wych hon a chael amser da iawn. Roedd yn bwysig iawn gen i eu bod yn mynd i ysgol oedd ag agwedd holistig tuag at addysg. Mae anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu mewn ysgol fach ac, yn fy marn i, mae hynny yn helpu plant i feithrin hyder sy'n arwain at greu oedolion cyflawn ac aeddfed./Fel rhiant i ddau o blant yn Ysgol y Clogau, rwyf yn gwybod fy hun am ethos gwych ac ansawdd uchel y dysgu a ddarperir gan yr arweinyddiaeth a'r staff. Mae'n hurtrwydd cau ysgolion mor arbennig er mwyn elwa o arian sydd wedi'i glustnodi. Mae hyn yn ddallineb | **D1/ D11/ D23/ D57/ D69/ D116/ D119/ D122/ D130/ D138/ D156/ D166/ D169/ D174/ D179** | Mae'r Cyngor yn falch iawn o glywed bod y plant yn elwa o waith arbennig y staff yn Ysgol Clogau. Bwriad y Cyngor yw bydd y cynnig hwn yn cynnal1`, ac mewn rhai agweddau, yn gwella ansawdd addysg yn y dalgylch tra hefyd yn buddsoddi mewn adnoddau sy'n addas ar gyfer y $21^{ain}$ ganrif. Bydd hyn yn ei dro yn cynnig y profiadau gorau posib i holl ddisgyblion y dalgylch er mwyn datblygu eu sgiliau a'u hyder.<br><br>Gall y cynnig hwn ddarparu hyblygrwydd ar draws yr holl oedrannau sydd yn angenrheidiol i sefydlu ymarfer safonol o rannu adnoddau, staff a chyfarpar. Gallai hefyd ddarparu cyd-destun mwy effeithiol i reolwyr reoli adnoddau ac i gynllunio addysg y sefydliad. Gallai Ysgol Ddilynol Ddalgylchol ddarparu cyfleoedd ychwanegol i gynnal ethos a gwerthoedd cyffredin ledled yr ysgol a dylai'r rhain ddarparu cyd-destun mwy effeithiol ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn deall fod wynebu cyfnod o newid yn gallu bod yn anodd i'r gymuned leol. Os gweithredir y cynnig, bydd y Cyngor yn ymrwymo i weithio gyda'r gymuned er lles y gymuned ac i liniaru unrhyw effaith negyddol a all ddeillio o'r newid.<br><br>Ar hyn o bryd mae nifer o benaethiaid cynradd yn dysgu am ran helaeth o'u hamser ac nid ydynt yn cael eu rhyddhau'n ddigonol i arwain, rheoli a chynllunio. Wrth greu strwythur arwain a rheoli newydd yn yr ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | llwyr ac yn hunan-laddiad gwleidyddol./Ysgol wych ar gyfer derbyn addysg, pennaeth deallus a gwych yn Helen ac mae hi a Sioned yr athrawes yn gwneud y tîm perffaith yn ogystal â'r staff Cefnogol. Mae'r disgyblion yn wastad yn ymddangos yn hapus iawn yn yr ysgol./ Fe fyddwn wedi bod ar goll heb yr help a'r gefnogaeth gefais i gan yr ysgol gyda'm plentyn hynaf. Ni allai fy mhlant fod wedi derbyn dechrau gwell mewn bywyd heb yr ysgol yn y Clogau. Athrawon gofalus, caredig ac arbennig iawn./Mae ysgolion bach yn rhoi mwy o sylw i'r disgyblion. Gwerthfawr iawn./Pennaeth rhagorol | | arfaethedig ni fydd yn ofynnol i'r pennaeth ddysgu am ran fwyaf ei amser. Bydd y strwythur yn caniatâu datblygu rheolwyr/arweinwyr safle a fydd yn magu sgiliau angenrheidiol i fod yn arweinwyr llwyddiannus, gyda'r sicrwydd o gefnogaeth ac unigolion profiadol i allu troi atynt. |
| **2** | Fy mhlentyn wrth ei bodd yn yr Ysgol yn union fel y gwnes i a'm sibling flynyddoedd yn ôl - atgofion melys o'r lle ac mae'n parhau i fod yn ysgol dda hyd heddiw / Ystyriwch yn ofalus sut fydd colli'r ysgol hon yn effeithio ar blant ifanc sy'n blodeuo mewn amgylchedd llai ac a fydd ar goll ac yn ddihyder mewn sefydliad addysgol llai personol - efallai yn gorfod teithio'n bell i gyrraedd yno. Plant bach ydy'r rhain, nid pobl ifanc yn eu harddegau / Nai wrth ei fodd yn dod adref yn dweud hanes ei ddydd / Mi fûm i yn yr ysgol gynradd hon ac mae'n rhaid imi ddweud mai hon oedd yr ysgol orau am filltiroedd / Fydd ei chau yn niweidio cymuned Bontddu ac yn gorfodi rhieni i yrru eu plant i ysgolion pellach i ffwrdd / Mi es i'r ysgol hon o 5 tan 11 a phan gyrhaeddais Ysgol y Gader, gwelais fy mod wedi cael gwell addysg a phrofiad na'm cyfoedion yn Nolgellau. | **D7/ D27/ D28 D87/ D93/ D100/ D103** | |
| **3** | Rhan annatod o'n cymuned / Fel plentyn ysgol fach sydd wedi cau (Ysgol Parc) rwyf yn gwybod pa effaith mae cau ysgol fach yn ei gael ar y gymuned - lladd y gymuned. Gwahanu plant oddi wrth ei gilydd ac yn achosi tensiwn / Dim gallu fforddio colli ysgol lleol gan fod hyn yn addysg i'r plant ond hefyd yn rhwydwaith cymuned leol i oedolion sy'n hanfodol i les ein cymunedau / Ysgol gyfeillgar gyda staff ymroddedig ac mae wedi bod wrth galon y gymuned gyfan / Pwysig iawn ar gyfer ein cymunedau a bywyd y pentref./Plîs cefnogwch yr ysgolion bach hyn sy'n allweddol i fywyd y cymunedau lleol./ Mae cau ysgolion lleol yn cael gwared ar galon y gymuned./Allwch chi ddim cau'r ysgol hon gan ei bod yn ysgol dda i'r gymuned sy'n byw yno./Ysgolion bach ydy craidd ein cymunedau – a'r iaith. Mae cau'r ysgol yn lladd y gymuned./Plîs peidiwch â chau ein hysgolion. Efallai ei bod yn rhatach yn haws lleihau nifer y swyddogion yn y Cyngor ac allanoli gwasanaethau./Mae ysgolion bach cymunedol yn cael eu trysori. Gresyn fyddai gweld hon yn cau. | **D1/D2 /D7/ D23/ D67/ D93/ D114/ D116/ D132/ D151/ D153/ D154/ D163** | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod unrhyw ysgol yn gallu bod yn rhan annatod o'r gymuned gyfagos a bod gan drigolion deimladau cryfion ynghylch cynnal yr ysgol leol. Serch hynny, rhaid pwysleisio mai diben ysgol mewn unrhyw bentref yw darparu addysg o'r radd flaenaf i'r disgyblion. Diben y cynnig yw sefydlu trefn addysgol o'r ansawdd uchaf posibl i ddisgyblion dalgylch y Gader gan ddatblygu profiadau, sgiliau a hyder er mwyn eu galluogi i ddatblygu i'w llawn potensial.<br><br>Wedi dweud hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod bod cau safleoedd addysgol mewn pentref yn cael effaith negyddol ar y cymunedau ond bod mesurau lliniaru yn gallu lleihau'r effaith negyddol. Mae'r adroddiad effaith cymunedol yn nodi:<br>*"Mae effaith y Modelau ar y cymunedau, a pha mor bellgyrhaeddol yw'r ardrawiad yn ddibynnol ar y mesurau lliniaru sy'n cael eu mabwysiadu mewn ymateb i'r newid. Mae hyn yn wir ym mhob un o'r 8 Model. Ar gyfer y cymunedau ble bydd ysgol yn cau, awgrymir mabwysiadu rhai mesurau i liniaru'r effaith negyddol. Bydd y mesurau lliniaru hyn yn cael eu hystyried gan y Cyngor i'w hymgorffori pe penderfynir gweithredu ar yr argymhellion yn y dalgylch:*<br>• *Er mwyn creu ysbryd cynhwysol a pherchnogaeth, dylid sicrhau ar gychwyn a thrwy gydol y broses drosiannol fod Llywodraethwyr pob ysgol yn rhan annatod* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *o'r datblygiadau a'r penderfyniadau gyda gwybodaeth reolaidd yn cael ei rhaeadru i rieni,*<br>*• Ymgynghori'n briodol gyda'r pentrefi a'r cymunedau lleol o ran cytuno ar ddefnydd pwrpasol o'r holl adeiladau i'r dyfodol*<br>*• Dylid rhaglennu i sicrhau fod cyfran o weithgareddau cymdeithasol yr ysgolion newydd (cyngerdd, noson goffi, ayyb) yn cael eu cynnal yn y pentrefi lle mae ysgolion yn cau, yn ogystal â'r pentrefi lle bydd presenoldeb safle ysgol yn parhau*<br>*• Dylai'r Cyngor sicrhau fod cynlluniau cludiant ysgol yn bwrpasol"*<br><br>Gall y Cyngor roi ystyriaeth bellach i'r mesurau lliniaru hyn os gweithredir y model. |
| **4** | Camgymeriad difrifol a cholled parhaol anferthol i'r ysgol arbennig hon / Ysgol Clogau angen cyfle i symud ymlaen heb gwmwl du 'cau' uwch ei phen / Gwrandwch arnon ni os gwelwch yn dda / Cadwch ysgol wych hon ar agor / Siomedig iawn clywed fod yr ysgol yn cau - fe wnes i gael addysg wych yno / Plîs cadw ein hysgol ar agor / Mae'n helpu plant sydd angen sylw / Arbedwch ein hysgol, arbedwch ein pentref a pheidiwch â chrogi'r Gymru wledig / Trist gweld yr ysgol yn cau / Drasig fod ysgol sydd wedi cael effaith ar fywydau cymaint o plant a phobl ifanc sydd wedyn yn tyfu i fod yn oedolion eu cymunedau yn y dyfodol, yn cael ei dibrisio yn y fath fodd am resymau gwleidyddol / Gadwch llonydd i'n hysgolion - bach yw'r gorau / Peidiwch â tharfu ar y lleoliadau hapus ac addysg lawn oedolion y dyfodol / Arbedwch ein hysgolion / Allai ddim credu bod yr ysgol wych hon yn cau - fy ysgol gynradd i ac roedd yn wych / Cadwch yr ysgol hon ar agor fel bod ein plant yn gallu mynd iddi./Pam bod yn rhaid i'r ysgolion bach hyn gau? Pam na wnewch chi wario arian ar ysgolion cyfredol lle mae plant yn hapus yn hytrach na gwario ar ysgolion mawr newydd lle mae plant yn ystadegau yn unig?/Ysgol y Clogau yw'r ysgol orau yn yr ardal, peidiwch â'i chau. Fe fydd cymaint yn cael ei golli os bydd ysgolion gwledig fel hyn yn cael eu cau. Mae'r hyn y mae plant sy'n mynychu'r ysgolion hyn yn ei gael o ran gwerthoedd yn rhoi iddynt y dechrau gorau ar gyfer y bydd sydd ohoni. Os byddwn yn gadael i'r ysgolion hyn fynd, fe fyddwn yn gwaredu'r hyn sydd yn wirioneddol dda am y ffordd Brydeinig o fyw. Rwyf yn teimlo'n freintiedig o gael y cyfle i anfon fy merch i ysgol fel hon. Mae hi'n hyderus ac yn hapus ac yn aelod defnyddiol o'r gymuned lle mae hi'n dewis byw. Cadwch yr ysgolion bach hyn ar agor os gwelwch yn dda./Ni ddylid cau'r ysgol hon/Fe es i Ysgol y Clogau ac roedd hi'n ysgol gynradd wych a fu o help mawr i nifer o ddisgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg. Rwyf yn hynod falch ohoni a gresyn fyddai | **D1/ D3/D5 /D7/D 8/ D17/ D23/ D28/ D29/ D30/ D34 /D39/ D44/ D62/ D59/ D73 /D76/ D107/ D108/ D109/ D114/ D131/ D141/ D144/ D150/ D158/ D149/** | Mae'r Cyngor yn falch o glywed am brofiadau da disgyblion a chyn-ddisgyblion Ysgol Clogau. Mewn ymateb i'r sylwad ynghylch pam bod rhaid i ysgolion bach gau, hoffai'r Cyngor nodi nad yw pwyslais y cynnig hwn ar gau ysgolion bach. Bwriad y cynnig hwn yw cynnal a pharhau ag elfennau gorau addysg ac ethos y dalgylch tra'n buddsoddi mewn adnoddau sy'n addas ar gyfer y $21^{ain}$ ganrif. Y nod yw darparu addysg gynradd ar 5 safle yn hytrach na 9 safle gan arwain at well adnoddau, cysoni safonau. Mewn rhai agweddau, y nod yw gwella'r ddarpariaeth addysg yn y dalgylch gan sicrhau fod adnoddau yn cael eu dosbarthu'n decach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ei chau. / Ysgol fach ragorol. Byddai ei chau yn drasiedi i'r gymuned./Gwarthus hyd yn oed ystyried cau'r ysgol gymunedol wych hon. | **D159/ D160** | |
| **5** | Sut mae 1 athro yn dysgu dosbarth o 30 o blant yn well i'w haddysg? Rydym yn gorfod gwrando ar y ffeithiau a'r ffigurau hyn ond maen nhw'n gwrthod ymateb i lythyr syml? Faint o'r bobl hyn sydd yn gwneud penderfyniadau sydd â phlentyn yn unrhyw un o'r ysgolion hyn? / Credu fod addysgu grwpiau bychain o blant mewn ystafell ddosbarth yn well i blant ac i'w haddysg / Credu fod yr ysgol wedi gwneud yn dda iawn dros y blynyddoedd wrth addysgu plant lleol / Symudais fy mhlentyn yma gan ei bod yn cael trafferthion yn ei hysgol gynradd flaenorol / Safon y dysgu a'r sylw i bob plentyn mewn ysgol mor fach heb ei debyg - cyfrannu at gymeriad unigryw ardaloedd gwledig ac yn dod â chymunedau at ei gilydd / Trasig colli hyn./Mae ansawdd yn aml yn costio mwy gan ei fod angen agwedd wahanol. Mae diogelu addysg i fod yn hanfodol, felly pam fod pawb mor benderfynol o ddifrodi addysg a difetha'r diwylliant a'r iaith? Pam ddim cadw'r hyn sydd wedi gweithio am flynyddoedd lawer. | **D4/D44/D57/D103/D145** | Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddiogelu addysg yn yr ardal trwy sicrhau darpariaeth gynaliadwy a hyfyw i'r dyfodol. Yn yr hinsawdd ariannol ddigynsail sydd ohoni, mae'n rhaid gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o adnoddau gan gadw ansawdd addysg a phrofiad disgyblion yn ganolog ym mhob cynnig.<br><br>Bydd y cynnig hwn yn sicrhau'r lefel staff priodol, ac yn creu mwy o ddosbarthiadau o'r maint addas gyda disgyblion o'r un oed. O ganlyniad, y gobaith yw y bydd hwyluso dysgu ac addysgu i'r staff, gan fod llai o wahanol feysydd llafur (cwricwlwm angen eu dysgu). Bydd disgyblion yn gallu dysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion. Cynigir ymatebion mwy helaeth i gwestiynau ar fanteision addysgol y model ysgol ddilynol yng nghorff y tabl dadansoddi'r gwrthwynebiadau.<br><br>O ran elfen effaith ieithyddol, mae'r Cyngor o'r farn na fydd y model hwn yn cael effaith negyddol ar yr iaith. Yn wir, canfuwyd mewn asesiad ieithyddol annibynnol y byddai'r model hwn yn cael *"effaith cadarnhaol sy'n cynnig cyfle i sicrhau cysondeb ar draws y dalgylch cyfan....[mae'r] model hwn yn cynnig manteision arbennig o ran cynllunio a darparu addysg statudol fydd yn gyson ac yn deillio o un weledigaeth gyflawn yn hytrach na chyfeiriad amrywio nifer o sefydliadau fydd , yn anorfod, a safbwynt amrywiol o ran dyhead i gyflawni polisi iaith addysg y sir a chreu dinasyddion ifanc hyfedr ddwyieithog. Mewn dalgylch lle mae'r Gymraeg yn wynebu sawl her sylfaenol, efallai'n wir mae cynllunio'r ddarpariaeth ar sail un weledigaeth sefydliadol yw'r ffordd orau i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio a dysgu mwy fyddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch."* |
| **6** | Pe byddai Gwynedd yn trysori diwylliant Cymraeg yn Eryri, fe fyddai'n sylweddoli fod yr ysgolion bach hyn fel perlau yn y bywyd gwledig prysur a gwerthfawr sy'n goroesi yn y tirwedd gwych / Wrth gau am byth lle mor arbennig a chreadigol, ni welir plant ifanc yn tyfu fyny ac yn dysgu yn y rhan yma o aber yr afon Mawddach / Cynghorwyr yn lladd y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu / Ddim meddwl am ragrith gwaeth / Gwleidyddiaeth plaid yn gwneud cam â phobl - plant sy'n dioddef ac yn talu'r pris wrth law'r | **D39/ D46/ D73/ D74/ D109/ D116/ D146/** | Yr hyn mae'r cynnig hwn yn ceisio ei wneud yw ymateb i'r sefyllfa bresennol, sy'n anghynaladwy, trwy sefydlogi'r ddarpariaeth yn y dalgylch a datblygu darpariaeth hyfyw a gwydn i'r dyfodol. O ran y sylwadau sy'n cyfeirio at barhad addysg gynradd wledig Gymraeg, hoffai'r Cyngor amlygu bod pedwar safle gwledig cynradd yn parhau – Dinas Mawddwy, Llanelltyd, Rhydymain a Friog. Serch hynny, mae'r Cyngor yn derbyn y pryderon a fynegir ynglŷn ag effaith posib cau ysgolion ar gymunedau gwledig ac os gweithredir y cynnig, bydd y Cyngor yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynghorwyr / Cau ysgol sy'n darparu addysg wych am resymau ariannol yn warthus a dylai'r Blaid a Llafur fod â chywilydd / Ni ellir dadwneud unrhyw beth fel hyn / Peryglu addysg pob un o blant Gwynedd / Cynghorwyr roi gorau i wastraffu arian mewn mannau eraill a chadw gwasanaethau fel ysgolion ar agor / Meddyliwch am y plant am unwaith / Cyngor Gwynedd - cadwch yr ysgol hardd hon ar agor / Digon o arian ar gyfer brwydro rhyfeloedd pobl eraill, rhyfeloedd, a lesion Porsches ar gyfer rheolwyr y Cyngor…beth am les ein plant? / Cyngor Gwynedd yn ceisio dinistrio'r hen Sir Feirionnydd - maent wedi ei hail-enwi yn De Gwynedd./Ddylai hyn byth fod ar yr agenda./Mae'r Gymru wledig mewn argyfwng. Mae'r toriadau parhaus i wasanaethau ac yn enwedig cau ein hysgolion gwledig yn lladd ein cymunedau yn boenus o araf. Mae'r ffaith fod yr ysgolion yn cael eu cau gan Blaid Cymru, y blaid sy'n honni bod yr unig blaid sy'n gwrando ar bobl Cymru, yn hynod sarhaus, yn enwedig pan fo cymunedau cyfan, fel Y Parc ger y Bala wedi erfyn ar i'r ysgolion gael eu cadw ar agor ond bod hynny wedi cael ei anwybyddu. Mae ein hysgolion pentrefi yn rhan annatod o fywyd gwledig, maent yn rhan o blethwaith ein diwylliant ac yn meithrin yr iaith Gymraeg mewn modd na ellir ei wneud mewn mannau eraill. Mae ein hysgolion gwledig yn rhoi i'r plant deimlad o le a pherthyn i'w cymunedau. Pa hawl sydd gan unrhyw un i ddwyn trysor o'r fath oddi arnon ni? Mae Ysgol Bontddu yn gymaint mwy na set o rifau ar daflen targed. Mae'n amhosibl gwerthuso'r manteision emosiynol y mae'r plant yn eu cael o'u hamgylchedd dysgu cynnes. Mae'r 'ymgynghoriad' yn groes i ddemocratiaeth ac yn sarhad i deimladau plant, rhieni, staff a'r gymuned ehangach. | **D147** | ymrwymo i weithio gyda'r gymuned i liniaru'r effaith. |
| **7** | Deilliannau addysgol mesuradwy wedi bod yn absennol o'r broses ad-drefnu ysgolion yn y dalgylch hwn gan olygu bod rhieni yn ansicr iawn a fydd safonau addysgol yn gwaethygu, cael eu cynnal neu'n gwella | **D98** | Pwysleisir mai un o brif amcanion y Strategaeth yw gwella ansawdd addysg a chynnig y profiadau gorau bosib i blant ddatblygu eu sgiliau a'u hyder. Mae'r cynllun arfaethedig wedi ei seilio ar dystiolaeth a gwerthusiad opsiynau llawn. Rhoddwyd ystyriaeth i nifer o ffactorau wrth ffurfio'r cynnig, gan gynnwys gwella ansawdd addysg a ffactorau megis safon addysg, maint dosbarthiadau, arweinyddiaeth a rheolaeth, niferoedd disgyblion, ansawdd ac addasrwydd adeiladau ayb. |
| **8** | Hefyd, a wnewch chi ymyrryd i gau Ysgol Llanfachreth, Ysgol y Ganllwyd ac Ysgol Brithdir | **D149** | Mae'r sylw wedi'i nodi. |

**REPORT TO THE CABINET**

**19 May 2015**

**Cabinet Member:** **Councillor Ioan Thomas**

**Subject:** **Adopt and promote the *.cymru* domain name**

**Contact officer:** **Idris Jones**

---

## Decision sought

The Cabinet to approve the following:

- to buy www.gwynedd.llyw.cymru and www.gwynedd.gov.wales when they become available
- to promote www.gwynedd.llyw.cymru alone for the website
- continue to use Welsh and English endings for friendly addresses in order to direct customers to the page in their chosen language on the website (E.g. www.gwynedd.gov.uk/cynllunio and www.gwynedd.gov.uk/planning)
- adopt only Welsh addresses (@gwynedd.llyw.cymru) for e-mails
- adopt only Welsh addresses for generic e-mail addresses to be used on Welsh and English pages on the website (E.g. trethcyngor@gwynedd.llyw.cymru)
- replace www.gwynedd.gov.uk addresses with www.gwynedd.llyw.cymru on materials and publications when they expire

---

## Opinion of local member

Not a matter for local members

---

## Introduction

The international body, responsible for co-ordinating the world wide system for domain names, has approved the domain names *.cymru* and *.wales.*

Gwynedd Council's current domain name is www.gwynedd.gov.uk and the ending for e-mail addresses is .gov.uk. By adopting a .cymru domain name, the website address would be www.gwynedd.llyw.cymru and the endings for e-mail addresses would be @gwynedd.llyw.cymru. If .wales was also adopted the English address for the website would be www.gwynedd.gov.wales and the English ending for e-mail addresses would be @gwynedd.gov.wales

## Reasons for recommending the decision

Gwynedd has been progressive in promoting the use of the Welsh language in all aspects of life over the years. Establishing the domain *.cymru and .wales* puts Wales and the Welsh language on the map in the digital world and by adopting .cymru Gwynedd would be a part of this, encouraging others to embrace a technical development which highlights the language.

## Relevant considerations

1. **Adopting and promoting .llyw.cymru and .gov.wales equally or promoting .llyw.cymru only.**

### 1.1 Council website

The language setup, approved by the Welsh Language Commissioner's Office, on the Council's website, which promotes the use of the Welsh language is:

- Welsh is the website's default language.
- If a customer types www.gwynedd.gov.uk into their browser, on their first visit to the website, they will go to the website's Welsh language homepage. At the end of their first visit a cookie is placed on their computer to remember the language of the website when they left.
- If a customer chooses to switch off their cookies this address will direct them to the Welsh language homepage every time it is typed in.

The Welsh Language Commissioner's Office has confirmed that it would be acceptable to promote www.gwynedd.llyw.cymru only for the Council's website as long as we ensure that www.gwynedd.gov.wales is also operational in the background.

### 1.2 Friendly addresses

Friendly addresses are used to promote certain information on the website, e.g. www.gwynedd.gov.uk/cynllunio and www.gwynedd.gov.uk/planning.

There would be a need to continue to use the Welsh and English endings in order to direct customers to the information in their chosen language, therefore the friendly addresses above would change to www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunio and www.gwynedd.llyw.cymru/planning

### 1.3 E-mail addresses

To ensure consistency the @gwynedd.llyw.cymru e-mail address alone would need to be adopted. A technical arrangement would ensure that any e-mail using @gwynedd.gov.wales would be re-directed to the appropriate officer's inbox.

**1.4 Generic e-mail addresses used on the Council website**

Generic e-mail addresses are used on the website in order to contact departments. E.g. trethcyngor@gwynedd.gov.uk is promoted on Welsh pages and counciltax@gwynedd.gov.uk is promoted on English pages.

In order to ensure consistency these will be replaced by trethcyngor@gwynedd.llyw.cymru only.

**1.5 Redeirecting .gov.uk traffic**

For a period of 3-4 years website traffic and e-mails from gwynedd.gov.uk can be redirected to gwynedd.llyw.cymru but after this the gwynedd.gov.uk address will not work.

2. **New domain costs**

   Details of costs have not been provided to date but it is not expected that the cost per domain would be much more than the Cabinet Office's current cost for .gov.uk addresses. However, we would be buying two domains rather than one (.llyw.cymru and .gov.wales).

3. **Marketing new addresses**

   In order to avoid excessive spending on marketing, materials and addresses on publications can be changed from www.gwynedd.gov.uk to www.gwynedd.llyw.cymru when they expire. The possible reorganisation of Council boundaries in a few years' time could also lead to the need for re-branding of materials and signs. As redirection arrangements will be operational for 3-4 years customers using the current domain will still be able to contact the Council and access the website during this time.

## Next steps and timetable

The Welsh Government is the keeper of the .llyw.cymru and .gov.wales domain names and it has announced that the names are likely to be available for Councils to adopt during the second quarter of 2015.

## Views of Statutory Officers

### Chief Executive:

Cabinet members will recall the full Council debating a Notice of Motion on the question of domain names in October, 2014. This recommendation does reflect the Council's wish to promote the use of the Welsh Language in the digital world.

### Monitoring Officer:

I'm satisfied that developing the use of the new domain as outlined in the report is in keeping with the Council's policies. No further comments to add in relation to propriety.

### Head of Finance:

As the report notes, there will be some direct costs to buy the new domains, but I am of the opinion that this purchase can be financed from existing budgets. Similarly, the report also outlines the indirect costs that will arise from having to change the website address and email addresses on materials etc. As this can be done over a period of some years, I am convinced that these amendments can be done within the budgets of individual services. I have no objection to the decision sought from a financial perspective.